



Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cynllun Datblygu Lleol Hyd At 2021

Written Statement

Adopted November 2010

Pat Mears - BSc. (Econ) (Hons); Dip. T.P; M.R.T.P.I
Prif Swyddog Cynllunio



Rhagair

Mae'n bleser gen i, fel Aelod Trafnidiaeth a Chynllunio'r Cabinet, gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Caerffili. Mabwysiadwyd y Cynllun gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar Dachwedd 23 2010.

Mae'r CDLI yn neilltuo tir ar gyfer datblygiadau angenrheidiol newydd ac yn pwysleisio'r angen am ffyrdd cynaliadwy o ddatblygu. Bwriad y CDLI yw gwarchod yr amgylchedd ar gyfer anghenion ein plant yn y dyfodol ac ar gyfer ein hanghenion ninnau heddiw.

Mae'r CDLI yn rhoi cryn bwyslais ar sicrhau dyfodol hyfyw i'r Trefi, Canolfannau a Phentrefi amrywiol ar hyd a lled ein Bwrdeistref Sirol. Mae'n dynodi tir ar gyfer tai, cyflogaeth ac adnoddau cymunedol, yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr ac adeiladwyr. Mae hyn yn ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniadau buddsoddi pwysig.

Mae ar y fwrdeistref Sirol hefyd angen fframwaith polisi cynllunio y bydd gan bawb hyder ynddo, ac sy'n berthnasol ac yn amserol. Drwy fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol mae'r Cyngor wedi creu fframwaith o'r fath.

Yn olaf, hoffwn longyfarch y Prif Swyddog Cynllunio, Mr Pat Mears, a'i staff am eu gwaith yn sicrhau mai ni yw'r Awdurdod Unedol cyntaf yng Nghymru i baratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol. Nid gwaith hawdd fu hyn ac mae'n enghraifft wych o ansawdd ac ymroddiad ein staff yng Nghaerffili



Y Cynghorydd Rob Gough

Aelod Cabinet, Trafnidiaeth a Chynllunio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Adran	Tudalen	Adran	Tudalen
Cyflwyniad	6	Cynllun Gofodol Cymru	13
Proses Cynllun Datblygu	6	Troi Pennau – Strategaethau Blaenau'r Cymoedd (2006)	13
Y Cynllun Datblygu a'r System Gynllunio	6	Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006 - Tai	14
Diben y Cynllun Datblygu Lleol	7	Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	14
Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol a Rhanbarthol	7	Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru	15
Strategaethau'r Cyngor	8	Gweithgor Rhanbarthol Agregau De Cymru Datganiad Technegol Rhanbarthol	15
Gweithdrefnau Paratoi'r Cynllun a'r Cytundeb Darparu	8	Strategaeth Gymunedol CBS Caerffili Gweithredu Cynllunio Cymunedol	15
Asesiad Cynladwyedd (AC), Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), ac Asesiad Rheoleiddiadau Cynefinoedd (ARC)	8	Materion Allweddol yn Ymwneud â Defnydd Tir	16
Prawf Cadernid	9	Cyflwyniad	16
Ffurf y Cynllun	9	Cymdeithasol	16
Dogfennau a Strategaethau Cefndirol	11	Economaidd	17
Statws y Dogfennau a Diddymiadau	11	Amgylcheddol	18
Cyd-Destun Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol	12	Datganiad Cenhadaeth	19
Sicrhau Datblygu Cynaliadwy	12	Amcanion	20
Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol	12	Prif Amcanion	21
Polisi Cynllunio Mwynau	12	Monitro A Gweithredu	22
Ailadrodd Canllawiau Cenedlaethol	12	Adran A: Y Strategaeth Ddatblygu	24
		Y Strategaeth Ddatblygu	24
		Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd (AABC)	24
		Y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol (TGG)	25
		Prif Ddiagram	26
		Y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol (TGD)	27

Adran	Tudalen	Adran	Tudalen
Wyth Prif Efen y Strategaeth	28	SP11 Hamdden mewn Ardaloedd Gwledig	41
1 Targedu datblygiadau i adlewyrchu rolau a swyddogaethau cymdogaethau unigol	28	SP12 Datblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd	41
2 Caniatáu cyfleoedd datblygu yn ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd	28	SP13 Canolfan Hamdden o fewn i Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd	41
3 Hybu agwedd gytbwys tuag at reoli twf yn y dyfodol	29	SP14 Cyfanswm Anghenion Tai	42
4 Manteisio ar gyfleoedd tir llwyd pan yn addas	30	SP15 Targed Tai Fforddiadwy	42
5 Hybu patrymau ymgartrefu sy'n defnyddio adnoddau yn effeithiol	31	SP16 Rheoli Twf Cyflogaeth	42
6 Sicrhau bod datblygiadau yn cyfrannu at ddatblygiadau seilwaith angenrheidiol	33	SP17 Hybu Datblygiadau Masnachol	43
7 Sicrhau bod datblygiadau yn darparu'r adnoddau cymunedol sydd eu hangen	33	SP18 Gwarchod y Rhwydwaith Hamdden Strategol	43
8 Lleihau effaith datblygiadau ar ardaloedd gwledig	34	SP19 Gwella'r Seilwaith Trafnidiaeth	44
Polisiau Strategol	36	SP20 Hierarchaeth Heolydd	44
SP1 Strategaeth Ddatblygu yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd	36	SP21 Safonau Parcio	45
SP2 Strategaeth Ddatblygu yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol	36	SP22 Adnoddau Cymunedol, Hamdden ac Addysg	45
SP3 Strategaeth Ddatblygu yn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol	37	Adran B: Polisiau Sy'n Berthnasol i'r Sir Gyfan	46
SP4 Strategaeth Ymgartrefu	37	Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cyfarwyddyd Cynllunio Cenedlaethol	46
SP5 Ffiniau Anheddau	38	CW1 Trafnidiaeth Gynaliadwy, Hygyrchedd a Chynhwysiant Cymdeithasol	47
SP6 Creu Lleoedd	38	CW2 Amwynderau	47
SP7 Goblygiadau Cynllunio	39	CW3 Ystyriaethau Cynllunio Prif ffyrdd	48
SP8 Gwarchod Mwynau	39	CW4 Gwarchod Etifeddiaeth Naturiol	48
SP9 Rheoli Gwastraff	40	CW5 Gwarchod yr Amgylchedd Ddŵr	49
SP10 Gwarchod yr Etifeddiaeth Naturiol	40	CW6 Gwarchod Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd	50
		CW7 Gwarchod Mannau Agored	51
		CW8 Gwarchod Adnoddau Cymunedol a Hamdden	51

Adran		Tudalen	Adran		Tudalen
CW9	Gwarchod Cyfleusterau Masnachol Ardaloedd Gwledig	51	NH1	Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA)	65
CW10	Darpariaethau Hamdden a Mannau Agored	51	NH2	Tirweddau Lleol o Bwysigrwydd Gweledol (TLIBW)	66
CW11	Goblygiadau Cynllunio Tai Fforddiadwy	52	NH3	Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN)	66
CW12	Safleoedd wedi eu heithrio o Dai Fforddiadwy	54	MW1	Cyfleusterau Trin Mwynau a Gwastraff	67
CW13	Dosbarth Defnydd: Busnes a Diwydiant	55	MN1	Parthau Clustogi Safleoedd Mwynau	68
CW14	Cyfngiadau Dosbarth Defnydd: Manwerthu	55	MN2	Gwarchod Mwynau	68
CW15	Cyfngiadau Cyffredinol ar y Lleoliad	56	HG1	Safleoedd Wedi Eu Neilltuo ar gyfer Tai	69
CW16	Cyfngiadau Yn Sgil Lleoliad: Manwerthu	56	EM1	Ardaloedd wedi eu Neilltuo ar gyfer Cyflogaeth	70
CW17	Cyfngiadau Yn Sgil Lleoliad: Warysau Manwerthu	57	EM2	Gwarchod Ardaloedd Cyflogaeth	70
CW18	Cyfngiadau Yn Sgil Lleoliad: Tai ar gyfer Pobl sydd Angen Gofal	57	CM1	Prif Ffin Canol y Dref	71
CW19	Cyfngiadau Yn Sgil Lleoliad: Datblygiad Gwledig ac Arallgyfeirio	57	CM4	Prif Safleoedd Datblygu Anheddau a'r Dref	71
CW20	Cyfngiadau Yn Sgil Lleoliad: Trawsnewid, Ymestyn a Disodli Adeiladau Gwledig	58	CM5	Ardal Cyfle Masnachol	71
CW21	Cyfngiadau Yn Sgil Lleoliad: Safleoedd Carafán Teithwyr a Sipsiwn	59	CF1	Cyfleusterau Cymunedol	72
CW22	Cyfngiadau Yn Sgil Lleoliad: Mwynau	60	LE1	Gwrachod Llefydd Agored Ffurfiol	72
CW23	Cyfngiadau Yn Sgil Lleoliad: Parthau Clustogi Safleoedd Mwynau	60	LE2	Clustnodi Parciau Gwledig	73
			LE3	Gwarchod Parciau Gwledig	73
			LE4	Cyfleusterau Hamdden Ffurfiol	73
			LE5	Gwrachod Llefydd Agored Anffurfiol	73
			TM1	Cynigion Twristiaeth	74
			TR1	Llwybrau Seiclo	74
			TR4	Cyfleusterau Parcio a Theithio	75
			TR8	Gwelliannau Ffordd fawr yn ymateb i Adfywio	76
				Gweithredu a Chwblhau - Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd	77
				Ardal Strategaeth 2:	
				Y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol	78
				Y cyd-destun isranbarthol	78
SI1	Lletemau Glas	65	SI1	Lletemau Glas	83
			NH1	Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA)	83
			NH2	Tirweddau Lleol o Bwysigrwydd Gweledol (TLIBW)	84

Adran		Tudalen	Adran		Tudalen
NH3	Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN)	84	NH2	Tirweddau Lleol o Bwysigrwydd Gweledol (TLIBW)	102
MN1	Parthau Clustogi Safleoedd Mwynau	86	NH3	Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN)	102
MN2	Gwarchod Mwynau	86	MN1	Parthau Clustogi Safleoedd Mwynau	104
HG1	Safleoedd Wedi Eu Neilltuo ar gyfer Tai	87	MN2	Gwarchod Mwynau	104
EM1	Ardaloedd wedi eu Neilltuo ar gyfer Cyflogaeth	88	HG1	Safleoedd Wedi Eu Neilltuo ar gyfer Tai	105
EM2	Gwarchod Ardaloedd Cyflogaeth	89	EM1	Ardaloedd wedi eu Neilltuo ar gyfer Cyflogaeth	106
CM1	Prif Ffiniau Canol y Dref	90	EM2	Gwarchod Ardaloedd Cyflogaeth	107
CM2	Ffin Parc Adwerthu a Warws Porth Coed Duon	91	CM1	Prif Ffiniau Canol y Dref	107
CM3	Gwarchod Ardal o Bwys ar gyfer Prif Ganol Tref Y Coed Duon	91	CM2	Ffin Parc Adwerthu a Warws Gallagher	108
CM4	Prif Safleoedd Datblygu Anheddau a'r Dref	91	CM3	Gwrachod Ardal o Bwys ar gyfer Prif Ganol Tref Caerffili	109
CM5	Ardal Cyfle Masnachol	92	CM4	Prif Safleoedd Datblygu Anheddau a'r Dref	109
CF1	Cyfleusterau Cymunedol	92	CM5	Ardal Cyfle Masnachol	110
LE1	Gwrachod Llefydd Agored Ffurfiol	92	CF1	Cyfleusterau Cymunedol	110
LE3	Gwarchod Parciau Gwledig	93	LE1	Gwrachod Llefydd Agored Ffurfiol	110
LE4	Cyfleusterau Hamdden Ffurfiol	93	LE2	Clustnodi Parciau Gwledig	111
LE5	Gwrachod Llefydd Agored Anffurfiol	93	LE3	Gwarchod Parciau Gwledig	111
TM1	Cynigion Twristiaeth	94	LE4	Cyfleusterau Hamdden Ffurfiol	112
TR1	Llwybrau Seiclo	94	LE5	Gwrachod Llefydd Agored Anffurfiol	112
TR2	Gwasanaeth Teithwyr Trên Newydd	95	TM1	Cynigion Twristiaeth	112
TR3	Gorsafoedd Trên Newydd	95	TR1	Llwybrau Seiclo	113
TR4	Cyfleusterau Parcio a Theithio	96	TR3	Gorsafoedd Trên Newydd	113
TR5	Cynlluniau Gwella Trafnidiaeth – Y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol	96	TR4	Cyfleusterau Parcio a Theithio	114
TR7	Heolydd Newydd i Hwyluso Datblygu	96	TR6	Cynlluniau Gwella Trafnidiaeth: Basn Caerffili	114
	Gweithredu a Chwblhau - Y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol	97	TR7	Heolydd Newydd i Hwyluso Datblygu	115
	Ardal Strategaeth 3:		TR9	Gwarchod Tramwyfa'r Heolydd	115
	Y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol	98		Gweithredu a Chwblhau - Y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol	115
	Y cyd-destun isranbarthol	98			
SI1	Lletemau Glas	101			
NH1	Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA)	101			

Appendices are available as a separate document.

Proses Cynllun Datblygu

- 0.1

Y cynllun Datblygu Lleol yw'r fframwaith statudol ar gyfer datblygu a defnydd tir y tu fewn i Fwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'n cymryd lle'r Cynlluniau Strwythurol, Cynlluniau Lleol, a Chynllun Datblygu Unedol, Ebrill 2003, y cytunwyd arno gan y Cyngor. Mae'r cyflwyniad hwn yn amlinellu rôl y Cynllun, ei berthynas â strategaethau a chanllawiau eraill, a'r broses ymgynghori.
- 0.2

Bwriad y System Gynllunio Gwlad a Thref yw rheoleiddio datblygiad a defnydd tir er budd y cyhoedd. Ei fwriad yw priodi anghenion datblygu'r boblogaeth gydag ystyriaethau amgylcheddol ehangach ynghylch cadw amgylcheddau naturiol ac amgylcheddau a wnaed gan bobl. Mae ganddo hefyd y nod o sicrhau bod yr adnoddau tir prin yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl, tra hefyd yn symbylu'r economi leol er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- 0.3

Mae Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn golygu bod angen i'r Cyngor baratoi Cynllun Datblygu

Y Cynllun Datblygu a'r System Gynllunio

Lleol (CDLI) er mwyn i'r Bwrdeistref Sirol weithredu fel fframwaith sengl i reoli datblygu a defnyddio tir y tu fewn i'w ffiniau gweinyddol.

0.4 Mae'r CDLI yn fframwaith polisi a datblygu strategol ar gyfer anghenion datblygu a chadwraethol y Fwrdeistref Sirol dros y bymtheg mlynedd nesaf, o 2006 i 2021. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r CDLI i lywio a rheoli datblygu. Hwn fydd y sail bob tro ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio.

0.5 Mae'n rhaid i'r CDLI fod yn glir a thryloyw, yn gryno ac yn hygyrch i'r cyhoedd ac yn hawdd i'w adolygu yn y dyfodol.

0.6 Mae'r CDLI wedi ei baratoi yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol a deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae nifer o adroddiadau cefndir a data technegol arall y cyfeirir atynt fel 'Sylfaen Dystiolaeth' wedi llywio strategaeth ddatblygu, cynigion a pholisïau'r Cynllun.

0.7 Mae'r CDLI sydd wedi ei fabwysiadu yn cymryd lle'r cyfuniad o gynlluniau strwythur, cynlluniau lleol a'r Cynllun Datblygu Unedol a Gymeradwywyd gan y Cyngor, sydd ar hyn o bryd yn sail i fframwaith cynllunio'r Fwrdeistref Sirol.

0.8 Fel rhan o'r broses CDLI mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda thrigolion, defnyddwyr gwasanaeth, rhanddeiliaid a phartneriaid mewn ffordd ystyrion a chost effeithiol. Mae'r Llywodraeth wedi datgan mai bwriad newid y system gynllunio yw ei gwneud hi:

- yn gyflymach;
- yn gallu ymateb i newid; a
- gwella ymwneud y cyhoedd â'r broses o baratoi ceisiadau.

Diben y Cynllun Datblygu Lleol

- 0.9

Diben y CDLI yw:

 - Darparu sylfaen ymarferol a manwl ar gyfer rheoli datblygu a defnydd tir drwy'r system 'rheoli datblygu'. Bydd yn rhoi canllaw clir i ddatblygwyr potensial ynghylch y math o ddatblygiad, ac ar ba safleoedd, y mae'r Cyngor bwrdeistref Sirol yn eu derbyn a'u hannog, ynghyd a chanllaw i'r amgylchiadau sy'n debygol o beri i'r cais gael ei wrthod.
 - Gwarchod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig i sicrhau bod agweddau mwyaf gwerthfawr yr amgylchedd yn cael eu gwarchod er budd cenedlaethau'r dyfodol.
 - Annog datblygwyr drwy glustnodi tir ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau, ac felly ysgogi defnydd a datblygu tir. Mae gan y Cynllun, felly, swyddogaeth flaenllaw wrth ddatblygu'r Fwrdeistref Sirol ac yn fframwaith ar gyfer penderfyniadau buddsoddi.
 - Dod â materion cynllunio lleol a manwl gerbron y cyhoedd. Mae'r CDLI yn awgrymu'n glir pa newidiadau mewn defnydd tir sy'n debygol o ddigwydd yn y Fwrdeistref Sirol, a sut bydd y newidiadau hynny yn debygol o effeithio ar fuddiannau penodol. Mae trefniadau yn eu lle i bobl a sefydliadau gael gwneud sylwadau ar y polisiau a'r cynigion yn y Cynllun ac felly ddylanwadu ar ei gynnwys.

- 0.10

Mae'r CDLI yn berthnasol i bob math o ddefnydd a datblygu tir. Ei briod faes yw materion yn ymwneud a defnydd tir a chynllunio gofodol, yn hytrach na rheoli tir a/ neu flaenoriaethu datblygiadau neu raglenni.

Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol a Rhanbarthol

- 0.11

Yng Nghymru, mae polisi cynllunio a gweithredu deddfwriaeth sylfaenol wedi ei ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC). Tra bod nifer o bethau tebyg yn neddfwriaeth Lloegr, mae 'na wahaniaethau fodd bynnag, ac nid yw cyfarwyddyd San Steffan mewn grym yng Nghymru, heblaw am faterion sy'n ymwneud â Lloegr a Chymru gyda'i gilydd, neu â'r DU i gyd.
- 0.12

0.12 Wrth baratoi'r CDLI, mae'r Cyngor wedi ystyried:

 - Cynllun Gofodol Cymru (wedi ei gynhyrchu gan LICC)
 - Strategaeth Drawsgludo Cymru (wedi ei gynhyrchu gan LICC)
 - Polisi Cynllunio Cenedlaethol (wedi ei gynhyrchu gan LICC):
 - Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (200)
 - Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (PCMC) (2000)
 - Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru) (NCT) (cyfres)
 - Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) (NCTM) (cyfres)
 - Datganiad Polisi Cynllunio Mwynau Interim y Gweinidog
 - Cylchlythyrau Cynllunio (cyfres)

- 0.13 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi annog cydweithio rhwng awdurdodau lleol i greu cyd-destun isranbarthol i ystyriaethau cynllunio strategol. Mae gan y Cyngor fewnbwn i nifer o gynlluniau a strategaethau isranbarthol, gyda'r CDLL yn rhoi ystyriaeth i'w cynnwys.
- Strategaeth Ddatblygu De Ddwyrain Cymru (SDdDDdC)
 - Y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (Sewta)
 - Y Strategaeth Gwastraff a'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (SGCGRh)
 - Y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Fwynau Agreg
 - Dosrannu Tai Rhanbarthol (DTRh)

Strategaethau'r Cyngor

- 0.14 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn un o bedair prif strategaeth y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol eu paratoi. Dyma'r tair arall:
- Y Strategaeth Gymunedol
 - Cynllun Plant a Phobl Ifanc
 - Y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- 0.15 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn rhan allweddol o wireddu elfennau ar ddefnydd tir ymhob un o'r strategaethau hyn, ac eraill. Dylai'r pedair strategaeth gydgyssylltu i wireddu eu hamrywiol amcanion.

Gweithdrefnau Paratoi'r Cynllun a'r Cytundeb Darparu

- 0.16 Mae canllawiau ar y trefniadau paratoi yn y canlynol:
- Cynlluniau Datblygu Lleol: Polisi Paratoi CDLI (LICC 2005)

- Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (LICC 2006)
- Rheoleiddiadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 – Offeryn Statudol Cymru 2005 Rhif 2839 (W.203)
- Canllaw Cyfarwyddyd Polisi Cynllunio (LICC 2006)

- 0.17 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cwblhau (CC) sydd wedi ei gymeradwyo gan LICC, sy'n cynnwys y canlynol:
- Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC), ac
 - Amserlen paratoi'r Cynllun

- 0.18 Mae'r CCC yn egluro egwyddorion, strategaeth a mecanwaith y Cyngor ar gynnwys cymunedau a rhanddeiliaid yn y broses CDLI o'r cychwyn cyntaf a thrwyddi draw. Mae hyn yn elfen ganolog o'r system ddatblygu newydd. Mae'r egwyddorion hyn yn sicrhau y bydd y gymuned yn cael eu cynnwys gan y Cyngor, neu ar ran y Cyngor, mewn ffordd gyson a chydlynol. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r cyfarwyddyd ynghylch ymwneud â chymunedau a restrir yn y CCC.

- 0.19 Mae amserlen rheoli project y Cyngor yn manylu ar y gwahanol gamau yn y broses o baratoi'r CDLI, sut mae'r broses wedi cael ei rheoli a'r adnoddau a ddefnyddiwyd ym mhob cam o'r broses..

Asesiad Cynladwyedd (AC), Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), ac Asesiad Rheoleiddiadau Cynefinoedd (ARhC)

- 0.20 O dan Adran 62 (6a) o Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004, mae gofyn ar i awdurdodau lleol i gynnal Gwerthusiad Cynladwyedd (GC) ar gynlluniau datblygu. Mae'r GC yn ystyried materion economaidd a chyfiawnder cymdeithasol ochr yn ochr â materion amgylcheddol. Yn ogystal, mae Asesiad Strategol Amgylcheddol (ASA) Cyfarwyddeb yr UE (2001/42/EC), yn golygu

bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth uchel i warchod yr amgylchedd wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gellir gwneud y GC a'r ASA mewn un broses, gan fod ffurflenni'r ASA yn rhan ganolog o'r GC.

- 0.21 Mae'r broses ASA/GC yn sicrhau bod cynladwyedd wrth galon penderfyniadau ymhob cam o'r broses creu cynllun. Diben yr ASA/GC yw gwerthuso effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd cynigion a pholisïau CDLI, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ogystal â gwella perfformiad amgylcheddol y Cynllun cyfan.

- 0.22 Paratowyd a chyhoeddwyd yr adroddiadau ASA/GC canlynol at ddibenion ymgynghori, yn ogystal â'r Cynllun Datblygu Wedi ei Adneuo:

Rhan Un

- Yr Adroddiad Cwmpasu
- Adolygiad ar y Cynlluniau, Rhaglenni a Pholisïau Perthnasol.
- Asesiad o'r Strategaeth Ddewisol a Dewisiadau iddi

Rhan Dau

- Yr Adroddiad Amgylcheddol
- Yr Asesiad Rheoleiddiadau Cynefinoedd

- 0.23 Mae'r Cyfarwyddyd Cynefinoedd Ewropeaidd (92/43/EEC) yn golygu bod angen asesiad rheoleiddio cynefinoedd (ARhC), yn cynnwys asesiad addas (AA), ar bob cynllun neu broject a allai effeithio, naill ai'n unigol neu'n gyfuniad gyda chynlluniau neu brojectau, ar safle Ewropeaidd dynodedig. Diffinnir safleoedd Ewropeaidd dynodedig fel safleoedd Ramsar (gwlypdiroedd o Bwys Rhyngwladol) Ardaloedd Arbennig Gwarchod Adar (SAGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Nid oes safleoedd Ramsar nac Ardaloedd Gwarchod Adar Arbennig yn y Fwrdeistref Sirol, mae un AGA yng Nghaerffili, sef Glaswelltiroedd Aberbargod.

Prawf Cadernid

- 0.24 Mae cyfrifoldeb yr Arolygydd Annibynnol apwyntiedig i ystyried cadernid y Cynllun Datblygu yn ystod ei Archwiliad i'r Cynllun yn rhan ganolog o'r system gynllunio newydd. Gellir diffinio cynllun "cadarn" yn syml fel un sy'n "dangos ei fod wedi cymryd ystyriaeth gadarn" ac y "gellir ymddiried ynddo". Mae Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru – Rhagfyr 2005, yn cynnwys 10 maen prawf ar gyfer asesu 'Cadernid', yn ymwneud â'r broses y mae'r Cyngor wedi ei dilyn wrth greu'r Cynllun Datblygu Lleol, ei gysondeb a'i drefnusrwydd ac effeithiolrwydd' Mae hunan asesiad i gadernid y CDLI wedi cael ei wneud a gellir ei weld ar www.caerffili.gov.uk

- 0.25 I sicrhau nad oes amser yn cael ei dreulio yn archwilio'n fanwl gynllun nad yw'n gadarn o ran ei weithdrefn, sgriniwyd y CDLI yn gynnar gan yr Arolygydd i sicrhau ei fod wedi ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cwblhau yn cynnwys y Cynllun Cynhwysiant Cymunedol. Mae o fudd i'r Cyngor felly i sicrhau bod y Cytundeb Cwblhau yn cynnwys y Cynllun Cynhwysiant Cymunedol wedi ei ddilyn yn drylwyr drwy gydol y broses baratoi. Mae hefyd yn gyfrifoldeb ar y rhanddeiliaid i hwyluso'r broses drwy gyflawni'r anghenion y mae'r Cytundeb Cwblhau yn eu hamlinellu.

Ffurf y Cynllun

- 0.26 Mae tair rhan i'r CDLI:
- Adran A – Y Strategaeth Ddatblygu
 - Adran B – Polisiau sy'n gyffredin ar hyd a lled y Sir
 - Adran C – Polisiau sy'n benodol i ardal
- 0.27 Mae **Adran A** yn cynnwys datganiad ysgrifenedig yn cyflwyno Strategaeth Ddatblygu'r Cyngor a'r polisiau strategaeth fydd yn sicrhau ei gwblhau dros gyfnod y Cynllun. Yn hyn o beth, mae Adran A yn dangos: y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer tai, cyflogaeth, mân-werthu a thrawsgludiad

drwy gydol cyfnod y Cynllun; yn diffinio'r strategaeth setlo a'r hierarchaeth heolydd, yn awgrymu lle bydd gwella a gwarchod y rhwydwaith prif ffyrdd, hamdden a seilwaith yn cael eu dilyn ac awgrym o'r ardaloedd o fewn y Bwrdeistref Sirol lle bydd peidio â gweithredu gormod yn fwy addas. Mae Adran A yn nodi Amcanion cyffredinol y Cynllun ac yn dangos y Nodau fydd angen cwrdd â nhw i gyflawni'r Amcanion hynny.

0.28 Mae **Adran B** yn cynnwys polisiâu wedi eu seilio ar y meini prawf y bydd y cynigion datblygu yn cael eu mesur yn eu herbyn ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol **i gyd**.

0.29 Mae **Adran C** yn cynnwys dyraniadau safle, yn dangos yr ardaloedd y disgwylir eu datblygu ac ardaloedd lle bydd gwarchodaeth dros ddefnydd tir. Bydd gwireddu'r dyraniadau hyn o fewn cyfnod y Cynllun yn sicrhau y bydd y strategaeth ddatblygu yn llwyddo.

0.30 Ar ddiwedd Adran C mae rhestr o **Atodiadau** sy'n cynnwys gwybodaeth gefndirol i brif gorff y CDLI. Mae'r Atodiadau hyn yn cynnwys rhan o'r CDLI a chyfeirir atynt drwy gydol y ddogfen fel y bo'n addas.

0.31 Mae'r **Mapiau Cynigion** yn dangos lleoliad daearyddol a maint datblygiadau sy'n benodol i ardal a'r polisiâu gwarchod sydd yn eu lle o fewn y CDLI.

0.32 Ochr yn ochr â'r Cynllun mae Map Cyfyngiadau wedi ei baratoi yn dangos lleoliad daearyddol a maint y cyfyngiadau ar ddatblygiadau y tu allan i'r CDLI. Mae'n cynnwys lleoliad nodweddion megis ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, ardaloedd cadwraeth a gwastadeddau bwyd. Er nad yw'r Map Cyfyngiadau yn rhan o'r CDLI bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau hyn pan yn berthnasol wrth ystyried cynigion datblygu. Mae'r materion y dangosir hwynt ar y Map Cyfyngiadau weithiau yn bethau sydd wedi eu dynodi gan gyrff statudol eraill heblaw'r Cyngor, ac fe allent newid. Bydd y Map Cyfyngiadau Deinamig ar Wefan y Cyngor, ac yn dangos y data diweddaraf, yn www.caerffili.gov.uk

0.33 Dylid darllen y CDLI fel cyfanwaith. Mae llawer o amcanion, strategaethau a pholisiâu'r Cynllun yn perthyn i'w gilydd ac yn torri ar draws ffiniau gwahanol adrannau. Bydd penderfyniadau ar gynigion datblygu yn ystyried polisiâu perthnasol y Cynllun ac anghenion Polisi Cynllunio Cenedlaethol.



Dogfennau a Strategaethau Cefndirol

0.34 Y CDLI yw'r unig ddogfen sydd yn statudol ofynnol i'w ddefnyddio fel fframwaith ar gyfer elfen defnydd tir y system gynllunio. Mae'r system gynllunio, fodd bynnag, yn fwy na fframwaith rheoli datblygiad. Mae ganddo hefyd swyddogaeth flaenllaw i'w chyflawni mewn adfywio cymunedol, gwelliannau amgylcheddol, gosod safonau ansawdd ac annog datblygu. Mae'r CDLI wedi ei gynllunio i fod yn rhan o becyn o ddogfennau a strategaethau sy'n cefnogi ac yn cryfhau ei gilydd.

0.35 Mae tri math o ddogfen gefnogol:

- **Papurau Cefndir** sy'n rhoi gwybodaeth fanwl a'r rhesymu y tu ôl i'r polisiâu a'r cynigion (er enghraifft: Papurau ar thema neu ddogfennau yn manylu ar brosesau Arfarniad Cynladwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol, HRA)

Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol:

- **Cynlluniau Gweithredu** sy'n gosod y fframwaith ar gyfer datblygu a gwella lleoliadau penodol, yn cysylltu cynigion rheolwyr a chynlluniau gweithredu gyda'r fframwaith defnydd tir yn y CD (Cynlluniau Gweithredu Canol y Dref, Cynlluniau Gweithredu Lleol, Cynlluniau Gwella Ardaloedd Cadwraeth)
- **Cyfarwyddyd Cynllunio/ Cyfarwyddyd Datblygu** sy'n egluro'n fanwl y safonau y mae'n rhaid i feini prawf polisi y CDLI gadw atynt (Canllawiau Cynllunio Atodol, Cyfarwyddyd Datblygu Cynllunio, Datblygu Safleoedd/Briffiau Cynllunio a Briffiau Cynllunio Ardaloedd Cadwraeth)

0.36 Bydd Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) yn cael ei gynhyrchu ac yn destun ymgynghoriad cyhoeddus addas. Nid yw'r CCA yn rhan o'r CDLI ei hun. Lle'n addas yn y CDLI, bydd cyfeiriadau at y dogfennau cefnogol, y dylid eu darllen ar y cyd gyda pholisiâu defnydd tir a chynigion fel bod cyngor a chyfarwyddyd yn glir ac yn gyflawn.

Statws y Dogfennau a Diddymiadau

0.37 Bydd y CDLI yn dod yn weithredol ar y dyddiad y mabwysiedir ef gan y Cyngor at ddibenion Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Yn sgil mabwysiadu'r CDLI bydd y cynlluniau canlynol yn cael eu diddymu:

Y Cynllun Datblygu Unedol

i. Y Cynllun Datblygu Unedol a Gymeradwywyd gan y Cyngor (Ebrill 2003)

Cynlluniau Strwythurol Perthnasol

- ii. Cynllun Strwythurol Gwent wedi ei Fabwysiadu (Mawrth 1996)
- iii. Cynllun Strwythurol Morgannwg Ganol: Cynllun wedi ei Gymeradwyo, yn Ymgorffori Newidiadau wedi eu Cynnig, Rhif 1 (Medi 1989)

Cynlluniau Lleol

- iv. Cynllun Lleol Islwyn wedi ei Fabwysiadu (Ionawr 1996)
- v. Cynllun Lleol Basn Caerffili wedi ei Fabwysiadu (Hydref 1983)
- vi. Cynllun Datblygu Ffos-y-Gerddinen a Threharris wedi ei fabwysiadu (Medi 1983)
- vii. Cynllun Lleol Cwm Rhymni Uchaf wedi ei Fabwysiadu (Mawrth 1986)
- viii. Cynllun Lleol Cwm Rhymni Canol wedi ei Fabwysiadu (Gorffennaf 1986)

0.38 I osgoi amheuaeth, mae'r cynlluniau canlynol hefyd wedi eu diddymu:

- i. Cynllun Lleol Ardal Cwm Rhymni wedi ei Gymeradwyo (Tachwedd 1996)
- ii. Cynllun Strwythurol Drafft wedi ei Amnewid Cyngor Morgannwg Ganol 1991-2006: Yn cynnwys Diwygiadau Sydd wedi eu cynnig i'r Cynllun Adneuo (Mawrth 1996), Wedi ei Gymeradwyo Tachwedd 1996
- iii. Cynllun Mwynau Lleol ar gyfer Cloddio Calchfaen ym Morgannwg Ganol, Adroddiad Adnau (Mawrth 1995)
- iv. Cynllun Mwynau Agreg Lleol Gwent, Cynllun Drafft wedi ei Ddiwygio (Ebrill 1988).

Sicrhau Datblygu Cynaliadwy

- 0.39 Fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfrifoldeb i hybu datblygu cynaliadwy wrth ymarfer ei bwerau. Trodd hyn yn weithred drwy Gynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad Dechrau Byw'n Wahanol (2004).
- 0.40 Mae Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn golygu bod angen i' Awdurdodau Cynllunio Lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) i'w Bwrdeistref Sirol, er mwyn cyfrannu ar gyflawni datblygu cynaliadwy.

Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol

- 0.41 Wrth baratoi'r CDLI, mae'r Cyngor wedi ystyried polisiau cynllunio cenedlaethol. Cynhwysir polisiau cynllunio defnydd tir cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad yn Polisi Cynllunio Cymru, Datganiadau Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog gyda Nodiadau Cyngor Technegol yn Atodiad iddynt.

Polisi Cynllunio Mwynau

- 0.42 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn manylu ar bolisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth y Cynulliad yng nghyd-destun tynnu mwynau o'r ddaear a datblygiadau sydd ynghlwm â hynny, yn cynnwys pob mwyn a sylwedd (yn cynnwys olew atraeth, nwy a methan gwelyau glo) yn, ar neu o dan dir sydd wedi ei gloddio naill ai dan ddaear neu ar y tir. Atodir Polisi Cynllunio Mwynau

Cymru gan Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau a Datganiadau Polisi Cynllunio Mwynau Interim y Gweinidog.

Ailadrodd Canllawiau Cenedlaethol

- 0.43 Yn unol â'r cyfarwyddyd a geir yn CDLI Cymru, dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ystyried polisiau cynllunio cenedlaethol, ond ni ddylent eu hailadrodd. Dylid, felly, ystyried y CDLI ochr yn ochr â'r Canllaw Ategol i Bolisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi'r ardaloedd lle nad oes angen i'r Cynllun Lleol ailadrodd polisiau rheoli datblygu cenedlaethol. Dylid nodi felly mai fframwaith polisi ar gyfer materion o natur benodol leol yn unig yw'r CDLI. **Bydd Cynigion Datblygu nad ydynt yn cynnwys materion penodol leol yn cael eu hasesu yn unol ag anghenion Polisi Cynllunio Cenedlaethol.**
- 0.44 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r Awdurdod Cynllunio Mwynau â chyfrifoldeb dros reoli datblygiadau fforio a gwaith mwynau o fewn y Fwrdeistref Sirol. Nid oes gynllun ategol i Bolisi Cynllunio Mwynau Cymru. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ystyried bod polisi cenedlaethol a chyfarwyddyd ar faterion mwynau yn ddigon clir i allu dibynnu arnynt wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio fforio mwynau a datblygiadau sydd ynghlwm wrth hynny, ar y cyd gyda pholisiau sirol a pholisiau ardaloedd penodol y CDLI.
- 0.45 Mae cyfarwyddyd a pholisi cenedlaethol, ar y cyd gyda pholisiau'r CDLI, yn creu'r fframwaith ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'n bwysig cofio bod polisiau yn perthyn i'w gilydd ac yn berthnasol y naill i'r llall. Dylid, felly, eu darllen gyda'i gilydd i ddeall eu heffaith ar gais cynllunio.

Cynllun Gofodol Cymru

- 0.46 Mae Cynllun Gofodol Cymru, a gymeradwywyd gan Gynulliad Cymru yn 2004, yn fframwaith strategol eang ar gyfer datblygu a chynlluniau eraill.

- 0.47 Mae Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru yn rhannu De Ddwyrain Cymru yn dri pharth. Mae parth y Ddinas a'r Arfordir yn cynnwys tramwyfa'r M4 a dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd, ychydig i'r de o Fwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r parth canolog, Tramwyfa'r Cysylltiadau, yn cysylltu parth ffyniannus y Ddinas a'r Arfordir gyda chymunedau difreintiedig parth Blaenau'r Cymoedd.
- 0.48 Mae'r rhan fwyaf o'r Fwrdeistref Sirol, gyda dros 80% o'r boblogaeth, yn y Dramwyfa Cysylltiadau, gyda'r gweddill ym mharth Blaenau'r Cymoedd. Mae Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhannu'n bellach drwy ddiffinio 'Tramwyfa Cysylltiadau Deheuol' (TCD) lle mae mwy o bwysedd datblygu o du Caerdydd a Chasnewydd a'r amgylchedd o dan straen arbennig, a 'Thramwyfa Cysylltiadau Gogleddol' (TCG) lle mae prif ardal boblog y Fwrdeistref Sirol a lle mae'r mwyaf o gapasiti i dyfu'n economaidd.
- 0.49 Mae Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008 yn nodi 'Prif Anheddau' ym mhob un o chwech ardal Cymru. Ystyrir y lleoliadau hyn fel lleoliadau a allai dyfu ac yn rhai lle mae gwasanaethau a chyfleoedd gwaith i'r ardal ehangach. Yn wahanol i bump ardal arall Cymru, nid yw adran De Ddwyrain Cymru o'r Cynllun Gofodol yn nodi pob prif annedd yn y rhanbarth, ond dim ond y 14 'prif' ardal. Mae'r rhain yn cynnwys Caerffili a Choed Duon. Mae un ardal, Sir Benfro, hefyd yn nodi 'canolfannau lleol'.

- 0.50 Mae CDLI Caerffili yn datblygu strategaeth Cynllun Gofodol Cymru i fwy o fanylder drwy nodi tair prif annedd arall (Bargod, Ystrad Mynach a Rhisga/ Pontymister) yn ogystal â Chaerffili a Choed Duon. At ddibenion y CDLI, mae'r anheddau hyn yn cael eu galw'n 'Brif Drefi'. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi pedair canolfan arall, yn cyfateb i 'Ganolfannau Lleol' y Cynllun Gofodol, sef Trecelyn, Ffos-y-Gerddinen, Bedwas a Rhymni.
- 0.51 Mae pump adran arall arall CGC hefyd yn casglu Prif Anheddau at ei gilydd yn bwyntiau canolog sydd ag amrywiaeth o gyfleusterau a mwy o botensial economaidd na'r anheddau unigol ar eu pennau'u hunain. Mae CDLI Caerffili yn nodi pwynt canolog fel hwn yn yr ardal boblog yng nghanol y cwm sy'n cynnwys Coed Duon, Ystrad Mynach, Bargod a Threcelyn, gyda phoblogaeth rhyngddynt o 65,000.

Troi Pennau – Strategaethau Blaenau'r Cymoedd (2006)

- 0.52 Mae Strategaeth Blaenau'r Cymoedd yn perthyn i gyd-destun Cynllun Gofodol Cymru ac wedi rhoi fframwaith o newid ar gyfer Ardal Blaenau'r Cymoedd. Datblygwyd y Strategaeth o gylch pum prif flaenoriaeth:
- Amgylchedd adeiledig, hanesyddol a naturiol sy'n ddeniadol ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth
 - Tirwedd economaidd bywiog yn cynnig cyfleoedd newydd
 - Poblogaeth sy'n iachach, â mwy o sgiliau a gwell addysg
 - Profiad hamdden a thwristaidd apelgar a chydlynol
 - Hyder y cyhoedd mewn dyfodol gwell

0.53 Mae Ardal Strategaeth Blaenau'r Cymoedd yn cynnwys Cwm Rhymni Uchaf a Chwm Uchaf Sirhywi sy'n cwmpasu anheddau Princetown, Rhymni, Abertyswg, Pontlotyn, Fochriw, Deri, Tredegar Newydd, Bargod, Aberbargod, Gilfach, Argoed, Llwyncelyn a Markham Mae strategaeth ddatblygu'r Cynllun yn manteisio ar y cyfleoedd sydd yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol yn sgil Strategaeth Blaenau'r Cymoedd.

Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006 - Tai

0.54 Mae'r Cynllun yn sicrhau bod digon o dir ar gael i'r Fwrdeistref Sirol i'w galluogi i gwrdd ag anghenion gwasanaethu'i thrigolion. Mae anghenion tir yn ddibynnol i raddau helaeth ar y nifer o drigolion; mae poblogaeth y dyfodol wedi bod yn bwysig iawn ei hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun felly. Yr angen mwyaf sylfaenol i drigolion yw cartref, a thai yw'r defnydd pennaf unigol ar dir y mae'n rhaid i'r Cynllun ei sicrhau. Mae materion yn ymwneud â phoblogaeth a thai felly wedi bod yn ganolog i ddatblygiad y Cynllun.

0.55 Mae Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006 - Tai yn dweud: "Dylid defnyddio Rhagamcaniad Tai Cenedlaethol ac Is-Genedlaethol diweddaraf Llywodraeth y Cynulliad fel man cychwyn ar gyfer anghenion tai. O fewn pob rhanbarth dylai awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda'i gilydd, a chyda rhanddeiliaid, i rannu rhagamcanion tai Llywodraeth y Cynulliad rhwng yr awdurdodau, neu i gytuno ar eu rhagamcanion rhanbarthol eu hunain yn seiliedig ar bolisiau rhanbarthol."

0.56 Mae rhagamcanion tai diweddaraf Llywodraeth y Cynulliad wedi dangos bod angen cynnydd o 108,900 yn y nifer o gartrefi yn Rhanbarth De Ddwyrain Cymru rhwng 2003 a 2023 i gyfateb a thwf poblogaeth. Yn unol â pholisi LICC, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gweithio gyda 10 o awdurdodau unedol yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru drwy Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru i ystyried rhagamcanion tai rhanbarthol LICC ac i rannu'r rhagamcanion ar hyd a lled y rhanbarth. Ar sail ffactorau megis cyfraddau codi tai yn y gorffennol, argaeledd tir a chapasiti amgylcheddol, penderfynodd Grŵp Cynllunio De Ddwyrain Cymru bod ffigur o 9,750 o dai ar gyfer cyfnod y Cynllun yn addas ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae canlyniadau'r ymarfer hwn wedi eu hymgorffori i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae'r ffigwr dyrannu a gynigiwyd gan Grŵp Cynllunio De Ddwyrain Cymru wedi ei dderbyn fel yr un uchaf a nodwyd o fewn yr amrediad posibl. Mae mwy o dir nag sydd angen felly wedi ei ymgorffori i'r CDLI er mwyn sicrhau y bydd Caerffili yn cwrdd â'i gyfrifoldebau rhanbarthol.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

0.57 Mae Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (Sewta) wedi paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) ar gyfer De ddwyrain Cymru. Mae'n ofynnol ar Sewta i baratoi a gweithredu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006. Y CTRh fydd y man cychwyn ar gyfer trafndiaeth integredig gynaliadwy yn y rhanbarth wedi ei seilio ar bolisiau i wella hygyrchedd a chynyddu dulliau cynaliadwy o deithio. Bydd y CTRh yn fframwaith i wireddu strategaeth drafndiaeth Llywodraeth y Cynulliad yn ne-ddwyrain Cymru.

0.58 Mae'r Cyngor wedi bod yn trafod yn barhaol gyda Sewta wrth ddatblygu'r Cynllun er mwyn sicrhau bod perthynas glir a diamwys rhwng polisiau'r CDLI a'r CTRh sy'n cael ei greu, a hynny er mwyn cwblhau gwir welliannau i drafndiaeth, sydd wedi eu cydblethu'n agos gyda chynigion defnydd tir cyfredol a rhai fydd yn codi yn y dyfodol.

Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru

0.59 Mae'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (CGRh) yn fframwaith ar gyfer datblygu rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff i drin a gwaredu gwastraff yn Ne-ddwyrain Cymru. Cafodd y ddogfen ei Adolygu, a derbyniwyd ei chynnwys gan wahanol awdurdodau De ddwyrain Cymru. Talwyd y sylw dyledus iddi wrth baratoi'r CDLI. Mae'r Adolygiad yn egluro Strategaeth Gwastraff Rhanbarthol ac yn nodi mai'r ddelfryd yw cyfuniad o dechnolegau rheoli gwastraff/ adfer adnoddau i reoli'r rhagamcangyfrifon am lifoedd wastraff. Mae iddi hefyd elfen ofodol sy'n rheoli lleoliad y cyfleusterau newydd.

Gweithgor Rhanbarthol Agregau De Cymru – Datganiad Technegol Rhanbarthol

0.60 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2000) wedi nodi cyfarwyddyd cyffredinol pob math o fforio mwynau yng Nghymru. Mae'r cyfarwyddyd yn caniatáu fforio nwyddau i gwrdd ag anghenion y gymdeithas ac yn awgrymu'n gryf y dylid nodi ardaloedd y gellir eu mwynloddio'n ymarferol yn y dyfodol, er mwyn gwarchod y mwynau rhag cael eu gorddatblygu a'u rhwystro rhag cael eu defnyddio yn y dyfodol.

0.61 Mae Gweithgor Agregau De-ddwyrain Cymru (GADC) yn gyfrifol am gynhyrchu Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh), sy'n cymryd yn ganiataol y bydd twf yn y defnydd o agregau cynradd ac yn dyrannu'r hawl cynhyrchu i wahanol awdurdodau cynllunio mwynau unigol, ar sail capasiti amgylcheddol. Tybir y bydd unrhyw dwf pellach yn y galw am fwynau yn cael ei gyflenwi gan agregau eilradd neu wedi eu hailgylchu, er bod awgrymiadau mai ychydig y gall y ffynonellau hynny dyfu.

Strategaeth Gymunedol CBS Caerffili: Gweithredu Cynllunio Cymunedol

0.62 O dan Ddeddf Llywodraeth leol 2000 mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i baratoi strategaeth gymunedol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Strategaeth Gymunedol yn egluro'r fframwaith strwythurol cyffredinol y mae holl gynlluniau a strategaethau'r Fwrdeistref Sirol yn dod oddi tani. Mae'r CDLI wedi ystyried nodau ac amcanion y strategaeth gymunedol mewn perthynas â defnydd tir, wrth lunio amcanion y Cynllun.

0.63 Mae 'Gweithredu Cynllunio Cymunedol' yn dangos sut bydd y Cyngor, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a chymunedau lleol, yn sicrhau y bydd y Fwrdeistref Sirol yn lle:

- Y mae pobl yn hoffi byw ynddo, am aros ynddo a chreu cartref yno – Thema Amgylchedd Byw;
- Sydd â chyfleoedd gwaith sy'n rhoi boddhad (naill ai'n wirfoddol neu'n waith y telir amdano) – y Thema Adfywio;
- Y bydd pobl yn gallu datblygu amrywiaeth o ddiddordebau a gweithgareddau a dwysau gwybodaeth - Thema Addysg Byw; a
- Y gall pobl fyw bywydau llawn ac iachus a chael triniaeth, cymorth a gofal pan fo angen – Thema Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

- 0.64 Dyma brif egwyddorion gwaelodol Strategaeth Gymunedol Bwrdeistref Sirol Caerffili:
- Datblygu a chynnal gwasanaethau wedi eu creu mewn partneriaeth, er mwyn sicrhau lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
 - Hybu diwylliant sy'n rhoi cyfle i bawb, beth bynnag fo'u lliw, gwreiddiau ethnig, oed, rhyw, statws priodasol, anabledd, crefydd, iaith neu genedlaethol.

0.65 Mae gan y pedair thema Bartneriaethau Strategol yn eu lle i wireddu'r gweledigaethau hyn a chwrdd â'r amcanion y disgrifir nhw yn y Strategaeth Gymunedol. Bydd y CDLI yn hwyluso gwiredi'r elfennau defnydd tir, yn enwedig yn Y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Strategaeth Amgylchedd Fyw a Y Dewis Synhwyrol (y Strategaeth Adfywio).



Materion Allweddol Yn Ymwneud Â Defnydd Tir

Cyflwyniad

0.66 Er mwyn sicrhau bod gan y strategaeth ddatblygu sail gref, mae adolygiad wedi cael ei wneud ar ddata cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fydd yn effeithio ar y Fwrdeistref Sirol. Mae trafodaeth fanwl ar y materion cyffredinol sy'n berthnasol i'r CDLI yn 'Asesiad Amgylcheddol Strategol/ Adroddiad Cwmpasu Gwerthuso Cynladwyedd'. Mae adolygiad o'r data yn cadarnhau llawer o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo gyda phrif randdeiliaid. Fe'i crynhoir yn yr adran hon.

Cymdeithasol

0.67 Mae poblogaeth y Fwrdeistref Sirol wedi bod yn gymharol sefydlog dros y degawd diwethaf, tua 170,000. Mae dosbarthiad y boblogaeth honno wedi newid yn sylweddol o fewn y fwrdeistref Sirol, fodd bynnag. Disgynnodd poblogaeth y gogledd a chododd y boblogaeth yn y de. Disgynnodd poblogaeth Cwm Rhymni Uchaf gan 8% rhwng 1991 a 2001, er enghraifft, o 30,625 i 28,111. Ar yr un adeg, cododd poblogaeth Basn Caerffili gan 4%, o 50,765 i 52,996 (Cyfrifiadau 1991 a 2001).

0.68 Er bod poblogaeth Caerffili wedi aros yn gyson, mae'r nifer o dai sydd eu hangen ar y trigolion wedi cynyddu yn sgil y duedd tuag at gartrefi llai, a achosir gan nifer o ffactorau. Mae tuedd hir dymor i deuluoedd gael llai o blant o'i gymharu gyda chyfraddau'r gorffennol. Mae'r cynnydd mewn ysgariad, a'r cynnydd mewn teuluoedd un rhiant, wedi arwain at gartrefi llai. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o dai pobl hŷn, yn sgil hirhoedledd a'r cwmp mewn sefydliadau gofal (Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol).

- 0.69 Yn ôl rhagamcanion gan y Llywodraeth gallai'r boblogaeth a'r nifer o gartrefi gynyddu yn ystod cyfnod y Cynllun yn gynt nag a awgrymir gan dueddiadau diweddar (Rhagamcanion Cartrefi a Phoblogaeth LICC 2003). O ganlyniad mae'r Cynllun yn cymryd y bydd cynnydd ym mhoblogaeth Caerffili oherwydd mewnfudo na chynt, yn arwain at boblogaeth o 177,500 yn 2021, ac angen am 8,625 o gartrefi newydd yn ystod cyfnod y Cynllun (Papur Cefndir Poblogaeth a Thai).
- 0.70 Mae 11 o'r 110 ardal ystadegol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn y 10% o ardaloedd Cymru sy'n fwyaf difreintiedig (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005).
- 0.71 Mae'r amddifadedd ar ei fwyaf dwys yng Nghwm Rhymni Uchaf a Chwm Sirhywi Uchaf (ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd), er bod pocedi o amddifadedd yn Nhramwyfa'r Gogledd a'r Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005).
- 0.72 Mae prisiau cyfartalog tai yn y fwrdeistref Sirol wedi codi'n gyson ers 2003, gyda'r pris cyfartalog nawr yn £133,000 yn y Fwrdeistref Sirol (Chwefror 2008). Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng prisiau yn y Fwrdeistref Sirol, gyda phrisiau'r De yn sylweddol uwch nag yn y gogledd. (Cofrestrfa Tir).

Economaidd

0.73 Er gwaethaf dirywiad, y sector gwneuthgynhyrchu yw'r cyflogwr mwyaf yn y Fwrdeistref Sirol o hyd. Mae'r sector yn cael ei orgynrychioli yn y Fwrdeistref Sirol o'i gymharu gyda Chymru a Phrydain fawr. Mae arwyddocâd y dirywiad yn y sector yn fwy amlwg yn economi Caerffili felly. Mae'r sector yn dioddef dirywiad hirdymor drwy'r DU ac mae ei arwyddocâd i economi Caerffili, yn nhermau cyflogaeth, yn debygol o leihau'n raddol dros y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae strwythur y sector gwneuthgynhyrchu wedi bod yn newid. Y rhai traddodiadol/ sylfaenol sydd wedi bod yn dirywio, tra bo gweithgareddau o werth uchel wedi bod yn tyfu, yn enwedig busnesau bach a chymedrol eu maint (Astudiaeth Cyflenwad Safleoedd Cyflogi a Gwerthuso Marchnadoedd, Atkins 2006). Dylid nodi bod canran sylweddol o'r swyddi mewn mannau eraill heblaw ystadau diwydiannol, y sector manwerthu, er enghraifft.

0.74 Dangosodd yr Astudiaeth Cyflenwad Safleoedd Cyflogi a Gwerthuso Marchnadoedd a wnaed yn 2006 bod 123.71 hectar o dir a ddynodwyd ar gyfer cyflogaeth ar gael i'w ddatblygu ar gyfer cyflogaeth. Mae hyn wedi cael ei newid i 101.9 hectar am fod amgylchiadau wedi newid. Mae 90% o'r tir hwn yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol, y rhan fwyaf ohono ar ddau safle, sef Gwastadedd Oakdale (44.9 hectar) a Tŷ Du, Ffos-y-Gerddinen (18.8 hectar).

0.75 Dim ond 72.3% o'r trigolion sydd o oedran gwaith (rhwng 16 a 64 i ddynion, 16-59 i fenywod) yn y Fwrdeistref Sirol sy'n weithgar yn economaidd, o'i gymharu â 75.2% yng Nghymru a 78.5% ym Mhrydain (Cyfrifiad 2001).

- 0.76 Mae 39.8% o boblogaeth Cymru heb gymwysterau. Mae hyn lawer yn uwch na Chymru a Lloegr (29.1%) a Chymru yn unig (33.0%). Mae'r ganran o weithlu Caerffili sydd â gradd neu gyffelyb (12.1%) ac mae hyn gryn dipyn yn is na Chymru (17.4%) a Chymru a Lloegr (19.8%) (Cyfrifiad 2001).
- 0.77 Mae 31,400 o drigolion Caerffili yn teithio allan o'r Fwrdeistref Sirol i weithio, sy'n cyfateb i 46.6% o holl weithwyr Caerffili. Yn gyffredinol, mae 15,300 o weithwyr yn all-gymudo i swyddi y tu allan i Gaerffili.
- 0.78 I Gaerdydd y mae'r rhan fwyaf yn mynd, lle mae dros 11,000 o'r 28.5% sy'n allgymudo yn gweithio. Mae 4,000 o bobl sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Caerffili – dyma'r ffigur mewngymudo mwyaf. Dengys hyn bod y llif cymudo rhwng Caerffili a Chaerdydd yn gryf, ond bod hefyd gymudo ar draws y Cymoedd (Ystadegau ar Gymudo yng Nghymru, 2002 - Wedi ei seilio ar Arolwg Llafurlu Cymru 2002).
- 0.79 Mae problemau tagfeydd, ynghyd â pholisïau'r Llywodraeth i gyfyngu ar ddefnydd ceir a pharcio ceir, yn golygu y bydd hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus yn elfen bwysicach i ddichonolrwydd safleoedd cyflogaeth. Bydd gwahanol ddulliau trafnidiaeth (preifat a chyhoeddus), ynghyd â chysylltiadau trafnidiaeth dibynadwy, felly, yn allweddol i lwyddiant safleoedd cyflogaeth y dyfodol.

- 0.80 Mae gan 73% o gartrefi'r Fwrdeistref Sirol ddefnydd cerbyd modur, o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymreig, sef 76% (Ystadegau Trafnidiaeth Cymru 2006).
- 0.81 Mae 76% o'r trigolion yn teithio mewn car i'r gwaith, 8% o'r gweithwyr ar dfrnidiaeth gyhoeddus a'r gweddill yn cerdded neu'n beicio. Mae 6.5% o'r boblogaeth yn gweithio gartref, sydd yn duedd gynyddol (Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol).
- 0.82 Mae buddsoddiadau mawr yn nhermau gwelliannau i ddarpariaeth o nwyddau y gellir eu cymharu wedi eu sicrhau drwy estyniadau sylweddol i ganolfannau tref cyfredol, fel datblygiad Llys y Castell yng Nghaerffili a Pharc Manwerthu Gogledd Coed Duon.

Amgylcheddol

- 0.83 Mae bron 80% o'r Fwrdeistref Sirol yn wledig, ac yn adnodd gweledol a hamdden pwysig ar gyfer trigolion ac ymwelwyr.
- 0.84 Mae yn y Fwrdeistref Sirol un Ardal Gadwraeth Arbennig, wedi ei ddynodi felly yn Ewropeaidd, sef Glaswelltir Aberbargod. Mae'r glaswelltir hwn yn bwysig i leir Bach yr Haf y Molinea Meadows a'r Marsh Fritillary.
- 0.85 Mae gan y Fwrdeistref Sirol 10 ardal sydd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, mae 5 wedi eu dynodi am eu pwysigrwydd biolegol a 5 am eu pwysigrwydd daearyddol. Mae 4 Gwarchodfa Natur Leol a 190 Ardal o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur. Yn ogystal, mae 6 Ardal Tirwedd Arbennig wedi eu dynodi er mwyn gwarchod ardaloedd yr ystyrir hwynt yn bwysig i dirwedd, hanes, diwylliant, bioamrywiaeth a daeareg y Fwrdeistref Sirol, a 4 Tirwedd Lleol sy'n Weledol Bwysig, wedi eu dynodi er mwyn gwarchod tirwedd gweledol a synhwyrol cyffredinol y Fwrdeistref Sirol.



Datganiad Cenhadaeth

- 0.89 Wrth lunio'r CDLI, a'r ffordd y bydd yn arwain a rheoli datblygiadau'r dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol, mae gweledigaeth glir o'r hyn y dylai'r Fwrdeistref Sirol fod ymhen pymtheg mlynedd wedi cael ei ddatblygu.
- 0.90 Mae Datganiad Cenhadaeth y CDLI, yr amlinellir ef isod, wedi ei lunio o'r Strategaeth Gymunedol drwy gyfres o weithdai gyda phrif ran ddeiliaid fel rhan ganolog o'r ymarfer cyfranogiad cyhoeddus cyn-adneuo. Mae'r materion polisi a gododd dro ar ôl tro yn y gweithdai wedi cael eu casglu ac wedi llywio Datganiad Cenhadaeth y CDLI.

Datganiad Cenhadaeth:

“Bydd Strategaeth Ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn manteisio ar leoliad strategol Bwrdeistref Sirol Caerffili yng nghanol Rhanbarth Rhwydwaith y Brifddinas. Bydd yn sicrhau bod anghenion holl drigolion ac ymwelwyr y Fwrdeistref Sirol yn cael eu diwallu ac adfywiad ein trefi, pentrefi, canolfannau cyflogaeth a'r ardaloedd gwledig yn cael ei gwblhau mewn ffordd gytbwys a chynaliadwy sy'n adlewyrchu swyddogaethau penodol y gwahanol anheddau.”

- 0.91 Mae nifer o brif gysyniadau sy'n llywio nodau a strategaeth y weledigaeth::
- o "Lleoliad strategol Bwrdeistref Sirol Caerffili" - Manteisio ar agosrwydd canolfannau economaidd Caerdydd a Chasnewydd yw un o brif amcanion strategaeth adfywio'r Cynllun tra bo tramwyfeydd canol y cymoedd a blaenau'r cymoedd ill dau yn rhedeg drwy'r Fwrdeistref Sirol ac felly yn cynnig cyfleoedd yn bellach i'r gogledd.
 - o "Adfywiad....mewn ffordd gytbwys a chynaliadwy" - Mae'r Cynllun am gydbwysio buddiannau ac anghenion amgylcheddol, economaidd a'r gymuned, i greu dyfodol cynaliadwy i holl drigolion y Fwrdeistref Sirol.
 - o Adlewyrchu "swyddogaethau penodol y gwahanol anheddau" - Mae'r Cynllun yn nodi swyddogaeth gynaliadwy i bob un o drefi a phentrefi'r Fwrdeistref Sirol ac yn hybu datblygu addas neu gyfyngiadau datblygu ym mhob un er mwyn i bob rhan o'r Fwrdeistref Sirol fanteisio.

Amcanion

- 0.92 Amcanion y CDLI yw:
- o Gwarchod yr amgylchedd yn gyffredinol tra'n cydbwysu'r angen i ddatblygu a'r angen i warchod a chadw adnoddau gwerthfawr.
 - o Sicrhau bod cyn lleied a phosib o nwyon tŷ gwydr yn cael eu rhyddhau wrth greu datblygiadau newydd, er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd.
 - o Defnyddio dylunio da, sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion, ac yn defnyddio

- adnoddau'n effeithlon ac yn caniatáu ailgylchu a rheoli gwastraff yn waelodol i bob datblygiad.
- o Gwneud Bwrdeistref Sirol Caerffili yn lle plaserus, glan, gwyrdd a diogel i fyw a gweithio ynddo, gyda gwasanaethau cyhoeddus derbynol.
- o Dwysau amrywiaeth a bywiogrwydd cymunedau lleol, er mwyn sicrhau iechyd da a chydlynant cymdeithasol.
- o Sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb i'r cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli a'r rhai a gynigir y tu fewn a'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol.
- o Darparu system drafnidiaeth gyfoes, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, hybu ffyniant a gwarchod yr amgylchedd, lle mae trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a seiclo yn opsiynau teithio real.
- o Cynyddu ffyniant economaidd pobl a chymunedau'r Fwrdeistref Sirol drwy ddarparu tir ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth, wedi ei gefnogi gan dai addas a chyfleusterau a gwasanaethau ategol (yn cynnwys cyfleusterau cymunedol a iechyd, hamdden ac ati).
- o Cyfrannu at wella iechyd y cyhoedd, drwy hybu datblygiadau tir sy'n cyfrannu at les a ffyrdd iachus o fyw.
- o Defnyddio adnoddau yn effeithiol a gwneud y defnydd gorau o'n cryfderau.



- o Gwella cyfleusterau addysg er mwyn cynyddu sgiliau'r boblogaeth.
- o Hybu Bwrdeistref Sirol Caerffili fel ardal benodol yn ei hawn ryw.

Prif Amcanion

- 0.93 Mae nodau'r Cynllun wedi eu creu o faterion defnydd tir sydd wedi codi o bedair thema'r Strategaeth Gymunedol (Amgylchedd Byw, Adfywio, Addysg Oes a Bywyd a Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles).
- 0.94 Mae pob un o'r prif nodau yr amlineller hwynt isod yn cyfrannu at wireddu un neu fwy o nodau'r Cynllun ac hefyd yn cyd-fynd â'r wyth pennawd sy'n rhan o Weledigaeth a Strategaeth Ddatblygu'r Cynllun.
1. Sicrhau lle i dwf cynaliadwy yn y boblogaeth.
 2. Sicrhau bod digon o lefydd cyhoeddus agored a lefydd gwyrdd naturiol hygyrch yn y Fwrdeistref Sirol.
 3. Sicrhau bod adnoddau naturiol ac adeiledig yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon tra'n sicrhau nad yw'r adnoddau hynny sydd â therfyn arnynt yn cael eu disbyddu drwy ddatblygiadau anaddas.
 4. Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael cyn lleied o effaith amgylcheddol a phosibl.
 5. Gwella effeithlonrwydd ynni, gwastraff a dŵr tra'n hybu ynni adnewyddol derbynol i gadw amgylchedd glanach a helpu i leihau eu heffaith ar newid hinsawdd.
 6. Hybu rheoli gwastraff wedi ei seilio ar hierarchaeth lleihau, aildefnyddio, adfer (yn cynnwys ailgylchu deunyddiau, adfer ynni a chompostio) a gwaredu diogel.



7. Annog ailddefnyddio a/neu adennill tir llwyd a thir wedi ei lygru ac atal llygru pellach.
8. Canolbwyntio datblygiadau i lefydd addas ar hyd rhwydweithiau seilwaith sydd eisoes yn bodoli a rhai a gynigir, rhai sy'n hygyrch i'r cyhoedd, seiclwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cynnal a chyd-fynd a swyddogaethau anheddau unigol.
9. Sicrhau bod amrywiaeth addas a digonol o safleoedd tai ar gael ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol yn y lleoliadau mwyaf addas i ddiwallu anghenion tai pob sector o'r boblogaeth.
10. Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi eu cynllunio a'u dylunio'n dda ac yn talu sylw i'r hyn sydd o'u cwrpas a sicrhau y bydd llai o gyfleoedd i droseddu.
11. Nodi, gwarchod a, lle bo'n addas, gwella tirweddau a'u gwarchod rhag datblygiadau annerbyniol.
12. Nodi, gwarchod a gwella safleoedd cadwraeth natur ac o ddiddordeb gwyddorau daear a sicrhau bioamrywiaeth y Fwrdeistref Sirol.
13. Creu nodweddion ecolegol a thirwedd newydd addas a chynefinoedd fel rhan ganolog o ddatblygiadau newydd lle bo'n addas.
14. Rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau'r defnydd o ddŵr.
15. Lleihau effaith llifogydd drwy sicrhau bod datblygiadau yn bell o ardaloedd bregus pryd bynnag y bo'n bosibl.
16. Lleihau tagfeydd drwy leihau'r angen i deithio, hybu dulliau mwy cynaliadwy o deithio a defnyddio'r seilwaith drafnidiaeth bresennol yn effeithiol.
17. Manteisio ar safle strategol Caerffili a datblygu ymhellach ei safle fel canolfan fasnachol a chyflogaeth wrth galon Rhanbarth Ddinesig y Cymoedd gyda chysylltiadau cryf gydag ardal Blaenau'r Cymoedd ac fel y dewis call i Gaerdydd a Chasnewydd.

18. Darparu a gwarchod amrywiaeth o diroedd cyflogaeth ar gyfer nifer o fathau o gyflogaeth, yn canolbwyntio ar gyfleoedd cyflogaeth o werth uchel a safleoedd sy'n diwallu anghenion lleol, yn cynnwys cyfleusterau rheoli gwastraff.
19. Hybu datblygiadau twristiaeth o ansawdd uchel, y gellir eu defnyddio ymhob tymor a llety ar gyfer twristiaid sy'n cyd-fynd ag amgylchedd naturiol ac adeiledig y Fwrdeistref Sirol.
20. Sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithiol o'r seilwaith sydd eisoes yn bodoli ac annog gwelliannau angenrheidiol i'r rhwydwaith i gynnal lefelau angenrheidiol o ddatblygu ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol.
21. Gwarchod a darparu amrywiaeth eang o gyfleusterau iechyd a chymunedol sydd wedi eu lleoli mewn mannau addas ac yn hawdd eu cyrraedd, ac sydd yn diwallu anghenion pob rhan o'r boblogaeth.
22. Cynnal bywiogrwydd, dichonolrwydd a chymeriad canolfannau tref a phentref y Fwrdeistref Sirol a'u hailsefydlu fel ffocws i weithgaredd economaidd a balchder cymunedol.
23. Cynnal, gwella a datblygu hierarchaeth o ganolfannau tref a phentref sy'n hygyrch ac yn diwallu anghenion y boblogaeth gyfan.
24. Gwarchod a chynnal ansawdd gyffredinol amgylchedd hanesyddol ac adeiledig y Fwrdeistref Sirol.

Monitro A Gweithredu

Monitro

- 0.95 Mae monitro yn rhan anhepgor o broses y cynllun datblygu, ac yn rhoi sail i adolygu'r Cynllun a gwneud unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen. Mae'n rhaid i fonitro nodi materion a allai effeithio ar gynllunio a datblygu'r Fwrdeistref Sirol a chofnodi cynnydd a gweithrediad y Cynllun. Bydd canlyniadau'r monitro yn rhoi sail i adolygu'r Cynllun, a'r diwygiadau fydd eu hangen. Y bwriad ar hyn o bryd yw y bydd y Cynllun yn cael ei adolygu pob pedair blynedd.
- 0.96 Bydd y Cyngor felly yn sefydlu fframwaith ar gyfer monitro cynnydd a gweithrediad y polisiâu a'r cynigion yn y CDLI. Bwriad hyn fydd nodi'r prif sialensiau a chyfleoedd, a nodi sut i ddiwygio polisiâu'r CDLI pan fo angen. Bydd gwybodaeth gyfredol yn cael ei defnyddio gymaint â phosibl at y diben hwn, ond bydd angen weithiau sefydlu gweithdrefnau arbennig i gasglu gwybodaeth fonitro. *essary to set up special procedures to capture the required monitoring information.*
- 0.97 Mae Cyfarwyddyd Cynllunio LICC yn gofyn ar i awdurdodau baratoi Adroddiad Monitro blynyddol yn nodi'r prif faterion sy'n codi o'r broses fonitro. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys canlyniadau monitro yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Arfarniad Cynladwyedd. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu paratoi i gyd-fynd â'r flwyddyn ariannol a byddant ar gael o fewn chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn.



- 0.98 Bydd dangosyddion craidd yn cael eu nodi a'u monitro er mwyn monitro'r Cynllun a'i effeithiolrwydd cyffredinol. Mae'r dangosyddion canlynol wedi cael eu nodi mewn cyfarwyddyd cynllunio a pharatoi cynlluniau:
 - (a) dangosyddion craidd cenedlaethol;
 - (b) dangosyddion Asesiad Amgylcheddol Strategol/ arfarniadau cynladwyedd; a
 - (c) dangosyddion polisi strategol.
- 0.99 Mae CDLI Cymru yn nodi dangosyddion canlyniadol craidd cenedlaethol, y manylir ar y ddau gyntaf ohonynt yn y Rheoleiddiadau, fel y gwelir yn **Atodiad 17**.
- 0.100 Mae Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/arfarniad cynladwyedd yn nodi'r dangosyddion a'r targedau fydd yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd materion cynladwyedd. Er hwylustod, fe'u cynhwysir yn **Atodiad 18**.
- 0.101 Er mwyn monitro polisiâu'r CDLI, mae dangosyddion a thargedau wedi eu nodi i asesu a ydy'r Polisiâu Strategol yn gwireddu'r amcanion a nodwyd ar eu cyfer: nodir y targedau a'r amcanion hyn yn **Atodiad 19**.
- 0.102 Bydd y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y targedau a dangosyddion hyn yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol, er mai dim ond y prif ddangosyddion fydd yn cael eu cynnwys, gan fod cynifer ohonynt. Bydd y dangosyddion hyn yn cael eu mireinio a'u hymestyn wrth i'r Fframwaith Monitro gael ei ddatblygu: ymdrechir, er enghraifft, i ddatblygu dangosyddion ar gyfer polisiâu sy'n gyffredin ar hyd y Sir gyfan, er bod problemau gyda hyn, er enghraifft polisiâu gwarchod.

- 0.103 Adroddir ar gynnydd ar y polisiâu dyrannu safleoedd sydd yn Adran 3 y CDLI yn Adran Gweithredu'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

Gweithredu

- 0.104 0.104 Yn gyffredinol, disgwylir mai'r sector preifat, yn cynnwys cymdeithasau tai (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) fydd a gofal dros ddarparu'r dyraniad manwerthu a thai. Disgwylir hefyd i'r sector preifat gyfrannu tuag at lawer o'r seilwaith cyhoeddus, yn cynnwys gwelliannau i gyfleusterau trafnidiaeth, hamdden, addysg a chymunedol.
- 0.105 Rhaid cydnabod y bydd amgylchiadau economaidd allanol, yn cynnwys cylchoedd economaidd Prydain a rhyngwladol, yn dylanwadu ar allu'r sector preifat i gyflawni'r uchod. O'r herwydd mae'n debygol y bydd y gwaith o gwblhau tai yn enwedig yn amrywio'n sylweddol yn ystod 15 mlynedd y Cynllun.
- 0.106 Bydd cyllidebau'r sector cyhoeddus yn fwy cyson, ond yn amrywio dros amser. Mae rhaglenni cyfalaf y sector cyhoeddus, yn enwedig, yn dueddol o fod yn rhai byr dymor, tair neu bum mlynedd hynny yw, felly mae'n amhosibl bod yn fanwl gywir ynghylch gweithrediad y Cynllun dros gyfnod o bymtheg mlynedd. Ar ôl y bum mlynedd gyntaf, felly, mae'r rhaglen weithredu wedi ei rhannu'n "Ail gyfnod" a "Thrydydd Cyfnod" cyfnod y Cynllun. 2011-2015 fydd yr Ail Gyfnod, a 2016-2021 yw'r Trydydd Cyfnod.
- 0.107 Mae mwy o fanylion ar gwblhau a gweithredu yn **Atodiad 20** y Cynllun.

Adran A:

Y Strategaeth Ddatblygu

Y Strategaeth Ddatblygu

1.1 Mae'r pwysau i ddatblygu, argaeledd safleoedd addas, awydd y sector preifat i fuddsoddi, amgylchiadau amgylcheddol a'r seilwaith gwasanaethau a thrafnidiaeth yn amrywio'n fawr ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol. Mae angen, felly, gyfarwyddo datblygiadau o fewn fframwaith strategol eang.

1.2 Yn unol â chanllawiau'r llywodraeth a'r egwyddorion cynladwyedd sy'n tanlinellu'r CDLI, mae Strategaeth Ddatblygu'r CDLI yn seiliedig ar dri maes eang:

- o **Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd (AABC)**
- o **Y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol (TGG)**
- o **Y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol (TGD)**

Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd (AABC)

1.3 Mae lefelau uchel o ddiweithdra, amddifadedd cymdeithasol a chwmpas yn y boblogaeth yn nodweddion o Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd (AABC). Mae denu cyflogwyr preifat yno yn anodd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cyngor

felly yn cydnabod yr ardal fel un y dylid ei blaenoriaethu ar gyfer adfywio. Mae'r AABC wedi gweld nifer o fentrau adfywio cymunedol cynhwysfawr, yn cynnwys mesurau cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â'r mesurau yn ymwneud â defnydd tir yn strategaeth ddatblygu'r CDLI.

1.4 Mae buddsoddi helaeth, na fu mo'i debyg o'r blaen, wedi ei wneud gan y sector cyhoeddus yn seilwaith yr AABC dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn y rhwydwaith trafnidiaeth. Nid oes arian cyfatebol wedi dod gan y sector preifat. Mae Strategaeth Ddatblygu'r Cynllun yn ceisio denu datblygiad i'r ardal a manteisio ac adeiladu ar y buddsoddiad hwn. Mae felly, yn dynodi tir ar hyd a lled yr AABC i'w ddefnyddio mewn nifer o ffyrdd, i ddiwallu anghenion anheddau unigol a hefyd i adfywio'r ardal dros gyfnod y Cynllun.

1.5 Cyfyng iawn yw'r dewis o dai yn yr ardal hon, ac mae hyd at 90% yn dai teras a adeiladwyd cyn 1914 mewn rhai pentrefi. Pan fo llai o dai teras mewn ardal, tai'r sector cyhoeddus yw'r rhan fwyaf o'r gweddill. Mae'n debygol bod y prinder o dai modern yn ystyriaeth bwysig ym mhenderfyniad teuluoedd ifanc a mwy ffyniannus i adael yr ardal. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae rhyw 24% o'r safleoedd tai newydd yn y Cynllun o fewn ardal yr AABC. Mae hyn yn adlewyrchu'r awydd strategol i ganiatáu datblygiadau newydd fydd yn hybu amrywiaeth y stoc tai ac yn helpu i gadw pobl yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol, a denu pobl yno. Er mwyn annog datblygwyr i'r AABC mae 45% o'r tir ar gyfer tai mewn safleoedd maes glas.

1.7 **Bargod yw'r Prif Dref** yn yr AABC, ac mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ac yn cyflawni nifer o swyddogaethau ar gyfer yr anheddau o'i chwmpas, gwasanaethau a swyddogaethau sydd ond ar gael ym Margoed. Mae Strategaeth Ddatblygu'r Cynllun yn ceisio **codi statws Bargod o fewn Rhanbarth Blaenau'r Cymoedd** yn gyffredinol drwy osod safleoedd ailddatblygu mawr, yn cynnwys safle manwerthu ac adloniant mawr newydd, llyfrgell ardal a safleoedd swyddfa, yng nghanol y dref er mwyn trawsnewid y Dref dros gyfnod y Cynllun.

1.8 Nid oes safleoedd cyflogaeth newydd wedi eu nodi yn yr AABC. Bydd pwyslais, yn hytrach, ar ailddatblygu ac adfywio safleoedd sydd eisoes yno, a'u gwneud yn fwy deniadol i fuddsoddwyr. Mae rhyw **5% o'r tir** a nodir ar gyfer cyflogaeth yn yr AABC.

1.9 Mae gan yr AABC potensial enfawr i **gyfrannu at** Barc Rhanbarthol y Cymoedd a bydd y Strategaeth Ddatblygu yn sicrhau y bydd yr ardaloedd gwledig o'i chwmpas yn cael eu gwarchod a'u datblygu. Mae llawer o'r ardal yn dir sydd o werth uchel ac yn amgylcheddol sensitif ac **o ganlyniad mae 67% o'r ardal** wledig o'i chwmpas yn cael ei warchod yn amgylcheddol.

Y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol (TGG)

1.10 Mae'r Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol yn cynnwys ardal o ddatblygiadau trefol sy'n gorgyffwrdd ar hyd ardal ganol y Cymoedd. Mae'r patrwm anheddau yma yn debycach i gytrefi trefol confensiynol nag i'r anheddau


llinol sy'n nodweddu gweddill y cymoedd. Mae'r Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol (TCG) wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad preifat a chyhoeddus sylweddol sydd wedi trawsnewid y rhan hon o'r Fwrdeistref Sirol dros y blynyddoedd diwethaf.

1.11 Yn sgil y strategaeth ddatblygu yng Nghynllun Datblygu Unedol Bwrdeistref Sirol Caerffili, a oedd yn targedu tai a chynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth yng nghanol ardal y cymoedd, mae'r TCG wedi gweld niferoedd sylweddol o dai newydd yn cael eu hadeiladu dros y ddeng mlynedd ddiwethaf. Tra bo hyn wedi arwain at fwy o amrywiaeth yn y stoc dai, o ran y mathau o dai sydd ar gael, nid oes digon o dai fforddiadwy yn yr ardal i ddiwallu anghenion pob sector cymdeithas. Mae'r Strategaeth Ddatblygu yn ceisio mynd i'r afael â hyn ac mae'r Cynllun yn targedu tai fforddiadwy, gyda'r ddarpariaeth wedi'i seilio ar asesiad cadarn o ddichonolrwydd - **10% o'r tai yn ardal Trecelyn a 25% yng ngweddill y TCG.**

1.12 Mae datblygiadau tai newydd yn y TCG wedi ei dargedu yn bennaf i safleoedd tir llwyd o fewn anheddau presennol gyda nifer gyfyngedig o ddatblygiadau ar dir glas. Mae 68% o bob cynnig tai yn y TCG ar safleoedd tir llwyd. Lle mae safleoedd tir glas wedi cael eu rhyddhau, ystyriwyd y byddai hyn yn sicrhau amrywiaeth yn y stoc dai a gwneud yr ardaloedd yn fwy deniadol i fuddsoddwyr yn y dyfodol.

Prif Ddiagram

Mae diagramau manwl ar gyfer pob ardal strategaeth yn Adran C. Mae'r Rhagymadrodd yn Adran C yn ymhelaethu ar swyddogaethau canolfannau.



1.13 Mae'r CDLI yn dal i dargedu twf mewn cyfleoedd cyflogaeth yn y TCG. Yn y cyd-destun hwn, mae llwyddiant **Parc Busnes Oakdale** (un o'r llwyfandiroedd diwydiannol mwyaf yn Ne Cymru) yn anhepgorol wrth sicrhau ffyniant economaidd i drigolion y Fwrdeistref Sirol ac yn enwedig wrth wireddu un o brif swyddogaethau TCG - sef cynnig cyfleoedd cyflogaeth, sydd eu mawr angen, i drigolion AABC. Mae **86%** o'r dynodiadau cyflogaeth o fewn yr ardal strategaeth hon.

1.14 Bydd swyddogaeth TCG yn cynyddu mewn pwysigrwydd dros gyfnod y Cynllun, gan fod y Brif Dref, sef **Ystrad Mynach**, wedi gweld nifer o wasanaethau cyhoeddus hollbwysig yn sefydlu yno, yn cynnwys coleg addysg bellach, gorsaf heddlu newydd, Pencadlys newydd y Cyngor a'r ysbyty cyffredinol lleol newydd. Mae'r ffaith fod y gwasanaethau pwysig hyn wedi eu lleoli yno yn golygu bod Ystrad Mynach yn ganolfan gyflogi sylweddol.

Y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol (TCD)

1.15 Mae pwysau mawr ar y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol (TCD) yn sgil twf Coridor yr M4. Cyfyng yw'r cyfleoedd datblygu yma heb niweidio'r amgylchfyd. Mae llawer o'r ardal yn dir sydd o werth uchel ac yn amgylcheddol sensitif ac o **ganlyniad mae 76%** o'r ardal wledig o'i chwmpas yn cael ei warchod yn amgylcheddol.

1.16 O fewn y TCD, bwriad y Cynllun yw cyfnerthu datblygiadau o fewn ffiniau cyfredol anheddau, ac o ganlyniad mae **96%** o bob safle tai ar diroedd llwyd. Fel egwyddor gyffredinol, bydd gwelliannau seilwaith yn digwydd fel rhan o'r broses o ddatblygu safleoedd yn y TCD.

1.17 Yn sgil pwysau datblygu o Gasnewydd a Chaerdydd mae nifer sylweddol o dai wedi eu codi yn y TCD dros y ddeng mlynedd ddiwethaf. Tra bo hyn wedi arwain at fwy o amrywiaeth yn y stoc dai, o ran y mathau o dai sydd ar gael, nid oes digon o dai fforddiadwy yn yr ardal i ddiwallu anghenion pob sector cymdeithas. Mae'r Strategaeth Ddatblygu yn ceisio mynd i'r afael â hyn ac mae'r Cynllun yn targedu tai fforddiadwy, gyda'r ddarpariaeth wedi'i seilio ar asesiad cadarn o ddichonolrwydd - **40% o'r tai ym Masn Caerffili** (ddim yn cynnwys Cwm Aber) a **10% yn ardal isaf Islwyn** o'r TCD a Chwm Aber.

1.18 Nid oes safleoedd cyflogaeth newydd wedi eu nodi yn y TCD. Bydd pwyslais, yn hytrach, ar ailddatblygu ac adfywio safleoedd sydd eisoes yno, a'u gwneud yn fwy deniadol i fuddsoddwyr. Mae rhyw 8% o'r tir a nodir ar gyfer cyflogaeth yn y TCD.



Wyth Prif Efen Y Strategaeth

- 1.19 Mae wyth rhan yn ffurfio'r Strategaeth Ddatblygu ac yn tanlinellu holl bolisiau'r CDLI, sef:
- 1. Targedu datblygiadau i adlewyrchu rolau a swyddogaethau cymdogaethau unigol
 - 2. Caniatáu cyfleoedd datblygu yn ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd
 - 3. Hybu agwedd gytbwys tuag at reoli twf yn y dyfodol
 - 4. Manteisio ar gyfleoedd tir llwyd pan yn addas
 - 5. Hybu patrymau ymgartrefu sy'n defnyddio adnoddau yn effeithiol
 - 6. Sicrhau bod datblygiadau yn cyfrannu at ddatblygiadau seilwaith angenrheidiol
 - 7. Sicrhau bod datblygiadau yn darparu'r adnoddau cymunedol sydd eu hangen
 - 8. Lleihau effaith datblygiadau ar ardaloedd gwledig

Targedu datblygiadau i adlewyrchu rolau a swyddogaethau cymdogaethau unigol

- 1.20 Mae swyddogaeth anheddau unigol yn ffactor hollbwysig wrth benderfynu sut mae'r strategaeth yn ymateb i'w anghenion penodol. Er mwyn targedu datblygiadau yn addas mae'r Cynllun yn nodi:
- 5 Prif Ganol Tref – Bargod yn gwasanaethu'r rhan o Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd sydd o fewn i'r Fwrdeistref Sirol, Y Coed Duon ac Ystrad Mynach yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol, a Chaerffili a Rhisga/ Pontymister yn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol.

- 4 Canolfan Leol – Rhymni yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, Trecelyn a Ffos-y-Gerddinen yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol, a Bedwas yn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol; ac
- Anheddau Preswyl – ardaloedd eraill o fewn ffiniau anheddau sydd ag ynddyn nhw siopau lleol a/neu unedau unigol yn gwasanaethu anghenion lleol.

1.21 Mae canol trefi'r Fwrdeistref Sirol yn cyflawni nifer o swyddogaethau. Maen nhw'n gyflogwyr pwysig, darparwyr gwasanaeth, fel banciau, cymdeithasau adeiladu, llyfrgelloedd ac asiantaethau tai, a hefyd yn cynnwys siopau y mae'r ardaloedd lleol yn eu defnyddio. Mae'r sector manwerthu yn gyflogwr pwysig hefyd, yn enwedig o fewn y bum Prif Dref. Mae siop yn weithgaredd hollbwysig ac yn weithgaredd hamdden. O ganlyniad, mae ansawdd y siopau mewn canolfannau manwerthu yn cyfrannu'n fawr at deimladau pobl ynghylch ansawdd bywyd trefol yn gyffredinol.

1.22 Tra bo angen i'r CDLI nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd, nid yw'n golygu fod pob datblygiad yn dderbyniol ym mhob annedd. Bydd addasrwydd y defnydd yn cael ei ystyried law yn llaw â swyddogaeth pob annedd fel y disgrifir yn Adran C y Cynllun, gyda defnydd addas yn unig yn cael ei ddyrannu yn y Cynllun.

1.23 Yn yr ardaloedd hynny sydd wedi eu nodi fel rhai sydd â swyddogaeth breswyl, bydd darparu tai ychwanegol yn ôl maint yr annedd yn gymorth i sicrhau mwy o amrywiaeth o fewn y stoc tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, pan fo tystiolaeth bod y bobl eu hangen.

Caniatáu cyfleoedd datblygu yn ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd

1.24 Mae wedi bod yn anodd, yn y gorffennol, i ddenu buddsoddiad preifat i ran ogleddol y Fwrdeistref Sirol, ond cafwyd arwyddion yn ddiweddar bod hyn yn newid. Mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi blaenoriaethu'r rhan hon o'r Fwrdeistref Sirol i'w hadfywio drwy ei chynnwys yn rhaglen Ardal Blaenau'r Cymoedd. Mae'r rhaglen hon yn cyd-fynd a blaenoriaethau adfywio'r Cyngor.

- 1.25 Mae rhaglen Blaenau'r Cymoedd yn un elfen ar ddyheadau datblygu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Wrth galon y weledigaeth mae rhwydwaith o gymunedau cryf a chynaliadwy, yn lledu ffyniant o'r ddwy ganolfan fawr Caerdydd a Chasnewydd i gymoedd ar hyd y rhanbarth.
- 1.26 O fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili, rhagwelir y bydd y cynigion ar gyfer Bargod, fel y brif dref yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, yn sbardun i fuddsoddiadau pellach ar hyd a lled yr ardal ehangach. Bydd y Cynllun yn hwyluso cyfleoedd datblygu pellach drwy ddynodi amrywiaeth o safleoedd ar hyd yr anheddau, yn talu sylw i'w swyddogaethau, er mwyn darparu mwy o dai fforddiadwy a deniadol, gwell amrywiaeth o wasanaethau lleol, cyfleoedd trafnidiaeth a chyflogaeth ac amrywiaeth o gyfleusterau manwerthu a hamdden.

Hybu agwedd gytbwys tuag at reoli twf yn y dyfodol

1.27 Mae rhagamcanion o boblogaeth y dyfodol yn hollbwysig wrth bennu'r cartrefi ychwanegol fydd eu hangen ar safleoedd ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol dros gyfnod y Cynllun. Mae tybiaethau a wneir yn hyn o beth yn effeithio ar bob agwedd ar y Cynllun, yn enwedig yr angen i sicrhau cyfleoedd gwaith i bobl leol a'r angen am seilwaith heolydd a thrafnidiaeth gyhoeddus effeithiol er mwyn gwneud gwasanaethau a chyfleusterau yn hygyrch.

1.28 Amlinellir y tybiaethau datblygu sy'n sail i strategaeth y CDLI mewn cyfres o bapurau cefndir i'r CDLI Adneuol, ond crynhoir nhw yma er hwylustod.

Prif Dybiaethau:

- Twf Poblogaeth** - mae'r Cynllun yn tybio lefel gymedrol o dwf yn y boblogaeth, yn arwain at boblogaeth o 177,500 yng Nghaerffili yn 2021, yn awgrymu y bydd angen cyfanswm o 8,625 o dai dros gyfnod y Cynllun, y bydd canran ohonynt yn rhai fforddiadwy.
- Twf Economaidd** - mae lefelau twf y boblogaeth yn y dyfodol yn awgrymu y bydd angen tir ar gyfer cynnydd mewn cyfleoedd gwaith er mwyn cynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd, sy'n is na'r cyfartaledd Cymreig. Bydd cyfanswm o 101.9 hectar o dir yn cael ei ddynodi ar gyfer cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun, ynghyd a nifer o safleoedd cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli.
- Trafnidiaeth** – mae twf poblogaeth yn gallu arwain at gynnydd mewn tagfeydd. Mae dull mwy cynaliadwy, fodd bynnag, wedi ei fabwysiadu er mwyn annog llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy symud tuag at gerdded, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig wrth ddefnyddio'r cysylltiadau rheilffordd drwy Gymoedd Ebwy a Rhymni, ynghyd â defnydd mwy effeithiol ar y rhwydwaith heolydd presennol.
- Seilwaith Cymunedol** – Bydd twf yn y boblogaeth yn rhoi pwysau ychwanegol ar y rhwydwaith o gyfleusterau fydd eu hangen i gynnal cymunedau cynaliadwy (gwastraff, addysg, hamdden, ynni adnewyddol ac yn y blaen). Bydd Polisiâu'r Cynllun yn sicrhau y bydd y rhwydwaith o gyfleusterau yn cael ei ddatblygu law yn llaw a thai newydd.

- o **Gwarchod yr Amgylchedd** - Bydd datblygiadau yn cael eu cyfeirio tuag at rannau o'r Fwrdeistref Sirol sydd â'r capasiti amgylcheddol i'w cymryd, heb achosi niwed diangen i ardaloedd sy'n bwysig yn nhermau bioamrywiaeth, tirwedd, hanes neu gadwraeth.

Rheoli Twf

- 1.29 Mae'r Strategaeth yn hybu agwedd fwy cytbwys tuag at reoli twf poblogaeth a gwaith yn y dyfodol, lle bydd cyfleoedd datblygu yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol (TCG) a Thref Caerffili yn cael eu cyfyngu'n bennaf i safleoedd tir llwyd. Dyma'r ardal sydd a'r pwysau datblygu mwyaf arni, ac mae'r capasiti i ddatblygu heb effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd yn gyfyngedig. Cynigir cyfleoedd datblygu mwy sylweddol ar safleoedd tir llwyd a thir glas, pan fônt yn addas, yn y prif drefi a'r Canolfannau Lleol yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol ac Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd er mwyn lledu ffyniant ar hyd y Fwrdeistref Sirol.
- 1.30 Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi bod cytref drefol yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol ac ardal Bargod Uchaf Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd. Gallai'r gytref hon, oherwydd ei lleoliad canolog, yrru adfywiad y Fwrdeistref Sirol yn gyffredinol. Mae'r TCG yn cynnwys nifer o ganolfannau trefol eraill, sef Ystrad Mynach, Y Coed Duon, Oakdale a Threcelyn. Y Coed Duon yw'r brif ganolfan fanwerthu, mae gan Ystrad Mynach swyddogaethau gweinyddol, iechyd ac addysg bellach ac mae gwasanaeth manwerthu newydd yn

Nhrecelyn. Ynghyd â'r safle cyflogaeth pwysig yn Oakdale / Penyfan, mae'r 'canolfannau' hyn yn ysgogiad cryf i dwf economaidd a darpariaeth cyfleusterau trefol yn y Fwrdeistref Sirol.

Manteisio ar gyfleoedd tir llwyd pan yn addas

- 1.31 Mae ardaloedd sylweddol o dir llwyd ar gael i'w hailddatblygu ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol yn sgil ailstrwythuro economaidd a sector cyhoeddus. Mae lleoliad llawer o'r safleoedd hyn eisoes wedi eu pennu gan etifeddiaeth ddiwydiannol a diwylliannol yr ardal. Y safleoedd pwysicaf yw:
- o Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd
 - Llwyfandir Bargod, Aberbargod (11.8 ha)
 - o Y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol
 - Gwaith glo Oakdale (58.2 ha)
 - Gwaith glo Penalltau, Ystrad Mynach (31.87 ha)
 - o Y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol
 - Gwaith Glo Bedwas, Bedwas (23 ha),
 - Tir ym Mhontypandy, Caerffili (7.58 ha)
 - Ffowndri Rhisga (3.3 ha)
 - Ness Tar (12.3 ha)



- 1.32 Lle mae safleoedd tir llwyd yn bodoli ac ailddatblygu ar gyfer defnydd gwahanol yn realistig a hyfyw o fewn cyfnod y Cynllun, mae'r safleoedd wedi eu dynodi ar gyfer datblygiadau addas. Mae'r dynodiadau hyn yn cynnwys pob un o'r safleoedd tri llwyd a nodir uchod, ar gyfer amrywiaeth o ddefnydd, heblaw Ness Tar, na ddisgwylir iddo fod yn realistig o fewn cyfnod y Cynllun oherwydd y cyfyngiadau difrifol sydd ar y safle.
- 1.33 Wrth benderfynu ar y defnydd mwyaf priodol ar safleoedd tir llwyd, ystyriwyd yr angen i neilltuo tir ar gyfer cyfleusterau trefol a chyflogaeth yn ogystal â sicrhau na fyddai'r datblygiadau yn effeithio ar swyddogaethau'r Fwrdeistref Sirol yn gyffredinol. Mae'n bwysig nodi bod yn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol lawer o safleoedd tir llwyd mawr ac mae'r Cynllun yn cydbwysu'r angen i ddatblygu'r safleoedd hyn gyda'r angen i sicrhau y rheolir twf ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol er mwyn hybu adfywio'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, lle mae llai o safleoedd tir llwyd.

Hybu patrymau ymgartrefu sy'n defnyddio adnoddau yn effeithiol

- 1.34 Un o brif rannau'r Strategaeth yw hybu patrymau datblygu sy'n defnyddio adnoddau yn effeithiol ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r CDLI yn hybu agwedd gadarnhaol tuag at effeithlonrwydd ynni a dŵr, rheoli gwastraff wrth lunio a chynllunio datblygiadau newydd.
- 1.35 Mae pennu ffiniau anheddau yn un o'r ffyrdd pwysig o sicrhau ardaloedd sy'n defnyddio adnoddau yn effeithiol ac o ddangos lle bydd twf yn cael ei ganiatáu. Mae ffin yr annedd yn cyflawni nifer o swyddogaethau strategol pwysig, sef diffinio'r ardal lle byddid fel arfer yn caniatáu datblygu, ynghyd â'r ystyriaethau arferol; hybu defnydd effeithiol ar dir trefol a chanolbwyntio datblygiadau o fewn anheddau; rhwystro anheddau rhag toddi

i'w gilydd neu ddatblygu rhuban neu ysbeidiol. Mae'r ffiniau hyn hefyd yn atal datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd gwledig. Maen nhw'n ffordd effeithiol o reoli penderfyniadau datblygu ac yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ac i'r datblygwyr. Mae ffiniau anheddau wedi eu pennu yn unol â swyddogaethau anheddau penodol.

- 1.36 Bu llawer o anheddau Caerffili yn gymunedau glofaol gynt, gyda chymeriad unigryw i bob un. Bydd pennu eu ffiniau yn unol â swyddogaethau'r anheddau hyn yn cadw a chryfhau eu cymeriad, yn ogystal â sicrhau anheddau sy'n defnyddio adnoddau yn effeithlon.
- 1.37 Mae dynodiadau tir presennol ac ardaloedd eraill o dir agored o fewn ffiniau presennol anheddau wedi cael eu hailasesu'n drylwyr gyda'r bwriad o adleoli tir ar gyfer defnydd gwahanol pan fo hynny'n briodol. Sicrhawyd bod tir agored, tir hamdden a chymunedol yn cael eu gwarchod yn ddigonol rhag eu colli a'u troi'n safleoedd tai neu'n diroedd eraill mwy proffidiol. Pan fo tir yn cael ei bennu fel un sydd heb ddefnydd iddo mwyach ac y byddai ei ailddatblygu yn arwain at ddefnydd effeithiol ar dir o fewn terfynau anheddau, mae wedi cael ei ryddhau ar gyfer ei ddatblygu.
- 1.38 Yn sgil topograffeg yr ardal a'r ffordd y cafodd ei threfoli'n gyflym iawn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae llawer o ddatblygiadau trefol Caerffili wedi digwydd ar orlifdiroedd afonydd Ebwy, Sirhywi, Rhymni a'u hisafonydd. Yn sgil y datblygiad hanesyddol hwn, mae rhannau sylweddol o'r Prif Drefi, sef Ystrad Mynach, Caerffili a Rhisga/Pontymister o fewn y gorlifdiroedd. Mae'n annatod, felly, y bydd llifogydd yn fygythiad i rai o'r datblygiadau presennol, er gwaethaf y nod o osgoi ardaloedd lle mae llifogydd yn bosibl.
- 1.39 Mae angen rhywfaint o hyblygrwydd, fodd bynnag, er mwyn asesu'r perygl o

lifogydd, tra hefyd yn cydnabod canlyniadau economaidd a chymdeithasol negyddol o wahardd buddsoddiad mewn ardaloedd trefol, yn enwedig o fewn y Prif Drefi, a'r buddion a ddaw o ailddefnyddio tir sydd eisoes wedi ei ddatblygu. Wrth asesu pa mor briodol y mae datblygiadau newydd ar diroedd sydd eisoes wedi eu datblygu, rhaid oedd barnu'n gytbwys ar sail y buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a ddaw yn sgil ailddatblygu safleoedd.

1.40 Fel egwyddor gyffredinol, mae gan y Cynllun y nod o beidio â gosod datblygiadau yn y gorlifdir. Fodd bynnag, pan fo datblygiad yn cael ei ystyried yn un priodol, wedi ystyried swyddogaeth yr annedd ac y gellir ei gyfiawnhau o fewn cyd-destun Nodyn Cyfarwyddyd 15, bydd angen cynnwys mesurau o fewn y cynllun i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl. Pan fo datblygiad yn cael ei gynnig mewn ardal sydd â pherygl o lifogydd, bydd rhaid cynnwys asesiad canlyniad llifogydd fel rhan o unrhyw gais cynllunio ar gyfer tir o fewn y CDLI. Bydd yr asesiadau hyn yn cael eu paratoi mewn ymgynghoriad gydag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mewn ardaloedd o'r fath, bydd ailddatblygiadau yn cael eu cynllunio mewn ffordd fydd yn golygu mwy o warchodaeth i ardaloedd trefol sydd eisoes yn fregus.

1.41 Mae darparu system drafnidiaeth effeithiol drwy symud tuag at ffurf fwy cynaliadwy ar drafnidiaeth, yn ogystal â gwella'r rhwydwaith heolydd strategol, yn rhan bwysig o'r broses o symud tuag at batrwm sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol

mewn anheddau ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol. Bydd hyn yn galluogi gwelliannau pellach i'r rhwydwaith heolydd strategol lle bo hynny'n briodol i fynd i'r afael â materion adfywio a hygyrchedd.

1.42 Yn y tymor hirach, cynllunnir symudiad sylweddol o'r car i drafnidiaeth gyhoeddus. Felly, bydd anheddau sydd o fewn cyrraedd hawdd i'r gwasanaethau trên presennol ar hyd Cwm Rhymni ac Ebwy, gyda'u cysylltiadau cyson â Chaerdydd, yn cael eu ffafrio, yn enwedig ar gyfer datblygiadau dwys. Ystyrir mai'r tramwyfeydd trên yw'r lleoliadau mwyaf addas ar gyfer datblygiadau sydd yn debygol o arwain at siwrneiau cyson yn y dyfodol.

1.43 Mae'r Cynllun hefyd yn nodi cyfleoedd lle bydd datblygiadau dwys yn arbennig o addas gan fod y safleoedd yn agos i'r rhwydwaith trafndiaeth, a thrafnidiaeth gyhoeddus yn enwedig. Bydd rhaid cydbwysu'r ymdrech i warchod prif safleoedd ger canolfannau trafndiaeth ar gyfer cyfleusterau fel parcio a theithio a'u hailddatblygu i greu cyfleoedd trafndiaeth fydd yn hybu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

1.44 Wrth sicrhau agwedd gytbwys tuag at dwf, rhaid ystyried gwaredu gwastraff. Yn y gorffennol, mae gwastraff wedi cael ei ystyried fel problem y gellir ei datrys yn hawdd drwy ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae'r dull hwn o waredu gwastraff nawr yn cael ei gydnabod yn helaeth fel dull anghynaliadwy yn yr hir dymor oherwydd y cynnydd yn y gwastraff a gynhyrchir, perygl llygru'r amgylchedd a phrinder safleoedd tirlenwi addas ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn drwy ddatblygu rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff/adfer adnoddau modern ac effeithiol eu cynllun ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

Sicrhau bod datblygiadau yn cyfrannu tuag at welliannau seilwaith angenrheidiol

1.45 Mae darparu seilwaith digonol ac effeithiol mewn ffordd gynaliadwy yn anhepgor ar gyfer cynaliadwydd y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn cynnwys cyfleustodau fel dŵr, carthffosiaeth, rheoli gwastraff, trydan, nwy a thele-gyfathrebau. Mae galluogi datblygiadau newydd i ddigwydd, wedi eu gwasanaethau gan seilwaith o'r fath, yn angenrheidiol i les cymdeithasol y Fwrdeistref Sirol. Bydd datblygiadau newydd yn gosod pwysau newydd ar gyfleustodau, yn strategol ac ar y safleoedd eu hunain. Pan nad fydd darparwr cyfleustodau yn rhagweld y bydd angen sicrhau gwelliannau i'r seilwaith o fewn cyfnod y Cynllun, mae'r Cynllun yn tynnu sylw darpar ddatblygwyr at hyn ac yn crybwyll y gwelliannau y bydd gofyn i'r datblygwr eu cyflwyno. Drwy hyn bydd darpar ddatblygwyr yn gallu cynnwys y gost sydd ynghlwm wrth hyn yn gynnar yn y broses gynllunio.

1.46 Un o brif amcanion y CDLI yw lleihau tagfeydd drwy annog system drafnidiaeth sy'n fwy cynaliadwy ac sydd yn ceisio lleihau'r angen i deithio, yn hybu dulliau gwahanol o deithio heblaw'r car, a defnyddio'r seilwaith trafndiaeth presennol yn y ffordd fwyaf effeithlon. Bydd hyn yn galluogi pobl a busnesau i gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau yn hawdd ac felly gefnogi eu bywyd economaidd a chymdeithasol heb niweidio'r amgylchedd.

1.47 Mae tueddiadau mewn defnydd ceir yn awgrymu tagfeydd cynyddol yn y Fwrdeistref Sirol. Hefyd, dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, mae tagfeydd cynyddol wedi bodoli o fewn y Tramwyfeydd Cysylltiadau Gogleddol a Deheuol, yn enwedig ar fannau penodol o'r rhwydwaith, e.e. ar hyd yr A472 a'r prif gyffyrdd ar hyd yr A468. Nid yw hyn yn gynaliadwy, gan y bydd datblygiadau newydd yn gwaethgu'r broblem os na fuddsoddir yn y seilwaith.

Bydd disgwyl, felly, i ddatblygiadau preswyl gyfrannu tuag at welliannau i'r rhwydwaith heolydd a gwelliannau angenrheidiol eraill i'r seilwaith, yn cynnwys gwella'r system drafnidiaeth gyhoeddus lle bo angen drwy ddyletswyddau cynllunio neu lefi seilwaith cymuned fel y bo'n briodol.

Sicrhau bod datblygiadau yn darparu'r adnoddau cymunedol sydd eu hangen

1.48 Mae'r Cyngor yn chwarae rôl flaenllaw yn darparu a rheoli llefydd agored sydd wedi eu cynllunio'n dda a chanddynt gyfleusterau chwarae priodol. Mae'n darparu rhwydwaith amrywiol o barciau, ardaloedd hamdden ffurfiol ac anffurfiol ac ardaloedd chwarae i blant ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol. Mewn rhai mannau, Basn Caerffili, er enghraifft, sydd â phoblogaeth ddwys iawn, mae'r pwysau ar gyfleusterau hamdden yn fawr a bydd datblygiadau preswyl yn gwaethgu hyn. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd datblygiadau tai newydd yn gorfod sicrhau bod digon o dir agored lleol a chyfleusterau chwarae diogel a phriodol yn cael eu darparu ar y safle er mwyn diwallu anghenion y trigolion.

1.49 Mae cynnwys tir agored ffurfiol ac anffurfiol mewn datblygiadau newydd yn bwysig am nifer o resymau, sef: mae'n diwallu anghenion hamdden trigolion lleol, ac mae'r gweithgaredd corfforol a ddaw yn sgil cyfleoedd ymarfer yn gwella iechyd pobl; mae'n gwella ansawdd bywyd trigolion ac yn cyfrannu at eu hymdeimlad o les; gall gyfrannu yn gadarnhaol at yr amgylchedd adeiledig, cadwraeth natur a'r dirwedd, ansawdd aer a gwarchod dŵr daear.

1.50 Yn ogystal â'r anghenion ar y safleoedd eu hunain, mae datblygiadau tai yn debygol o osod pwysau ychwanegol ar seilwaith hamdden ehangach, fel canolfannau hamdden, meysydd chwarae a pharciau. O ganlyniad, bydd gofyn i ddatblygwyr tai gyfrannu at wella'r rhwydwaith hamdden drwy'r dyletswyddau sydd arnynt wrth gael

caniatâd cynllunio neu'r lefi cymunedol, fel y bo'n addas.

- 1.51 Bydd datblygiadau tai newydd hefyd yn rhoi mwy o bwysau ar gyfleusterau eraill, fel ysgolion a chanolfannau cymunedol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gosod cyfyngiad ar gapasiti ysgolion. Mae'n bosibl y bydd y genhedlaeth ychwanegol o blant a ddaw yn sgil datblygiadau newydd, felly, yn arwain ar angen am gyfleusterau newydd a gwell.

Lleihau effaith datblygiadau ar ardaloedd gwledig

- 1.52 Mewn rhai rhannau o'r Fwrdeistref Sirol, byddai unrhyw dwf pellach y tu allan i ffiniau anheddau yn arwain at ddatblygu ar ardaloedd sensitif iawn, fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA), Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN), neu Tirweddau o Bwysigrwydd Gwledol (TBG). Mewn ardaloedd o'r fath, cyfyng yw'r posibiliadau datblygu heb niwed amgylcheddol diangen, yn enwedig pan fo topograffeg yn gosod cyfyngiadau pellach.

- 1.53 Mae dosbarthiad dynodiadau ardaloedd gwerthfawr a sensitif fel hyn yn dangos yn gyffredinol gapasiti amgylcheddol gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol. Pan fo anheddau wedi cael eu nodi fel rhai i'w tyfu, yn unol â'u swyddogaethau, mae'r CDLI wedi bod cymryd gofal i sicrhau bod gan yr amgylchedd y capasiti ar gyfer datblygiadau ac ystyried yr angen i warchod a/neu gadw'r agweddau hynny ar yr amgylchedd naturiol sydd yn werthfawr o ran eu tirwedd, bioamrywiaeth neu ddiddordeb amaethyddol. Pan fo safleoedd tir gwyrdd wedi eu nodi, yn bennaf yn ardaloedd Blaenau'r Cymoedd a'r Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r potensial i ddatblygu'r safleoedd i wella'r dirwedd a bioamrywiaeth yn sgil eu datblygu. Bydd hyn yn cynnwys yr angen i ystyried creu a chynnal tramwyfeydd gwyrdd ar gyfer mudo rhywogaethau.



- 1.54 Mae cadwraeth ynni yn cyfrannu yn gadarnhaol tuag at warchod yr amgylchedd drwy leihau allyriadau niweidiol i'r amgylchedd. Mae gan dechnolegau ynni adnewyddol fel microgynhyrchu hefyd rôl bwysig i'w chyflawni yn yr amgylchedd adeiledig. Mae gan nifer o ffynonellau ynni adnewyddol, fodd bynnag, y potensial i effeithio'n negyddol ar ardaloedd gwledig, effaith ynni gwynt ar y tirwedd, er enghraifft. Mae angen, felly, ystyried manteision cynlluniau ynni adnewyddol ochr yn ochr â'r effaith y gallai datblygiadau o'r fath ei chael ar safleoedd o ddiddordeb ecolegol.

- 1.55 Mae glo o dan y rhan fwyaf o'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r haenau yn dod i'r wyneb yng ngogledd a de'r Fwrdeistref Sirol. Mae tywodfaen ar ben y glo yng nghanol y Fwrdeistref Sirol. Mae glo wedi cael ei gloddio'n helaeth yn y gorffennol, mewn pyllau dwfn a gweithfeydd glo brig. Mae gan Bolisi Cynllunio Mwynau Cymru'r nod o gloddio mwynau mewn ffordd fydd yn diwallu anghenion cymdeithasol. Mae'n argymhell felly y dylid gwarchod mwynau rhag cael eu cloddio'n barhaol mewn ffordd a fyddai'n eu disbyddu. Mae'r strategaeth felly yn cydbwysu'r angen i warchod mwynau sydd o bwys cenedlaethol (e.e. glo, tywod, graean) a'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar y tirwedd ac ar safleoedd o ddiddordeb ecolegol. Mae'r Cynllun yn ystyried yr effaith y gallai cynigion i gloddio mwynau ei chael ar amwynderau'r bobl leol, a'u heffaith ar warchod yr amgylchedd mewn ffordd fydd yn hwyluso datblygu twristiaeth yn yr ardal yn y dyfodol.

- 1.56 Mae'r Cyngor yn ystyried yr ardaloedd gwledig, sy'n cynrychioli bron 80% o dir y Fwrdeistref Sirol, fel ased positif a all gryfhau strategaethau adfywio a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd twristiaeth fydd yn creu ansawdd bywyd gwell, yn cynnwys gwella iechyd a lles pobl. Mae'r Cynllun yn arbennig o frwd dros ddatblygu cyfleoedd lle gall y Fwrdeistref Sirol gyfrannu at Barc Rhanbarthol y Cymoedd - rhwydwaith o

ardaloedd hamdden gwledig gyda llwybrau troed a seiclo yn eu cysylltu.

Trosolwg

Mae Strategaeth Ddatblygu'r Cynllun yn rhannu'r Fwrdeistref Sirol yn dair ardal ar gyfer datblygiad a defnydd tir, ac yn rhoi fframwaith a chyd-destun i'r polisiâu manylach sydd yn Adrannau B ac C. Mae polisiâu'r Strategaeth yn cyflawni nodau ac amcanion ehangach y strategaeth ac mae'r polisiâu mwy manwl sydd yn Adran B (Polisiâu sy'n weithredol ar hyd a lled y Sir) ac sy'n creu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac Adran C (polisiâu sy'n Benodol i Ardal) yn atodiad iddynt.

Polisiau Strategaeth

Strategaeth Datblygu - Datblygiadau yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd

SP1 Bydd angen i gynigion yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd:

- A Hybu Bwrdeistref Sirol fel ardal dwristiaeth, cyflogaeth a phreswyl wrth galon rhanbarth ddinesig y cymoedd a
- B Darparu ffyrdd addas o dwf yn ymateb i swyddogaethau anheddau a
- C Mynd i'r afael â phroblemau amddifadedd cyfredol er mwyn cynnal a datblygu cymunedau mewn ffordd sy'n cyd-fynd ac egwyddorion gwaelodol datblygu cynaliadwy

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1, 2, 3 a 5)

1.57 Mae Strategaeth Ddatblygu Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd datblygu addas sydd yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol, ardal sy'n fwy difreintiedig na'r gweddill, gyda'r bwriad i greu dyfodol hyfyw i bob cymuned yn yr ardal hon. Bydd y Strategaeth yn ceisio sicrhau y bydd modd cael tai newydd mewn pentrefi lle mae angen mwy o amrywiaeth o dai er mwyn cadw'r boblogaeth bresennol ac adfywio cymunedau. Yn ogystal â datblygiadau tai yn yr ardal hon, bydd cyfleoedd cyflogaeth newydd a gwell yn sgil twristiaeth, yn ogystal â chyfleusterau cymunedol newydd a gwelliannau i'r system drafnidiaeth gyhoeddus a'r rhwydwaith heolydd.

Strategaeth Ddatblygu - Datblygiadau yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol

SP2 Bydd cynigion datblygu yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol yn hybu datblygu cynaliadwy sy'n:

- A Canolbwyntio datblygiadau sylweddol ar safleoedd tir llwyd a thir glas sy'n ystyried swyddogaethau cymdeithasol ac economaidd
- B Lleihau'r nifer o siwrneiau mewn ceir drwy hybu dulliau mwy cynaliadwy o deithio
- C Defnyddio'r seilwaith presennol yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl
- D Gwarchod yr amgylchedd naturiol rhag datblygiadau amhriodol
- E Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd sy'n dod yn sgil Llwyfandir Oakdale / Penyfan

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1, 3, 4, 5 ac 8)

1.58 Mae'r Strategaeth yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd datblygu ym Mhrif Drefi Y Coed Duon ac Ystrad Mynach, ynghyd â Chanolfannau Lleol Trecelyn a Ffos-y-Gerddinen, a'r cyfleoedd economaidd a ddaw o lwyfandir Oakdale / Penyfan, drwy ddarparu ar gyfer nifer o wahanol ffyrdd o ddefnyddio tir, mewn ffordd sy'n adlewyrchu swyddogaethau anheddau er mwyn gwella ansawdd bywyd y trigolion. Bydd datblygiadau yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol yn targedu



anheddau sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da i annog teithio cynaliadwy.

1.59 Defnyddir safleoedd tir llwyd yn hytrach na thir glas lle bynnag y mae hynny'n bosibl, yn ddibynnol ar faterion sy'n gwarchod yr amgylchedd a chymunedau. Bydd cynigion i adfer tir sydd wedi ei lygru a'i ddefnyddio mewn ffordd fuddiol yn cael eu hystyried yn ffafriol.

Strategaeth Ddatblygu - Datblygiadau yn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol

SP3 Bydd cynigion datblygu yn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol yn hybu datblygu cynaliadwy sy'n:

- A Defnyddio tir sydd eisoes wedi ei ddatblygu o fewn ffiniau anheddau
- B Lleihau'r nifer o siwrneiau mewn ceir drwy hybu dulliau mwy cynaliadwy o deithio
- C Defnyddio'r seilwaith presennol yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl
- D Yn talu sylw i swyddogaethau cymdeithasol ac economaidd yr ardal a
- E Gwarchod yr amgylchedd naturiol rhag datblygiadau amhriodol

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1, 3, 4, 5 ac 8)

1.60 Yr ardal fwyaf deniadol i ddarparu fuddsoddwyr ar hyn o bryd yw'r Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol, Tref Caerffili yn enwedig, ond mae strategaeth sy'n dibynnu'n llwyr ar dde'r Fwrdeistref Sirol i hybu'r economi yn anghynaliadwy yn yr hir dymor. Mae'r Strategaeth, felly, yn ceisio defnyddio'r seilwaith presennol mewn ffordd mor effeithlon â phosibl i ailddatblygu tir sydd eisoes wedi ei ddatblygu (tir llwyd) lle bynnag y bo hynny'n realistig, cyn belled ag y bod meini prawf amgylcheddol a chymunedol eraill yn cael eu cyflawni a bod swyddogaethau'r cymunedau o fewn yr ardal strategaeth yn cael eu hystyried.

1.61 Mae agwedd gytbwys tuag at reoli twf y dyfodol a sicrhau patrymau annedd effeithlon sy'n lleihau'r angen i deithio yn waelodol i'r holl Strategaeth.

Strategaeth Ymgartrefu

SP4 Bydd y Cyngor yn estyn cymorth i anheddau presennol, ac yn eu gwella, ar sail eu swyddogaethau:

Prif Drefi:

- o Bargod (AABC)
- o Y Coed Duon (TCG)
- o Ystrad Mynach (TCG)
- o Caerffili (TCD)
- o Rhisga / Pontymister (TCD)

Canolfannau Lleol:

- o Rhymni (AABC)
- o Ffos-y-Gerddinen (TCG)
- o Trecelyn (TCG)
- o Bedwas (TCD)

Anheddau Preswyl:

- o Pob pentref arall o fewn ffiniau cydnabyddedig anheddau

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1 a 3)

1.62 Mae swyddogaethau'r gwahanol gymunedau yn waelodol i Strategaeth y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Strategaeth yn nodi pum Prif Dref a phedair Canolfan Leol, yn seiliedig ar eu swyddogaethau fel cyflogwyr pwysig, canolfannau manwerthu, darparwyr gwasanaeth a chanolfannau poblogaeth. Dangosir y rhain yn y Diagram Allweddol. Mae'r Cynllun am wella'r ardaloedd hyn yn seiliedig ar eu swyddogaethau cyfredol er mwyn ymateb yn addas i anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr anheddau unigol.

1.63 Mae'r Strategaeth hefyd yn ceisio gwella ardaloedd preswyl presennol, sydd â siopau lleol a/neu unedau yn darparu anghenion penodol, ac sydd o fewn ffiniau anheddau.

Ffiniau Anheddau

- SP5 Mae'r Cynllun yn diffinio ffiniau anheddau er mwyn:
- A Diffinio'r ardal y bydd datblygiadau fel arfer yn cael eu caniatáu o'i mewn, gan ystyried ystyriaethau caniatâd cynllunio
 - B Hybu defnydd llawn ac effeithiol o dir trefol ac felly ganolbwyntio datblygiadau o fewn anheddau
 - C Atal anheddau rhag ymdoddi i'w gilydd, a rhwystro datblygiadau rhuban ac ysbeidiol
 - D Rhwystro datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd gwledig
- (Prif gydrannau a gyflawnir: 1, 3, 5 ac 8)

1.64 Un o'r ffyrdd pwysicaf o sicrhau anheddau sy'n defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon a nodi lle y bydd twf yn cael ei ganiatáu yw diffinio ffiniau anheddau. Dadansoddiad o swyddogaethau'r ardaloedd strategol sy'n pennu'r ffiniau hyn yn y Fwrdeistref Sirol - sef Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, Y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol a'r Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol. Ystyrir hefyd swyddogaethau'r anheddau unigol.

Creu Lleoedd

- SP6 Dylai cynigion datblygu cyfrannu at greu llefydd cynaliadwy drwy dalu sylw llawn i gyd-destun yr amgylchedd lleol, naturiol, hanesyddol ac adeiledig a'i nodweddion arbennig drwy:
- A Cyfuniad addas o ddefnydd sy'n adlewyrchu swyddogaethau'r

anheddau

- B Cynllunio o safon uchel, sy'n atgyfnerthu nodweddion deniadol lleol
 - C Cynllunio yn unol ag arfer gorau o ddileu troseddu drwy gynllunio
 - D Lleoliad a chynllun sy'n adlewyrchu egwyddorion hygrychedd a thrafnidiaeth gynaliadwy ac sy'n galluogi pawb i'w defnyddio'n hawdd ac yn ddiogel
 - E Ymgorffori egwyddorion effeithlonrwydd ynni ac ynni'r haul drwy'r cynllun, deunyddiau, technegau adeiladu, arbed dŵr, a phan fo'n briodol, systemau draenio cynaliadwy
 - F Defnyddio tir mewn ffordd effeithlon, yn cynnwys mwy o ddwyyster pan fo'r datblygiad gerllaw canolfannau trafnidiaeth pwysig
 - G Ymgorffori a gwella nodweddion presennol o'r amgylchedd naturiol presennol
 - H Ymgorffori mesurau sy'n gwella a chynnal ansawdd yr awyr
- (Prif gydrannau a gyflawnir: 1, 3, 5 ac 8)

1.65 Mae'n nod gan y CDLI i sicrhau y bydd llefydd cynaliadwy yn cael eu creu, sy'n gymdeithasol gydlynol, yn gwella ansawdd bywyd, yn diwallu anghenion trigolion y



presennol a'r dyfodol ac yn adlewyrchu swyddogaethau'r anheddau. Bydd hybu cynllunio da, trafnidiaeth gynaliadwy, defnyddio adnoddau yn effeithlon a gwella'r amgylchfyd naturiol yn cyfrannu tuag at ddatblygiadau sy'n hybu ymdeimlad o le a hunaniaeth, tra hefyd yn adlewyrchu natur unigryw gwahanol ardaloedd.

Goblygiadau Cynllunio

- SP7 Bydd y Cyngor yn mynd ati i sicrhau Dyletswyddau Cynllunio (Cytundebau S106) pan fônt yn angenrheidiol i ddileu rhwystrau i ddatblygiadau, yn diwallu anghenion lleol ac yn creu datblygiad mwy cynaliadwy. Bydd y cyfrifoldebau hyn yn cynnwys:
- A Seilwaith ar gyfer cerdded, seiclo, trafnidiaeth gyhoeddus, parcio
 - B Ysgolion a chyfleusterau atodol
 - C Cyfleusterau Cymunedol
 - D Gwelliannau strategol i'r ffyrdd yn y Tramwyfeydd Cysylltiadau Gogleddol a Deheuol
 - E Mesurau gwarchod rhag llifogydd i fynd i'r afael â pheryglon llifogydd
 - F Tir agored a hamdden ffurfiol ac anffurfiol
 - G Tai fforddiadwy a
 - H Chyfleusterau a gwasanaethau eraill yr ystyrir hwynt yn angenrheidiol
- (Prif gydrannau a gyflawnir: 1, 3, 6 a 7)

1.66 Gall datblygiadau newydd gynyddu'r pwysau ar seilwaith cymunedau a chyfleusterau fel rhwydweithiau trafnidiaeth, ysgolion, cyfleusterau addysg gydol oes, tiroedd agored a chyfleusterau eraill. Mae'n rhaid darparu seilwaith a gwasanaethau cyn cael caniatâd cynllunio, gan ei fod yn hollbwysig i gynnaladwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y Fwrdeistref Sirol. Pan fo'n addas, bydd y Cyngor yn gosod cyfrifoldebau cynllunio gan y datblygwr. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, bydd y Cyngor yn trafod

y cyfrifoldebau hyn, yng nghyd-destun cynllunio'r datblygiad sy'n cael ei gynnig, wedi eu pennu'n deg a rhesymol yn ôl maint y datblygiad sy'n cael ei gynnig, ac yn rhesymol ymhob agwedd arall.

1.67 Pan fo tir wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen, bydd y Cyngor - wrth drafod lefel cyfrifoldebau'r datblygwr - yn ystyried y costau fydd ynghlwm ag ailddatblygu'r safle. Pan fo datblygwr yn ystyried y bydd lefel y cyfrifoldebau yn debygol o effeithio at ddichonolrwydd y datblygiad, bydd ar y Cyngor angen i'r datblygwr gefnogi'r farn honno fel rhan o'r drafodaeth ar ganiatâd cynllunio.

Gwarchod Mwynau

- SP8 Bydd y Cyngor yn cyfrannu at anghenion y rhanbarth am gyflenwad cyson o fwynau drwy:
- A Warchod adnoddau glo, tywod, graean a chraig galed sy'n wybyddus
 - B Cadw banc tir digonol o agregau a ganiateir am o leiaf ddeng mlynedd yn unol â chyfarwyddyd cenedlaethol
- (Prif gydrannau a gyflawnir: 3, 5 ac 8)

1.68 Bydd y Strategaeth yn sicrhau cydbwysedd rhwng gwarchod mwynau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol (e.e. Glo, Tywod, Graean) a'r effaith bosibl y gall datblygiadau ei chael ar y tirwedd ac ar safleoedd sydd o ddiddordeb ecolegol. Mae'r argymhell y dylid gwarchod y safleoedd mwynau sydd wedi ei nodi ar y Map Cynigion rhag cael datblygiadau arnynt a fyddai'n effeithio ar eu defnydd yn y dyfodol.

Rheoli Gwastraff

SP9 Bydd y Cyngor yn gweithredu agwedd gynaliadwy ac integredig tuag at reoli gwastraff, yn arwain at gynhyrchu llai o wastraff a'i effaith ar yr amgylchedd, ac yn defnyddio gymaint o wastraff â phosibl fel adnodd. I gynorthwyo gyda hyn, gwneir yr ymrwymïadau hyn i ddefnydd tir:

- o Mae pob safle diwydiannol sydd wedi ei ddynodi fel safle B2 yn cael ei ystyried fel safle sy'n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff. Mae hyn yn rhoi dewis mawr i'r ymgais i ddiwallu'r angen ar gyfer tir o'r fath, hyd at 10.4 ha
- o Mae'r mapiau Ardal Ymchwilio saf nodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn cael eu hystyried fel llinyn mesur addas ar gyfer y cam cyntaf i ddatblygwyr sy'n chwilio am gyfleusterau tu fewn neu yn yr awyr agored.

(Prif gydrannau a gyflawnir: 3 a 5)

- 1.69 Yn unol â'r Strategaeth Gwastraff Genedlaethol a'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (CGRh), bydd y Cyngor yn hybu lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu deunyddiau er mwyn lleihau'r angen i ddefnyddio tir ar gyfer cyfleusterau gwastraff.
- 1.70 Mae datblygiadau technegol a deddfwriaeth, polisiâu ac arferion newydd yn golygu bod llawer o gyfleusterau rheoli gwastraff/adfer adnoddau yn ddigon tebyg ar y tu allan i unrhyw adeilad diwydiannol arall. Y tu fewn, mae ynddynt brosesau

datwneuthgynhyrchïol a chreu ynni sydd yr un peth yn union â llawer o brosesau diwydiannol eraill yn nhermau eu heffaith. Drwy ddynodi tir sydd wedi ei warchod fel tir diwydiannol dosbarth B2 yn dir sy'n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff, bydd llawer iawn o ddewis, o'i gymharu â'r 10.4 hectar y mae'r Rhaglen Gwastraff Rhanbarthol yn ei nodi y bydd eu hangen ar gyfer cyfleusterau o'r fath.

- 1.71 Mae'r CGRh yn cynnwys mapiau Ardaloedd Ymchwil i'w defnyddio wrth chwilio am safleoedd addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff/adfer adnoddau dan do ac awyr agored. Anogir datblygwyr i ddefnyddio'r argymhellion i gael hyd i safleoedd newydd posibl. Bydd unrhyw ardal a nodir ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff mewn cynnig datblygu yn cael ystyriaeth yn ei iawn ryw ac yn unol â darpariaethau'r Cynllun.

Gwarchod yr Etifeddïaeth Naturiol

SP10 Bydd y Cyngor yn, cadw, gwella a rheoli amgylchfyd naturiol y Fwrdeistref Sirol wrth ystyried pob cynnig datblygu o fewn yr amgylchfyd gwledig ac adeiledig

(Prif gydrannau a gyflawnir: 3 ac 8)

- 1.72 Mae'r term Amgylchfyd Naturiol yn golygu daeareg, geomorffoleg, tirwedd ac amwynderau'r Fwrdeistref Sirol. Mae'n cynnwys y berthynas rhwng y ffurfdir a'r tirwedd, cynefinoedd a bywyd gwyllt ar amgylchfyd naturiol ac adeiledig. Mae hefyd yn cynnwys nodweddion naturiol fel coed, coetiroedd, perthi ac afonydd. Nid yw'r amgylchfyd naturiol wedi ei gyfyngu i ardaloedd gwledig ac mae'r un mor berthnasol i'r ardaloedd trefol. Mae'r amgylchfyd naturiol yn ased gwerthfawr sy'n cyfoethogi bywydau pobl ac yn hybu adferiad ardaloedd.
- 1.73 Ystyrir bron 80% o Fwrdeistref Sirol Caerffili yn wledig, h.y. mae y tu allan i ffiniau diffiniedig anheddau. Tra bo newidiadau yn annatod a thra bod angen creu cyfleoedd

i'r Fwrdeistref Sirol dyfu a datblygu, mae parchu nodweddion unigryw amgylchfyd naturiol y Fwrdeistref Sirol o'r pwys mwyaf wrth warchod, cadw a rheoli elfennau gwerthfawr yr amgylchfyd naturiol ac adeiledig.

Hamdden mewn Ardaloedd Gwledig

SP11 Hybir ac anogir cyfleoedd i fwynhau'r Fwrdeistref Sirol, pan fo'r cynigion yn gynaliadwy yn nhermau eu heffaith ar yr amgylchfyd naturiol, y gymuned leol a'r amgylchedd gwledig y maen nhw ynddynt

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1 ac 8)

- 1.74 Mae gan Y Fwrdeistref Sirol botensial mawr i ddatblygu hamdden, twristiaeth ar sail ei hadnoddau, ei hamgylchfyd naturiol a'i hetifeddïaeth. Bydd hyn er budd pobl leol ac ymwelwyr a thwristiaid yn yr ardal a'i chyffiniau. Mae ardaloedd gwledig y Fwrdeistref Sirol a'i hamwynderau, megis afonydd, mynyddoedd, parciau gwledig, llwybrau seiclo a cherdded, tiroedd comin ac adeiladau rhestredig oll yn cyfrannu tuag at y cyfleoedd lu i fwynhau'r Fwrdeistref Sirol.
- 1.75 Bydd y cyfleoedd hyn i gyd, ac eraill, yn cael eu hannog a'u croesawu fel rhan o ddatblygiad cyson y Fwrdeistref Sirol. Mae angen, fodd bynnag, gadw egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn cof a dylid ystyried pob cynnig ar gyfer hamdden yn yr ardaloedd gwledig yn unol â'r egwyddorion hyn. Mae'r angen i gadw a gwella nodweddion sy'n bwysig yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn rhywbeth y dylid ei gofio wrth lunio cynnig, a dylid cynnig mesurau i osgoi newid neu wneud iawn am unrhyw newid pan fo angen.

Datblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd

SP12 Caniateir datblygiadau sy'n cyfrannu tuag at barc Rhanbarthol y Cymoedd os gellir dangos nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol neu dirweddol.

(Prif gydrannau a gyflawnir: 2 a 3)

- 1.76 Mae datblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn gyfle pwysig i ddenu twristiaid a datblygwyr i'r Fwrdeistref Sirol, yn enwedig o fewn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, yn cynnwys datblygiad sensitif ar barciau gwledig.
- 1.77 Bydd cynigion sy'n cyfrannu at ddatblygiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd, fel atyniadau ymwelwyr, atyniadau gweledol neu gyfleoedd am waith, yn cael eu hystyried yn ffafriol ond mae'n bwysig nad yw cynigion yn cael effaith negyddol ar ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol sydd eisoes yn bodoli.

Canolfan Hamdden o fewn i Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd

SP13 Bydd y Cyngor yn cefnogi datblygu canolfan hamdden o fewn i Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd

(Prif gydrannau a gyflawnir: 2 a 7)

- 1.78 Bydd y Cyngor yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu canolfan hamdden newydd yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd. Mae hyn yn cael ei gydnabod fel cyfle i wella seilwaith hamdden strategol y Fwrdeistref Sirol yn fawr drwy gymryd lle hen gyfleusterau hamdden.

SP14 Mae'r Cyngor wedi cymryd y bydd angen datblygu hyd at 10,269 o dai newydd yn y Fwrdeistref Sirol rhwng 2006 a 2021 er mwyn diwallu'r angen am 8625 o gartrefi ar gyfer y strategaeth twf cymedrol. Mae hyn yn golygu y bydd 19% yn weddill, yn caniatáu hyblygrwydd a dewis

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1, 2, 3, 4, 5 ac 8)

1.79 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn sicrhau y bydd digon o dir preswyl ar gael i ddiwallu anghenion cymunedau'r dyfodol ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy. Ar sail y safleoedd a ddynodir ar gyfer tai ym **Mholisi HG1**, ynghyd â thai eraill fydd wedi eu cwblhau, unedau sy'n cael eu hadeiladau a chan ganiatáu ar gyfer safleoedd annisgwyl, safleoedd bychain, newid defnydd, dymchwel a throi adeiladau gwag i fod yn rhai defnyddiol eto, mae'r Cynllun yn darparu 10,269 o dai. Mae hyn yn cynrychioli 1,644 (19%) o unedau preswyl yn fwy na'r 8,625 uned fyddai eu hangen i ddiwallu'r anghenion tai a nodir yn y strategaeth twf cymedrol. Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd a dewis. Mae'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r ddarpariaeth tir ar gyfer tai ym Mhapur Cefndir Poblogaeth a Thai.

1.80 Bydd cyfleoedd ar gyfer datblygiadau preswyl yn cael eu dosbarthu ar hyd y fwrdeistref Sirol i gyd, yn unol â rôl a swyddogaeth yr anheddau unigol. Bydd datblygiadau tai yn cael eu targedu'n arbennig ar gyfer anheddau sydd â chysylltiadau trên a bws da, a hefyd bentrefi glofaol gynt sydd ag angen tai ychwanegol

i'r hybu a'u cynnal fel ardaloedd preswyl hyfyw. Yn ogystal, bydd datblygu ardaloedd tir llwyd yn cael eu hannog, yn hytrach na thir glas, pan fo hynny'n briodol.

Targed Tai Fforddiadwy

SP15 Mae'r Cyngor yn bwriadu sicrhau, drwy'r system gynllunio, o leiaf 964 o dai fforddiadwy rhwng 2006 a 2021 er mwyn cyfrannu tuag at gymunedau cytbwys a chynaliadwy

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1 a 3)

1.81 Mae gan y Cyngor y nod o sicrhau bod pawb yn y Fwrdeistref Sirol yn gallu cael gafael ar gartref o ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion tai. Mae sicrhau dewis o dai sy'n fforddiadwy i'r boblogaeth leol yn hollbwysig yn hyn o beth. Mae prinder tai fforddiadwy yn fater pwysig sy'n wynebu trigolion y Fwrdeistref Sirol. Yn wir, mae'r Asesiad Marchnad Tai Lleol (2007) yn dangos bod prinder o 516 o unedau fforddiadwy bob blwyddyn.

1.82 Mae'r targed o 964 o leiaf o gartrefi fforddiadwy yn adlewyrchu'r nifer o unedau y credir y gellir eu darparu ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol drwy ddefnyddio cyfrifoldebau cynllunio ar safleoedd cymwys fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod y Cynllun a thrwy gynigion eithriadau tai fforddiadwy. Mae'r targed o 964 o leiaf o gartrefi fforddiadwy drwy'r system gynllunio yn rhan o gyfanswm ehangach o 3664 o dai fforddiadwy y credir y gellir eu darparu drwy ddulliau eraill fel ymateb i anghenion.

Rheoli Twf Cyflogaeth

SP16 Mae'r Cyngor yn tybio y bydd 101.9 hectar o dir yn cael ei ddatblygu ar gyfer cyflogaeth rhwng 2006 a 2021. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddatblygu amrywiaeth o safleoedd, yn cynnwys y canlynol:

- A Parciau Busnes
- B Prif Ystadau Diwydiannol
- C Ystadau Diwydiannol llai

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1, 2, 3 a 4)

1.83 Er mwyn darparu digon o gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer trigolion y Fwrdeistref Sirol, mae 101.9 hectar o dir wedi ei ddynodi ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd. Mae hyn mewn amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth ar hyd a lled y fwrdeistref Sirol, gyda llwyfandir Oakdale/Penyfan yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol yn gyfle mawr i symbylu twf economaidd drwy'r Fwrdeistref Sirol gyfan.

1.84 Mae hyblygrwydd o fewn y polisi hwn, wrth i economi'r Fwrdeistref Sirol raddol droi o fod yn un a ddominyddwyd gan weithgynhyrchu a diwydiannau trwm i fod yn un o fewn y sector gwasanaethau yn bennaf tra hefyd yn annog ailddatblygu tiroedd llwyd ar gyfer cyflogaeth.

Hybu Datblygiadau Masnachol

SP17 Mae'r Cyngor wedi darparu ar gyfer datblygu 29.4 hectar o dir ar gyfer safleoedd masnachol, ac wedi nodi pum prif ganol tref, dwy ardal manwerthu mawr, tair ardal o gyfleoedd masnachol a dau barc warws manwerthu, er mwyn hybu'r sector masnachol yn nhermau'r ddarpariaeth ac yn nhermau cyflogaeth:

- A Safleoedd Datblygu Masnach
- B Prif Ffiniau Canol y Prif Drefi
- C Prif Ardaloedd Manwerthu
- D Ardaloedd Cyfle Masnachol
- E Parciau Warws Manwerthu

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1, 2 a 3)

1.85 Er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn sector gwasanaethau masnachol a chynyddu'r cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer trigolion y Fwrdeistref Sirol, mae amrywiaeth o safleoedd datblygu masnachol wedi cael eu

nodi lle bônt yn addas yn y pum prif Canol Tref a'r pedair Canolfan Leol. Mae ffiniau canol tref wedi eu dynodi ar gyfer y bum Prif Dref a Phrif Ardal Manwerthu wedi eu nodi ar gyfer Y Coed Duon a Chaerffili. Efallai y bydd Prif Ardaloedd Manwerthu hefyd yn cael eu lleoli ym Margoed a Chaerffili yn y dyfodol, ond mae hyn yn dibynnu ar gynlluniau ailddatblygu masnachol yn digwydd.

1.86 Yn ogystal, mae Ardal Cyfle Masnachol wedi ei nodi ar gyfer pob un o'r prif drefi Bargod, Y Coed Duon a Chaerffili lle mae'n bosibl y daw budd arbennig o ddatblygu swyddfeydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fydd cynigion eraill o fewn canol y trefi yn cael eu hystyried. Mae Parciau Warws Manwerthu wedi cael eu nodi ar gyfer Y Coed Duon a Chaerffili a'r bwriad yw y bydd yn yr ardaloedd hyn yn cael eu datblygu cyn ardaloedd sydd ar gyrion lleoliadau, oherwydd y dalgylchoedd. Mae gan y polisïau hyn y nod o sicrhau cyfle mawr arall i sbarduno twf economaidd pellach yn y fwrdeistref Sirol.

Gwarchod y Rhwydwaith Hamdden Strategol

SP18 Bydd y Cyngor yn gwarchod rhwydweithiau mannau agored pwysig, yn ogystal â mannau gwyrdd a chyfleusterau hamdden, rhag datblygiadau amhriodol

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1 ac 8)

1.87 Mae gallu defnyddio mannau agored, mannau gwyrdd naturiol a chyfleusterau hamdden yn bwysig i hybu iechyd a lles y cyhoedd, a gwella ansawdd bywyd trigolion lleol ac ymwelwyr. Bydd y Cyngor felly yn ceisio amddiffyn y defnydd hwn ar dir, er sicrhau na fydd datblygiadau mwy proffidiol, fel tai er enghraifft, yn eu trafylncu. Maent yn rhan ganolog o strategaeth y Cyngor i ddarparu mynediad hawdd iawn i gyfleusterau hamdden ac ardaloedd gwledig i wella iechyd y boblogaeth breswyl.

Gwella'r Seilwaith Trafnidiaeth

- SP19 Mae gan y Cyngor fwriad i wella'r seilwaith trafndiaeth presennol, gwelliannau fydd:
- A Yn mynd i'r afael ac eithrio, drwy wella mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau drwy'r Fwrdeistref Sirol a/neu
 - B Helpu adfywiad yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, drwy greu a gwella cysylltiadau trafndiaeth i'r anheddau yn y Tramwyfeydd Cysylltiadau Gogleddol a Deheuol, a/ neu
 - C Atgyfnerthu swyddogaethau'r anheddau a/neu
 - D Lleihau trafndiaeth a/neu dagfeydd, o fewn ardal rheoli ansawdd aer, a/ neu
 - E Hybu'r defnydd mwyaf effeithlon ar y rhwydwaith trafndiaeth

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1, 2 a 3)

1.88 Wrth gydnabod bod problemau tagfeydd mawr yn y fwrdeistref Sirol, efallai y cymer flynyddoedd lawer i wella'r system drafndiaeth yn sylweddol. Mae'r rhwydwaith heolydd yn chwarae rhan bwysig iawn i wella hygyrchedd cyfleoedd gwaith, i ganolfannau siopa a chyfleusterau cymunedol ac eraill. Bydd gwelliannau i'r seilwaith trafndiaeth yn ymdrechu i annog mwy o ddefnydd ar drafndiaeth gyhoeddus, seiclo a cherdded fel dewis arall i'r car. Rhaid i'r Strategaeth barhau i ddarparu system drafndiaeth effeithiol i'r patrwm anheddau presennol, wrth symud tuag at batrwm anheddau mwy cynaliadwy, sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol.

1.89 Bydd y strategaeth yn adeiladu ar y gwelliannau sylweddol i'r rhwydwaith trafndiaeth strategol dros y degawd diwethaf a bydd yn hyrwyddo gwelliannau pellach i sicrhau bod y rhwydwaith cyfan yn gweithio mewn modd effeithlon, gan ystyried rôl a swyddogaeth anheddau a'r cysylltiadau rhyngddynt.

Hierarchaeth Heolydd

- SP20 Diffinnir hierarchaeth heolydd fel hyn:
- A Rwydwaith Priffyrdd Strategol
 - B Lwybrau Sirol
 - C Llwybrau Dosbarthu
 - D Heolydd Mynediad
- (Prif gydrannau a gyflawnir: 3)
- 1.90 Bydd sefydlu hierarchaeth heolydd yn ei gwneud hi'n haws defnyddio'r rhwydwaith heolydd mewn ffordd fwy effeithlon drwy sicrhau bod trafndiaeth yn cael ei sianelu i'r llwybrau mwyaf addas, yn briodol ar gyfer yr amgylchedd, amwynderau a diogelwch. Mae'r heolydd a nodir ar bob lefel o'r hierarchaeth yn cael eu disgrifio yn **Atodiad 16**.

Safonau Parcio

SP21 Er mwyn gweithredu'r Safonau Parcio a gynhwysir yn Safonau Parcio CSS Cymru 2008, bydd y Cyngor yn nodi'r Parthau Parcio canlynol:

- A Canol Trefi
- B Ardaloedd Trefol
- C Ardaloedd Maestrefol
- D Ardaloedd Gwledig
- E Ardaloedd Gwledig iawn

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1)

1.91 Mae Safonau Parcio 2008 y CSS yn disgrifio'r anghenion parcio ar gyfer pob cynnig i ddatblygu yn y Fwrdeistref Sirol. Yn wahanol i'r safonau a weithredwyd gynt gan y Cyngor, mae'r safonau newydd yn deilio o ystyriaeth ar yr union dir y cynigir datblygu'r tir, nid ystyriaeth o'r defnydd yn unig. O'r herwydd, mae angen ystyried y parth parcio cyn gallu ystyried yr anghenion parcio. Mae'r Parthau Parcio wedi eu pennu yn unol â'r mathau a maint y parthau a ddisgrifir yng Nghanllawiau Parcio'r CSS.

Adnoddau Cymunedol, Hamdden ac Addysg

SP22 Mae'r Cyngor wedi neilltuo a gwarchod tir sy'n addas at ddatblygu cyfleusterau cymuned, hamdden ac addysg, er mwyn sicrhau y gellir creu rhwydwaith o ddarpariaethau mewn lleoliadau hygyrch ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol a chyfrannu tuag at iechyd, gofal cymdeithasol a lles y trigolion dros gyfnod y Cynllun

(Prif gydrannau a gyflawnir: 1, 2, 5 a 7)

1.92 Mae darparu amrediad o gyfleusterau cymunedol sy'n hygyrch i gynifer â phosibl o bobl yn hollbwysig i greu cymunedau cynaliadwy. Mae cyfleusterau o'r fath yn werthfawr ynddynt eu hunain, ac o ran y cyfleoedd gwaith y maen nhw'n eu cynnig ac yn nhermau'r rôl y gallant ei chwarae wrth ddenu pobl i fyw yn yr ardal. Mae nifer o bethau yn cystadlu am yr hawl i ddatblygu tir yn y Fwrdeistref Sirol, ond mae'r Cyngor yn ymrwymedig tuag at ddatblygu rhwydwaith strategol o gyfleusterau cymunedol i ddiwallu anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a lles y trigolion dros gyfnod y Cynllun.

1.93 Rhaid bod yn ofalus nad yw safleoedd yn cael eu datblygu gan gynigion mwy proffidiol, megis tai. Mae angen i'r Cyngor a sefydliadau partner, fel y Bwrdd Iechyd Lleol, warchod tir dros gyfnod y Cynllun ar gyfer pethau fel meddygfeydd, canolfannau ieuencid, cyfleusterau chwarae awyr agored ac yn y blaen.



Adran B:

Polisiau Sy'n Berthnasol i'r Sir Gyfan

- 2.1 Mae paragraff 2.13 Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru yn dweud: *“Dylai'r CDLI gynnwys set glir a chryno o bolisiau sy'n berthnasol i'r sir gyfan, sy'n egluro'r meini prawf cyffredinol y bydd cynigion i ddatblygu a defnyddio tir yn cael eu mesur yn eu herbyn. Bydd polisiau o'r fath yn sicrhau bod datblygiadau yn digwydd yn unol â gweledigaeth ac amcanion y strategaeth.”*
- 2.2 Mae'r Bennod hon yn amlinellu'r polisiau fydd yn cael eu gweithredu ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Polisiau Sirol hyn gyda'i gilydd yn ffurfio'r Fframwaith Rheoli Datblygiad. Maent yn cyfyngu mwy nag yw'r Polisiau Strategol yn Adran A a'r polisiau sy'n benodol i ardal yn Adran C. Mae'r adran hon yn sail i'r canllawiau y bydd gofyn i ddatblygwyr eu dilyn ac felly yn caniatáu i'r Strategaeth gael ei chwblhau.

Llywodraeth Cynulliad Cymru - Cyfarwyddyd Cynllunio Cenedlaethol

- 2.3 Nid yw'r polisiau yn yr adran hon wedi eu drafftio yn ôl defnydd tir. Maent wedi eu drafftio i adlewyrchu materion strategol cyffredinol, mewn fformat sydd wedi ei seilio ar bolisi. Mae hyn wedi golygu nad yw pethau yn cael eu hailddweud mewn ffordd

sydd wedi bod yn wir mewn dogfennau polisi blaenorol. Hefyd, nid yw'r polisiau yn yr adran hon, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, yn ailddweud polisi cenedlaethol. O'r herwydd, mae polisiau cyfarwydd o gynlluniau datblygu blaenorol wedi eu hepgor. Mae'n bwysig, felly, hefyd i dalu sylw llawn i Polisi Cynllunio Cymru (PCC), Datganiadau Polisi Interim y Gweinidog (DPIG) a gyhoeddwyd ers hynny a'r Nodiadau Cyfarwyddyd Technegol (NCT) sydd wedi eu seilio ar bynciau/materion penodol.

- 2.4 Pan fo'r polisiau sirol canlynol yn cynnwys materion sydd hefyd yn dod o dan gyfarwyddyd cenedlaethol maent wedi cynnwys anghenion lleol penodol. Nid yw'r cyfiawnhad dros y polisiau chwaith yn rhoi'r cefndir cyfan i'r polisi. Cynhwysir y wybodaeth hon yn y papurau cefndir pwnc sy'n cyd-fynd â'r CDLI. Mae'r polisiau hyn yn cyd-fynd â'r cyfarwyddyd a geir yng Nghanllaw WAG ar gyfer Polisiau Sirol.
- 2.5 Yn gyffredinol, mae'r polisiau yn berthnasol i bob cynnig datblygiad. O fewn rhai polisiau, fodd bynnag, mae hefyd rheolau ac anghenion sydd ond yn berthnasol i amgylchiadau penodol. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r polisi wedi ei ddrafftio i'w gwneud hi'n hollol glir pryd yn union y mae'n berthnasol. Dylid nodi, oherwydd ffurf y Polisiau Sirol, y bydd meini prawf unrhyw gynnig yn debygol o gael cynnwys ar draws nifer o bolisiau. O ganlyniad, dylid ystyried Polisiau Sirol pob cynnig datblygu pob tro.

Polisiau Cynllunio

Trafnidiaeth Gynaliadwy, Hygyrchedd a Chynhwysiant Cymdeithasol

- CW1 Bydd cynigion datblygu sydd yn debygol o gynyddu'n sylweddol y nifer o siwrneiau ddim ond yn cael eu caniatáu pan fo:
- A Cerdded a seiclo o fewn y datblygiad, i'r datblygiad ac oddi yno ac i wasanaethau a chyfleusterau cyfagos wedi eu hannog, yn cynnwys canolfannau trafndiaeth gyhoeddus, drwy ddarparu'r seilwaith priodol
 - B Datblygwr wedi darparu ar gyfer seiclo'n hawdd, yn cynnwys cyfleusterau i seiclwyr, yn cynnwys y gallu i storio beiciau yn ddiogel
 - C Datblygwr wedi dangos y bydd y dulliau lleiaf niweidiol i'r amgylchedd yn cael eu defnyddio pan fo llawer o siwrneiau nwyddau yn digwydd
 - D Defnydd ar Gynlluniau Teithio Gwyrdd wedi cael eu hannog, pan yn addas
- 2.6 Mae gan gynigion datblygu'r potensial i greu nifer sylweddol o siwrneiau, boed yn rhai tarddiad (e.e. o gartref, cario nwyddau diwydiannol ac ati), neu yn rhai cylchol (e.e. i'r gwaith, siopa, hamddena ac ati). Fel rhan o'u cynllun a ffurf, dylai datblygwyr ofalu eu bod yn creu cyn lleied o siwrneiau car â phosibl. Pan fo nifer sylweddol o siwrneiau cludo nwyddau yn cael eu creu, fel gyda chloddio mwynau neu adfer tir, rhaid defnyddio'r llwybrau sydd leiaf niweidiol i'r amgylchedd. At ddibenion y polisi hwn, gallai'r term "cyfleusterau i seiclwyr"

gynnwys ardaloedd newid a chawodydd. Mae'r term "sylweddol" yn cael ei ddiffinio yn ôl canllawiau'r Asesiadau Effaith Trafnidiaeth, Sefydliad Priffyrdd a Thrawsgludo. Mae canllawiau at hyn hefyd yn Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyfarwydd Technegol 18.

- 2.7 Mae mynd i'r afael ac eithrio cymdeithasol yn rhan anhepgor o'r ymdrech i adfywio ardaloedd difreintiedig y Fwrdeistref Sirol. Mae galluogi trigolion i gael gwasanaethau a chyfleusterau yn hawdd yn un o'r prif ffactorau wrth newid yr ardaloedd hyn. Bydd canran sylweddol o'r gwelliannau yn digwydd mewn ffyrdd nad oes a wnelont nhw ddim â defnydd tir. Ond gellir gwneud gwasanaethau a chyfleusterau yn fwy hygyrch drwy gynllun a dyluniad. Mae'r polisi hwn am wireddu'r potensial hwn gymaint â phosibl.
- 2.8 Mae Cynlluniau Teithio Gwyrdd yn un dull o symud tuag at dtrafnidiaeth fwy cynaliadwy. Rhagwelir y bydd datblygwyr yn cael eu hannog i ymuno â chynlluniau o'r fath, yn enwedig yn nhermau datblygu safleoedd gwaith sydd ar hyn o bryd yn anodd eu cyrraedd drwy unrhyw ddull teithio heblaw'r car.

Amwynderau

- CW2 Rhaid i bob cynnig datblygu ystyried pob agwedd ar ganiatâd cynllunio a diwallu'r anghenion canlynol
- A Dim effaith amhriodol ar eiddo neu dir cyfagos
 - B Dim gord datblygu'r safle a/neu'r ardaloedd o'i gwmpas

- C Y defnydd sy'n cael ei gynnig yn cyd-fynd â'r ffordd y defnyddir tir cyfagos. Nid yw'r datblygiad i gyfyngu ar ddefnydd priodol ar dir cyfagos
- D Pan fo'n berthnasol, ni fydd potensial tir cyfagos yn cael ei niweidio yn sgil ei effaith bosibl ar yr amwynder neu'r datblygiad preswyl a gynnigir.

2.9 Mae gan gynigion datblygu'r potensial i greu niwsans diangen sy'n effeithio'n negyddol ar amwynderau tiroedd cyfagos. Mae hyn yn dod yn bennaf, ond nid yn unig, o ddefnydd preswyl. O ganlyniad bydd y polisi yn berthnasol i bob math o ddatblygiad ymhob lleoliad. Mae'r polisi yn mynd i'r afael â dau fater, effeithiau negyddol ar ddefnydd tir cyfagos a hefyd p'un ai fydd datblygiad safle preswyl yn niweidio defnydd tir cyfagos a hynny'n ei dro yn cael effaith negyddol ar amwynderau'r trigolion newydd.

Ystyriaethau Cynllunio - Prifffyrdd

CW3 Rhaid i gynigion datblygu ddiwallu'r anghenion prifffyrdd canlynol:

- A Mae'r cynnig yn ystyried defnydd diogel, effeithiol ac effeithlon ar y rhwydwaith trafnidiaeth
- B Mae'r cynnig yn sicrhau bod heolydd mynediad o fewn cynigion wedi eu cynllunio i safon sy'n:
 - i Hybu anghenion cerddwyr, seiclwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus cyn rhai ceir preifat, ac yn
 - ii Darparu ar gyfer maint a natur y drafnidiaeth y bwriedir yr heolydd hyn ar ei chyfer

- C Mae'r datblygwr wedi darparu mannau parcio, gwasanaethu a gweithredol yn unol â Safonau Parcio CSS Cymru 2008
- D Pan fo angen mynediad i brif ffordd, mae'r cynnig yn ystyried y cyfyngiadau sy'n berthnasol i'r dosbarth y mae'r heol ynddo yn yr hierarchaeth ffyrdd, ac yn sicrhau bod symudiadau a chyflymder yn cael eu rheoli drwy gynllunio priodol, er mwyn sicrhau diogelwch a gwarchod amwynderau

2.10 Mae'r anghenion manwl sy'n berthnasol i ddarpariaethau meini prawf D yn cael eu rhestru yn **Atodiad 16** - Hierarchaeth Heolydd a Chyfyngiadau Symud.

Gwarchod Etifeddiaeth Naturiol

CW4 Bydd cynigion datblygu sy'n effeithio ar nodweddion amgylchfyd naturiol lleol ddim yn cael eu caniatáu pan fônt yn:

- A Cadw, a lle bo'n addas, wella nodweddion unigryw Ardal Tirwedd Arbennig neu Dirwedd Leol o Bwysigrwydd Gweledol.
- B O fewn i, neu yn agos ar, safleoedd sydd wedi eu nodi yn Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, Gwarchodfeydd Natur Lleol,



Safleoedd Daearegol O Bwysigrwydd Rhanbarthol, Tramwyfeydd Gwyrdd, neu Gynefinoedd Blaenoriaeth Lleol a Rhywogaethau, a phan fo cynigion naill ai:

- i Yn cadw, a lle bo'n addas, wella pwysigrwydd ecolegol neu ddaearegol y safle a ddynodwyd, neu
- ii Pan fo'r angen am y datblygiad yn fwy na phwysigrwydd ecolegol y safle, a phan fod mesurau yn cael eu cymryd i leihau'r niwed a gwneud iawn amdano gymaint â phosibl i sicrhau nad effeithir yn negyddol ar werth yr ardal neu'n nodwedd.

2.11 Mae amgylchfyd naturiol y Fwrdeistref Sirol yn un amrywiol iawn. Mae ynddi ardaloedd bioamrywiol sydd wedi eu gwarchod yn lleol ac ar lefel Ewropeaidd, ac mae nodweddion o'r dirwedd leol hefyd wedi ei gwarchod. Mae'n bwysig gwarchod y rhain rhag datblygu amhriodol. Mae prawf polisi ar gyfer pob cynnig a fyddai, neu a fyddai'n debygol o, effeithio'n negyddol ar nodweddion bioamrywiol, daearegol neu dirwedd a chymeriad y Fwrdeistref Sirol. Bydd lefel y niwed posibl yn cael ei asesu, gan ystyried mesurau sydd yn eu lle i wneud iawn am y niwed posibl.

2.12 Mae mwynau yn y tir yn y rhan fwyaf o'r Fwrdeistref Sirol, ac mae'n fwriad gan y Cyngor i gydbwysu'r angen i gadw nodweddion yr amgylchfyd naturiol a'r angen i warchod adnoddau mwynol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae profion polisi cenedlaethol ar gyfer cynigion i gloddio mwynau, . Fe'u disgrifir yn Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, 2000, Nodyn Cyfarwyddyd Technegol Mwynau 1 (Agregau), a Nodyn Cyfarwyddyd Technegol Mwynau 2 (Glo). Bydd angen ystyried effeithiau cynigion o'r fath hefyd mewn perthynas â nodweddion yr amgylchfyd naturiol a nodir o fewn y Cynllun.

Gwarchod yr Amgylchedd Ddŵr

CW5 Caniateir cynigion datblygu dim ond pan na fônt yn:

- A Effeithio'n negyddol ac annerbyniol ar yr amgylchfyd dŵr, a
- B Lle na fyddant yn peryglu ansawdd dŵr sy'n cael ei reoli (yn cynnwys dŵr dan ddaear ac uwch ben y ddaear)

2.13 Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru rôl rheoleiddio mewn perthynas ag ansawdd dŵr, ond mae gan y system gynllunio hefyd rôl bwysig yn cyfyngu ar effaith negyddol datblygiadau.

2.14 Mae newid hinsawdd, twf yn y boblogaeth a newidiadau mewn ffordd o fyw oll wedi cael effaith ar ddŵr a'r pwysau sydd ar yr amgylchfyd dŵr. Bydd newid hinsawdd yn effeithio ar faint o law sy'n disgyn, bydd yn effeithio ar lif afonydd, adnewyddu dŵr dan ddaear, ansawdd y dŵr sydd ar gael ac ar lifogydd, llifogydd sydyn lleol yn enwedig. Bydd yr angen am ddŵr, a'r pwysau ar adnoddau dŵr, hefyd yn newid, graddau'r newid yn amrywio mewn gwahanol rannau o Gymru. Bydd yr ymateb i hyn hefyd yn amrywio o ardal i ardal. Wrth warchod yr amgylchfyd dŵr, bydd angen ystyried ansawdd a maint y cyflenwad dŵr lleol, a sut y bydd hyn yn effeithio ar yr amgylchedd ehangach o ran atal mwy o ddirywiad mewn ecosystemau dŵr, cynefinoedd mewn dŵr, pysgodfeydd, defnydd cynaliadwy ar ddŵr a rheoli tynnu dŵr. Mae hyn yn arbennig o bwysig i unrhyw gynigion sy'n debygol o effeithio ar afonydd Rhymni, Ebwy a Sirhywi.

Gwarchod Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd

CW6 Bydd cynigion datblygu ar safleoedd sydd â choed, coetiroedd a pherthi arnynt, neu sy'n cael eu ffinio gan goed neu berthi, ddim ond yn cael eu caniatáu pan:

2.15 Mae coed, coetiroedd a pherthi yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at yr amgylchfyd naturiol ac adeiledig. Maen nhw'n cynyddu gwerth, cymeriad ac amrywiaeth y tirwedd, yn darparu cynefinoedd ar gyfer bioamrywiaeth a buddion amgylcheddol fel llyncu sŵn a gwella ansawdd yr awyr. Gall fod rhan sylweddol o safle datblygu fod dan goed ac o herwydd eu maint posibl gallant gael effaith fawr ar gynllunio a defnydd safle. Mae arolygon coed a choetiroedd yn gwerthuso coed a pherthi, asesu effeithiau datblygu ac yn cynnig ffyrdd o wneud iawn am unrhyw niwed posibl. Mae asesiadau manwl, yn cynnwys arolygon topograffig, arolygu/ dosbarthu coed, cynlluniau cyfyngiadau coed ac asesiad o oblygiadau ar goed a choetiroedd, yn darparu gwybodaeth bwysig am ansawdd a nifer y coed sydd ar safle a nodi dulliau i wneud iawn am niwed gan ddatblygiad, yn cynnwys dulliau o'u gwarchod gymaint, yn goed a gwreiddiau, wrth adeiladu.

- A Fydd arolygon coed a choetiroedd, pan fo'u hangen, yn cael eu cyflwyno a'u derbyn, yn cynnwys mesurau i wneud iawn am unrhyw niwed posibl.
- B Bydd systemau gwreiddiau yn cael eu cadw a'u gwarchod yn ddigonol drwy gydol cyfnod y datblygu.
- C Fo datblygwyr wedi ymdrechu'n deg i gadw, gwarchod ac integreiddio coed, coetiroedd neu berthi ar y safle.
- D Fo coed, coetiroedd neu berthi newydd yn cael eu plannu, pan fo hynny'n briodol, os yw'r hen rai wedi eu symud oddi yno.

- 2.16 Dylid rhoi mesurau effeithiol ar waith i warchod coed, coetiroedd a pherthi sydd wedi eu nodi fel rhai sy'n werth eu cadw drwy'r broses arolygu coed a choetiroedd. Bydd y nodweddion hyn, o'u cynnwys yn briodol a sensitif, yn gwella ansawdd y datblygiad a'i amwynderau, yn gwarchod bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol a sicrhau bod cyn lleied o goed a choetiroedd â phosibl yn cael eu colli.
- 2.17 Pan fo colli coed, coetiroedd a pherthi o ansawdd yn annatod, dylid sicrhau bod y golled yn cael ei lleihau drwy osod coed newydd yn lle'r hen rai. Bydd hyn yn sicrhau y bydd yr amwynder, yn ei gyfanrwydd, yn cadw ei werth tirweddol ac ecolegol ac y bydd y datblygiad yn driw i'w leoliad.
- 2.18 Manylir ar yr anghenion ynghylch coed a choetiroedd yn Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol - Canllaw i Ymgorffori Coed mewn Cynigion Datblygu Tir.

Gwarchod Mannau Agored

- CW7 Caniateir datblygu ar ardaloedd o fannau agored dim ond pan:
- A Fydd y man agored sydd ar ôl yn y gymdogaeth yn ddigonol i ddiwallu anghenion lleol
 - B Nad oes gan y safle werth hamdden arwyddocaol werth fel ardal o bwysigrwydd gweledol.

Gwarchod Adnoddau Cymunedol a Hamdden

- CW8 Ni fydd cynigion a fyddai'n arwain ar golli cyfleuster cymunedol a/neu hamdden yn cael eu cymeradwyo, oni bae:
- A Bod cyfleuster tebyg yn cael ei ddarparu gan y datblygwr ar y safle neu y tu allan iddo, ac o fewn cyrraedd hawdd ar droed neu feic, neu
 - B Y gellir profi nad oes angen pellach am y cyfleuster.

Gwarchod Cyfleusterau Masnachol Ardaloedd Gwledig

- CW9 Ni fydd cynigion a fyddai'n arwain at golli siop neu dafarn mewn pentrefi diffiniedig yn cael eu caniatáu oni bae:
- A Bod anghenion y gymuned leol yn cael eu diwallu gan gyfleuster arall tebyg sydd eisoes yn bodoli ac o fewn cyrraedd hawdd ar droed neu feic; neu
 - B Bod tystiolaeth nad yw'r defnydd a wneir o'r cyfleuster ar hyn o bryd yn talu ffordd, ac nad oes disgwyl iddo wneud hynny yn y dyfodol; ac
 - C Y gall y datblygwr brofi bod yr eiddo, os nad yw'n weithredol, wedi bod yn wag dros flwyddyn a bod yr eiddo wedi cael ei farchnata fel eiddo ar les neu ar werth dros gyfnod cyffelyb, ac am rent neu bris rhesymol.
- 2.19 Maen nhw hefyd yn aml yn darparu'r prif elfennau sydd eu hangen i greu anheddau mwy cynaliadwy, drwy ddarparu cyfleusterau sy'n hawdd eu cyrraedd ar droed neu feic. O'r herwydd, mae'r polisi hwn am gadw cyfleusterau o'r fath. Mae'r polisi, felly, yn berthnasol i bob cynnig sy'n arwain at, neu a allai arwain at, golli cyfleuster.
- 2.20 Mae angen sicrhau bod siopau a thafarndai pentref, sydd o gymaint budd i'r boblogaeth leol ac yn helpu creu cymunedau gwledig cynaliadwy, yn cael eu gwarchod mewn ffordd briodol. Bwriad y polisi hwn newid defnydd busnesau fel y rhain, pan nad ydyn nhw'n talu ffordd, gan wneud iddynt wneud arian neu eu gwerthu i weithredydd newydd, ac felly osgoi eu colli o gymunedau gwledig. Dyma'r ardaloedd a nodir fel rhai y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt: Argoed, Deri, Y Draethen, Fochriw, Groeswen, Hafodyrynys, Llwyn Celyn, Markham, Princetown, Rhydri, Trinant, a Wyllie.

Darpariaethau Hamdden a Mannau Agored

- CW10 Bydd pob safle tai newydd a all gynnal 10 neu fwy o gartrefi neu sydd dros 0.3ha o faint gros angen darparu'n ddigonol ar gyfer:
- A Man agored defnyddiadwy wedi ei gynllunio'n dda fel rhan ganolog o'r datblygiad; a
 - B Cyfleusterau chwarae priodol i blant naill ai ar y safle neu y tu allan iddo a
 - C Darpariaeth chwaraeon awyr agored digonol ar y safle neu oddi arno, l ddiwallu anghenion trigolion y datblygiad sy'n cael ei gynnig.
- 2.21 Dylai cynllun a ffurf datblygiad preswyl newydd gynnwys man agored digonol fel rhan ganolog o'r datblygiad. Dylid sicrhau bod amwynderau agored yn cael eu hymgorffori i ffurf y safle a'u cynllunio mewn ffordd sy'n manteisio i'r eithaf ar dopograffeg y safle, creu golygfeydd agored ac osgoi creu ardaloedd o dir annefnyddadwy. Pan fo digon o dir agored gerllaw'r safle, bydd angen i ddatblygwyr ystyried sut i fanteisio ar yr adnawdd hwn ac felly ddarparu cysylltiadau cyhoeddus hwylus gyda'r ardaloedd hyn drwy lwybrau troed neu seiclo.
- 2.22 Mae'r tir sydd ei angen ar gyfer chwaraeon awyr agored a chwarae plant yn seiliedig ar safon y Sefydliad Caeau Chwarae Cenedlaethol, sy'n argymhell 2.43 hectar i bob mil o'r boblogaeth leol. Bydd angen cytuno ar union anghenion pob safle gyda'r Cyngor gan ei bod hi'n bosibl y bydd ffactorau lleol yn galw am newid y safonau, pan fo darpariaeth dda eisoes yn bodoli yn lleol er enghraifft. Mae'r papur cefndir hamdden yn cynnwys gwybodaeth am y math o ddarpariaeth y gellir ei disgwyl ar safleoedd tai dynodedig.
- 2.23 Pan fydd angen, bydd y Cyngor yn cynnwys cyfrifoldebau cynllunio o dan Adran 106 o'r

Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990) er mwyn sicrhau bod cyfleusterau fel hyn yn cael eu darparu.

Goblygiadau Cynllunio Tai Fforddiadwy

CW11 Bydd angen cytundebau cyfreithiol i sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu darparu, yn cyd-fynd ag anghenion lleol, i bob safle tai dynodedig neu newydd ac annisgwyl sy'n:

- A Cynnwys 5 neu fwy o gartrefi neu
- B Sy'n fwy na 0.15ha o arwynebedd gros, neu
- C Y byddai cyfanswm y tai neu'r arwynebedd mewn safleoedd tai cyfagos yn fwy na'r hyn a nodir yn A neu B uchod

Pan fo tystiolaeth bod angen, bydd y Cyngor yn defnyddio'r targedau canlynol fel sail ar gyfer trafod y nifer o dai fforddiadwy:

- o 40% o'r cyfanswm o gartrefi a gynigir o fewn Basn Caerffili (heb gynnwys Cwm Aber)
- o 25% yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol (heb gynnwys Trecelyn) a
- o 10% yng ngweddill Bwrdeistref Sirol Caerffili (yn cynnwys Cwm Aber a Threcelyn)

2.24 Mae angen sylweddol am dai fforddiadwy yn y Fwrdeistref Sirol ac mae cyfiawnhad felly dros chwilio am lefelau priodol o dai fforddiadwy fel ffordd o gyfrannu tuag at gymunedau cymysg, cytbwys a chynaliadwy drwy ddarparu tai ar gyfer pob sector o'r boblogaeth.

2.25 Ffigurau enghreifftiol yw'r targedau hyn, gan y bydd anghenion ar gyfer pob safle yn ddibynnol, yn ystod y cyfnod cynllunio, ar y farchnad dai gyfredol, ac yn ystyried canfyddiadau'r Asesiadau Marchnad Dai Lleol mwyaf diweddar, Asesiadau Dichonoldeb diweddar a gwybodaeth gan Adran Dai'r Cyngor. Mae'r targedau yn tybio na fydd grantiau na chymorthdaliadau cyhoeddus yn cael eu defnyddio. Os bydd arian grant ar gael, efallai y bydd y Cyngor yn gofyn am fwy o dai fforddiadwy. Gyda safleoedd y mae'r Cyngor wedi eu hasesu ac wedi penderfynu eu bod mewn ardaloedd sydd â galw mawr am dai fforddiadwy ac sydd yn arbennig o addas, oherwydd eu lleoliad neu ystyriaethau eraill, bydd y Cyngor yn gofyn am hyd at 100% i fod yn dai fforddiadwy, yn amodol ar bob ystyriaeth berthnasol ynghylch dichonolrwydd darpariaeth o'r fath.


2.26 Mae mwy o wybodaeth am anghenion tai fforddiadwy yn nogfen y Cyngor, Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ynghylch Tai Fforddiadwy.

Safleoedd wedi'u heithrio o Dai Fforddiadwy

CW12 Caniateir safleoedd bychain o dai fforddiadwy mewn neu'r drws nesaf i anheddau gwledig ar dir na fyddai fel arfer yn cael ei ryddhau ar gyfer tai pan:

- A Fo'r safle ar gyfer tai fforddiadwy yn unig a phan fo trefniadau addas yn eu lle i sicrhau y bydd y tai yn fforddiadwy ac ar gael yn y lle cyntaf ac ar ôl hynny i bobl sydd ag angen tai
- B Bydd galw go iawn am dai fforddiadwy yn y pentref neu annedd
- C Gellir profi na all yr angen am dai fforddiadwy gael ei ddiwallu o fewn yr annedd neu o fewn annedd gyfagos
- D Fo'r safle o faint priodol ac yn cyd-fynd â natur a chymeriad yr annedd

Targedau tai Fforddiadwy yn Benodol i Ardal



- 2.27 Mae safleoedd eithriadol yn ddull posibl o ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig. Rhaid i ddatblygiadau o'r fath fod yn driw i anheddau gwledig ac ar safleoedd lle mae'r datblygu yn cael ei reoli'n llym a lle na fyddai tai newydd fel arfer yn cael eu caniatáu. Rhaid i Safleoedd Eithriadol fod o faint sy'n briodol i'r annedd, er mwyn sicrhau bod cymunedau yn gytbwys. Fel arfer ni fydd ynddynt le ar gyfer mwy na 5 o dai.
- 2.28 Bydd caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar amod neu ddyletswydd cynllunio fydd yn sicrhau y bydd tai fforddiadwy ar gael am byth i ddiwallu anghenion lleol. Dim ond pan fydd tystiolaeth o angen lleol y bydd rhyddhau safleoedd eithriadol yn addas, a hynny pan na ellir diwallu'r angen o fewn yr annedd neu yn yr annedd nesaf ati. Yng nghyswllt y polisi hwn, ystyr 'angen lleol' yw person neu dylwyth sy'n byw o fewn a/neu gysylltiad teuluol a'r annedd neu'r annedd nesaf ati, ac sydd angen tŷ fforddiadwy.
- 2.29 Yr 'anheddau gwledig' sy'n rhan o'r polisi hwn yw Princetown, Llechryd, Argoed, Markham, Llwyn Celyn, Deri, Fochriw, Hafodyrynys, Trinant, Machen, Rhydri, y Draethen, Wyllie, Cwmfelinfach, Ynysddu a Wattsville.
- 2.30 Bydd angen i gynigion am safleoedd eithriadol gwrdd â phob maen prawf arall, yn cynnwys **Polisiâu CW2** ac **CW3**.

Cyfngiadau Dosbarth Defnydd - Busnes a Diwydiant

CW13 Bydd y cyfngiadau canlynol yn cael eu gosod ar gynigion i ddatblygu ar ystadau diwydiannol:

A Mewn safleoedd sydd wedi eu dynodi yn Barciau Busnes, caniateir datblygu dim ond pan fo:

- i o fewn dosbarth defnydd B1
- ii i ddarparu cyfleuster ategol neu wasanaeth i'r prif ddefnydd gwaith

B Mewn safleoedd sydd wedi eu dynodi yn Brif Safleoedd, caniateir datblygu dim ond pan fo:

- i o fewn dosbarthiadau defnydd B1, B2 neu B8
- ii defnydd sui generis priodol
- iii i ddarparu cyfleuster ategol neu wasanaeth i'r prif ddefnydd gwaith

C Mewn safleoedd sydd wedi eu dynodi yn Safleoedd Eilradd, caniateir datblygu dim ond pan fo:

- i o fewn dosbarthiadau defnydd B1, B2 neu B8
- ii defnydd sui generis priodol
- iii i ddarparu cyfleuster ategol neu wasanaeth i'r prif ddefnydd gwaith
- iv gwasanaeth masnachol derbyniol heb fod yn nosbarth defnydd B

2.31 Mae'r rhan fwyaf o fusnesau sydd ar ystadau diwydiannol y Fwrdeistref Sirol o fewn Dosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8 Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1987 (fel y'i diwygiwyd). Mae enghreifftiau, fodd bynnag, o ddefnydd Sui Generis ar nifer o safleoedd. Mewn egwyddor, ystyrir pob safle diwydiannol sydd wedi ei ddynodi neu ei warchod ar gyfer defnydd Dosbarth B2 yn addas ar gyfer lleoli cyfleusterau rheoli gwastraff dan do. Cyfeirir at hyn hefyd ym **Mholisi SP9**, ac mae'r ddau bolisi yn diwallu anghenion y Strategaeth Gwastraff Genedlaethol a'r Cynllun

Gwastraff Rhanbarthol. Byddai enghreifftiau derbyniol o ddefnydd Sui Generis yn cynnwys cyflenwyr defnyddiau adeiladu, iard contractwr symud llwythi, depos cerbydau a swyddfeydd rheoli tacsis. Mae enghreifftiau o wasanaethau masnachol nad ydynt yn Nosbarth B yn cynnwys iechyd dan do, cyfleusterau ffitrwydd a chwarae, cyfleusterau hyfforddi, meithrinfeydd, a busnesau trwsio a chynnal a chadw cerbydau.

Cyfngiadau Dosbarth Defnydd - Manwerthu

CW14 Bydd cynigion datblygu sy'n cynnwys newid defnydd o ddosbarth lleoliad manwerthu A1 i ddefnydd arall yn wynebu'r cyfngiadau canlynol:

A Yn y Prif Ganol Trefi, caniateir newid defnydd llawr daear lleoliad manwerthu A1 dim ond pan fo:

- i dros 10% o unedau masnachol y ganolfan wedi bod yn wag am flwyddyn neu fwy a
- ii os mai i uned breswyl y mae'r defnydd yn newid rhaid bod y lleoliad ar gyrion y ganolfan

B O fewn y Prif Ardaloedd Manwerthu sydd wedi eu nodi, ni chaniateir newid llawr daear lleoliadau man werthu A1 i ddefnydd preswyl

C O fewn Prif Ardaloedd Manwerthu, caniateir cynigion i newid defnydd lloiau daear lleoliadau manwerthu A1, neu i greu rhai newydd, i ddefnydd dosbarth A arall ddim ond pan na fydd y cyfanswm o unedau o'r fath yn fwy na 10% o'r cyfanswm unedau masnachol yn y Brif Ardal Manwerthu

2.32 Mae angen gwarchod ambell ddefnydd, megis cyflogaeth a manwerthu, er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn hyfyw a bywiog. Mae gwarchod hyn, felly, yn bwysig yn yr ardaloedd hyn. Mae eu gwarchod hefyd o fudd i'r ymdrech i sicrhau bod anghenion y Fwrdeistref Sirol yn cael eu

diwallu. Mae'r polisi hwn felly yn berthnasol i ddatblygiadau newydd, sy'n sefydlu defnydd newydd, a chynigion newid defnydd. Mae "cyrion" yr ardal fanwerthu yn golygu'r fan neu'n agos at y fan, lle mae wynebau blaen yr unedau manwerthu yn cwrdd ag ardal lle mae blaenau unedau preswyl yn dod i'r amlwg, fel sy'n digwydd yn aml mewn canolfannau siopa llinynnol sy'n cynnwys rhesi o dai teras.

Cyfngiadau Cyffredinol ar y Lleoliad

CW15 Bydd cynigion datblygu yn cael eu hystyried yn erbyn y meini prawf canlynol, pan fônt yn gymwys:

A Ni fydd cynigion datblygu yn cael eu caniatáu os ydynt yn peryglu datblygiad ehangach a mwy cynhwysfawr neu'n cyfyngu ar ddatblygu tir cyfagos at eu defnydd priodol yn ôl y CDLI

B O fewn ffiniau anheddau rhaid i bob math o gynnig gyd-fynd a swyddogaeth yr annedd y mae'r safle a gynigir ynddi, a'r

C Tu allan i ffiniau annedd ni chaniateir cynigion oni bai fod y datblygiad a gynigir yn:

- i Gysylltiedig ag amaeth, coedwigaeth neu gloddio a gweithio mwynau, neu
- ii Adnewyddu, adfer neu ailgodi adeiladau neu gartrefi gwledig, neu
- iii Yn gynigion hamdden neu dwristiaeth sy'n addas ar gyfer y lleoliad gwledig, neu
- iv Yn gysylltiedig â darparu cyfleustodau cyhoeddus, seilwaith a chyfleusterau rheoli gwastraff na ellir yn rhesymol eu lleoli yn unlle arall neu
- v Yn gysylltiedig ag adfer/trin tir sydd wedi ei lygru neu wedi adfeilio

2.33 Mae datblygiadau sy'n gysylltiedig â mwynau yn unigryw, gan mai dim ond yn yr ardal lle ceir y mwynau y gellir eu lleoli. Mae mwynau sylweddol yn y Fwrdeistref Sirol, yn cynnwys glo yn agos i'r wyneb, calchfaen,

tywodfaen a thywod a graean. Nodir hwy i gyd yn y Map Cynigion. Hefyd, mae gan rai o adnoddau glo'r Fwrdeistref Sirol fethan gwely glo yn gysylltiedig â nhw o bosibl. Mae trwyddedau hefyd wedi eu cyflwyno mewn dwy ardal i chwilio am olew a nwy ar y tir.

2.34 Bydd unrhyw gynigion i gloddio neu weithio mwynau yn cael eu hystyried yng nghyd-destun cyfarwyddyd cenedlaethol ynghyd â pholisïau sirol a pholisïau ardal benodol sydd yn y CDLI. Bydd cynigion nad oes iddynt faterion lleol penodol ynghlwm â nhw yn cael eu hasesu yn unol ag anghenion polisi cynllunio cenedlaethol.

Cyfyngiadau yn Sgil Lleoliad - Manwerthu

CW16 Y tu allan i'r Prif Ganol Drefi sydd wedi eu dynodi, bydd cynigion ar gyfer siopau manwerthu newydd neu estyniadau ddim ond yn cael eu caniatáu pan:

- A Na fydd bywiogrwydd a ffyniant y Prif Ganol Trefi cyfagos yn cael eu handwyo, gan hefyd ystyried datblygiadau manwerthu eraill, datblygiadau sydd newydd eu cwblhau a Chynlluniau sydd wedi eu derbyn, ac
- B Na fydd y cynnig yn andwyo strategaeth manwerthu'r Cyngor, Cynllun Gweithredu Canol Tref neu unrhyw gynlluniau adfywio y mae'r Cyngor wedi eu derbyn yn ffurfiol, neu
- C Pan fo'r cynnig yn:
 - i Uned fanwerthu newydd sy'n 1000m2 neu'n llai, neu os yw'r ardal y mae ei

- defnydd yn cael ei newid o'r cyfryw faint, ac
- ii Yn diwallu anghenion y gymuned neu'n ategol i ddefnydd masnachol arall

Cyfyngiadau yn Sgil Lleoliad - Warysau Manwerthu

CW17 Bydd cynigion ar gyfer unedau warws newydd, neu newid defnydd i unedau warws, ar safleoedd y tu allan i Barciau Warws Manwerthu ddim ond yn cael eu caniatáu pan nad oes safleoedd neu unedau addas ar gael y tu fewn i'r Parciau hynny neu o fewn y Prif Ganol Trefi.

Cyfyngiadau yn Sgil Lleoliad - Tai ar gyfer Pobl sydd Angen Gofal

CW18 Bydd datblygiadau sy'n cynnwys elfen o ofal, naill ai drwy newid defnydd neu ddatblygiad newydd, yn cael eu caniatáu pan:

- A Leolir nhw o fewn ffiniau diffiniedig anheddau
- B Pan fo teithio i gyfleusterau cyfredol cymunedau, siopau lleol a gwasanaethau yn ddiogel a hawdd

- 2.35 Mae nifer o bobl ag anghenion tai penodol yn sgil anabledau yn byw yn y Fwrdeistref Sirol. Tra gellir diwallu llawer o anghenion arbennig o fewn cartrefi cyfredol, mae'r amrediad o anghenion yn amrywio'n fawr, ac felly mae angen hyblygrwydd yn y ffordd y darperir ar gyfer y rheiny sydd angen gofal.
- 2.36 At ddiben y polisi hwn, mae 'tai ar gyfer pobl sydd ag angen gofal' yn cyfeirio ar gynigion am gartrefi nyrsio, tai gwarchod a gofal, tai gofal ychwanegol neu agos, gofal parhaol, cymunedau ymddeol neu fathau cyffelyb o ddatblygiadau lle mae elfen o ofal ynghlwm wrth y datblygiad. Mae'r polisi yn berthnasol ar gyfer datblygiadau newydd a newid defnydd i dai a gofal drwy gyfrwng adnewyddu adeilad neu adeiladau sydd

eisoes yn bodoli. Gall adnoddau o'r fath ddiwallu anghenion pobl hŷn a/neu bobl ag anabledau.

- 2.37 Mae'n debygol y bydd gan drigolion tai a gofal anghenion symudedd penodol ac mae'n arbennig o bwysig, felly, bod cyfleusterau fel siopau a meddygfeydd yn hygyrch o'r datblygiadau.
- 2.38 Er mwyn sicrhau bod trigolion tai a gofal yn integreiddio â'r gymuned ehangach, dylid lleoli safleoedd o fewn ffiniau dynodedig anheddau. Mae'n bosibl y bydd gosod y datblygiadau hyn ar safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai yn briodol, os yw'r ystyriaethau eraill yn cael eu hateb. Mae'n bwysig, fodd bynnag, nad yw datblygiadau o'r fath yn cyfyngu ar ddatblygu pellach ar y safle.

Cyfyngiadau yn sgil Lleoliad - Datblygiad Gwledig ac Arallgyfeirio

CW19 Bydd cynlluniau Ailddatblygu ac Arallgyfeirio gwledig yn cael eu caniatáu pan:

- A Fônt o faint sy'n addas ac yn cyd-fynd â'u lleoliad gwledig, ac yn cadw a gwella nodweddion o'u hamgylchfyd naturiol
- B Fo adeiladau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu hailddefnyddio pan yn bosibl, yr adeiladau newydd yn cyd-fynd â chymeriad yr adeiladau sydd eisoes yno
- C Y byddant yn ategol, a heb fod yn niweidiol i weithrediad y busnes sydd eisoes yno

2.39 Mae diwydiannau gwledig, yn gyffredinol, wedi bod yn dirywio ers llawer blwyddyn, ac mae hyn wedi arwain at golli nifer o'n ffermydd traddodiadol, arferion gwledig a diwydiannau ac arferion gwledig eraill o fewn y Fwrdeistref Sirol. O ganlyniad, mae llawer o'r diwydiannau gwledig hyn wedi arallgyfeirio i gyfleusterau fel llety i

ymwelwyr, ysgolion marchogaeth, cartrefi cŵn neu ddiwydiannau gwledig bychain fel prosesu pren.

2.40 Gall arallgyfeirio a datblygiadau gwledig gyfrannu at yr economi gwledig, cynnal cymunedau gwledig, rhoi cyfleoedd twristiaeth i'r fwrdeistref a pharhau i warchod y dirwedd a'r cymeriad gwledig. Gall llawer o weithgareddau, gwasanaethau a diwydiannau gael eu lleoli mewn ardaloedd gwledig heb niweidio cymeriad a gwerth cefn gwlad.

2.41 I gadw'n drwm i etifeddiaeth naturiol y fwrdeistref, a'i chymeriad gwledig, mae arallgyfeirio cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli, fel adeiladau fferm, yn hytrach na darparu rhai newydd yn aml yn fwy priodol. Yr hyn yw arallgyfeirio yn ei hanfod yw newid cyfleuster sydd eisoes yn bodoli ond nad yw ei ddefnydd gwreiddiol bellach yn gweddu. Bydd y newid yn ei ddefnydd yn cyfrannu at amgylchedd, economi a phobl leol.

2.42 Bydd angen i bob cynnig datblygu gwledig neu arallgyfeirio profi eu bod yn cyd-fynd â'i leoliad gwledig. Rhaid i faint a natur y datblygiad beidio â chael effaith annerbyniol ar gymeriad gwledig yr ardal, o ran ei gynllun, swm, arogl, gwedd allanol neu oblygiadau traffig. Dylid hefyd ystyried golygfeydd agos a phell. Pan fo angen adeiladau neu gyfleusterau newydd bydd angen profi nad yw'r adeiladau sydd eisoes yno yn addas ar gyfer eu defnyddio. Os oes angen adeiladau newydd mawr neu niferus, ystyrir nad yw'r datblygiad neu'r arall gyfeiriad yn debygol o fod yn briodol i'r lleoliad.

Cyfyngiadau yn sgil Lleoliad - Trawsnewid, Ymestyn a Disodli Adeiladau Gwledig

CW20 Caniateir amnewid, ymestyn neu ailgodi adeilad y tu allan i ffiniau annedd pan fo:

A Y defnydd, maint, ffurf, lleoliad, cynllun a deunyddiau'r cynnig yn addas o fewn y cyd-destun

B Gellir cyfiawnhau amnewid drwy brofi:

- i Nad yw'r adeilad yn un dros dro, a'i fod o wneuthuriad sylweddol a pharhaol, a
- ii Bod yr adeilad yn strwythurol gadarn ac yn barod i'w amnewid neu ei adfer heb newid neu ailgodi rhannau sylweddol ohono
- iii Bod yr adeilad yn gallu cynnal y defnydd ohono a gynigir heb newid ei gymeriad yn hanfodol
- iv Nad yw'r datblygiad yn arwain at droi ardal wledig yn un drefol neu golli cefn gwlad sydd heb ei ddatblygu

C Gellir cyfiawnhau estyniad drwy brofi:

- i Bod maint, ffurf a chynllun yr estyniad yn parchu maint a chymeriad yr adeilad gwreiddiol, fydd yn parhau'n brif elfen yr adeilad;
- ii Nad yw'r estyniad yn arwain at golli cefn gwlad sydd heb ei ddatblygu
- iii Nad yw'r estyniad yn arwain at droi ardal wledig yn un drefol

D Gellir cyfiawnhau amnewid drwy brofi:

- i Nad yw'r adeilad sydd eisoes yno yn strwythurol gadarn ac na all gael ei adfer neu ei newid i ddefnydd arall heb waith adeiladu mawr
- ii Nad yw'r defnydd fu gynt ar yr adeilad wedi cael ei ollwng
- iii Nad yw'n bosibl parhau a'r defnydd hwnnw yn yr adeilad sydd eisoes yno
- iv Fod pob dewis arall i'w aildddefnyddio wedi cael ei ystyried a'i ymchwilio

2.43 Mae defnydd gwreiddiol llawer o adeiladau y tu allan i ffiniau anheddau yn gallu diflannu dros amser, gan achosi i'r adeiladau fynd i gyflwr gwael. Pan yn asesu ceisiadau cynllunio ar gyfer ailddefnyddio neu addasu adeilad, y brif ystyriaeth fydd p'un ai fod natur a maint y defnydd ar yr adeilad a manylion y newidiadau iddo yn dderbyniol o ran eu cynllun.

2.44 Pan yn rhoi caniatâd i ddatblygiad y tu hwnt i ffiniau annedd, bydd angen cydbwysedd gofalus rhwng cadw, gwarchod a gwella'r amgylchfyd drwy gynllunio sensitif o ran maint, ffurf, lleoliad a deunyddiau. Bydd gofyn i'r rhain i gyd fod yn briodol i gyd-destun y datblygiad. Dylid ystyried yn ofalus gymeriad yr adeilad a'i leoliad.

2.45 Dylai cynigion i amnewid adeiladau y tu allan i ffiniau annedd barchu arddulliau adeiladu lleol, Dylai'r deunyddiau gyd-fynd â natur yr adeilad gwreiddiol a'i leoliad. Rhaid i'r adeilad fod yn strwythurol gadarn ac yn bosibl ei amnewid heb waith adeiladu mawr cyn bo cynllun o'r fath yn dderbyniol. Dylai'r adeilad hefyd fod o natur barhaol a sylweddol ac ni ddylai arwain at droi ardal wledig yn drefol ei golwg. Nid ystyrir adeiladau sydd yn adfeilion fel arfer yn addas i'w hamnewid.

2.46 Mae'n bosibl y bydd angen estyniad ar yr adeilad gwreiddiol i alluogi newid defnydd. Pan gynigir estyniad, dylai barchu cymeriad a maint yr adeilad gwreiddiol, a hwnnw ddylai fod yn brif ran yr adeilad o hyd. Bydd cynigion i ymestyn adeiladau sydd eisoes ag estyniad yn cael eu craffu'n ofalus iawn, er mwyn sicrhau na chollir maint na chymeriad yr adeilad gwreiddiol. Dylai cynigion barchu lleoliad a maint yr adeilad a'r hyn sydd o'i gwmpas, yn ffiniol ac yn y cyd-destun ehangach ac ni ddylai arwain at golli tir sydd heb ei ddatblygu.

2.47 Er mwyn sicrhau bod datblygiadau gwledig yn addas mewn ardaloedd gwledig ac osgoi datblygiadau amhriodol, dim ond

pan ellir diwallu gofynion rhan D y caniateir codi adeiladau newydd yn adnewyddu'r hen rai. Bwriad y polisi hwn yw sicrhau nad yw adeiladau sydd yn adfeiliedig yn cael eu rhoi yn nosbarth adeiladau sydd angen eu hailadeiladu; a phan fo adeiladau newydd yn cael eu codi yn lle hen rai, bod y datblygiad yn addas i'r cyd-destun o ran ei ddefnydd a'i gynllun.

Cyfngiadau yn sgil Lleoliad - Safleoedd Carafán Teithwyr a Sipsiwn

CW21 Bydd cynigion ar gyfer safleoedd carafán Teithwyr a Sipsiwn, yn cynnwys ar dir y tu allan i ffiniau diffiniedig anheddau, yn cael eu caniatáu os:

- A Oes cyswllt da rhwng y safle a gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol**
- B Gellir lleoli defnydd preswyl a busnesau o gartref heb niweidio amwynderau a chymeriad yr ardal**
- C Gellir gwasanaethu'r safle gyda chyfleustodau yn cynnwys gwaredu ac adfer gwastraff**

2.48 Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer safleoedd carafán sipsiwn a theithwyr parhaol a symudol. Fel gyda mathau eraill o gartrefi, mae'n bwysig bod gan gymunedau sipsi a theithiol yr un cyfleoedd a'r boblogaeth gyffredinol i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau fel meddygfeydd neu ysgolion. O ganlyniad, y lleoliadau gorau ar gyfer safleoedd yw o fewn neu ar gyrion ardaloedd poblog, er y byddai safleoedd mewn ardaloedd gwledig neu led wledig hefyd yn dderbyniol.

2.49 Mae llawer o sipsiwn a theithwyr yn cynnal busnesau o'r safle lle mae eu carafannau, ac felly dylid caniatáu safleoedd ddim ond pan fônt yn addas ar gyfer defnydd cymysg heb niweidio amwynderau trigolion lleol neu gymeriad yr ardal.

2.50 Rhaid i gynigion ar gyfer safleoedd carafán sipsiwn a theithwyr hefyd gydymffurfio a pholisïau eraill a nodir yn y Cynllun, yn cynnwys agweddau ar gynllun.

Locational Constraints - Minerals

CW22 Bydd cynigion am ddatblygiadau a allai effeithio ar ardaloedd gwarchod mwynau yn cael eu hystyried yn erbyn y meini prawf canlynol, pan fônt yn berthnasol:

A Ni fydd cynigion ar gyfer datblygiadau a defnydd parhaol o fewn ardaloedd gwarchod mwynau diffiniedig yn cael eu caniatáu oni bai:

- i Y gall yr ymgeisydd brofi nad yw'r mwyn bellach o werth neu o werth potensial, neu
- ii Y gellir cloddio'r mwyn cyn i'r datblygiad ddigwydd, neu
- iii Bod yr angen am y datblygiad yn ddiamheuol, neu
- iv Bod y datblygiad yn cynnwys datblygiad mewnlenni o fewn ardal boblog neu'n ddatblygiad gan berchennog tŷ neu'n estyniad i adeiladu sydd eisoes yn bodoli

B Ni fydd cynigion ar gyfer datblygiadau dros dro mewn ardaloedd gwarchod mwynau diffiniedig yn cael eu caniatáu oni bae y gallant gael eu cwblhau a'r safle'n cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol nad yw'n effeithio ar fforio mwynau o fewn y cyfnod y bydd galw tebygol am y mwyn hwnnw.

Cyfngiadau yn sgil Lleoliad - Parthau Clustogi Safleoedd Mwynau

CW23 Ni fydd cynigion datblygu ar gyfer datblygiadau mwynau neu sensitif yn cael eu caniatáu o fewn y parthau clustogi mwynau a nodir ar y map cynigion

2.51 Bwriad parthau clustogi yw lleihau'r gwrthdaro rhwng gweithio mwynau a defnydd sensitif arall ar dir o ganlyniad i lwch a sŵn cloddio a phrosesu mwynau ac o'r dirgryniadau sy'n cael eu hachosi gan flastio. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiadau mwynau o fewn y parth clustogi er mwyn atal y gwaith rhag lledu tuag at diroedd sensitif. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiadau sensitif, er mwyn atal y lledu hwn a hefyd i atal unrhyw niwed ychwanegol i weithio mwynau.


2.52 Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, mae parthau clustogi wedi eu dynodi o gylich safleoedd mwynau gweithredol ac anweithredol, a rhai segur. O ran y rhai gweithredol ac anweithredol, ffurfit y parthau clustogi o gyrion allanol y ffin ganiatâd. Mae maint y parth clustogi yn adlewyrchu yr hyn a wyddys am effeithiau gweithio mwynau ar y safle, ac fe allent fod yn fwy na'r lleiafswm a nodir yng Nghynllun Mwynau Cymru a Nodiadau Cyfarwyddyd Technegol 1 a 2. O ran safleoedd segur, pan nad oes brofiad o effaith cloddio mwynau, bydd y lleiafswm pellter a nodir yn y cyfarwyddyd yn cael eu defnyddio.

2.53 Tra bo gan safleoedd segur ganiatâd o hyd, bydd amodau cyfredol llawn yn berthnasol i'r caniatâd hwnnw, yn unol â chyfarwyddyd cenedlaethol, cyn i unrhyw waith gychwyn ar y safle. Mae cyfarwyddyd cenedlaethol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cael gwybodaeth am y defnydd a wneir o safleoedd segur ac anweithredol yn y dyfodol, er mwyn rhoi sicrwydd i gymunedau lleol y gellir effeithio arnynt gan waith mwynau yn y dyfodol. At y diben hwnnw, bydd y Cyngor yn dal i adolygu'n flynyddol y safleoedd hynny nad ydynt wedi gweld gwaith arwyddocaol yn digwydd arnynt yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, ac yn ystyried strategaethau addas ar gyfer ffyrdd o adfer a defnyddio'r safleoedd hynny. Gallai hyn gynnwys Gorchmynion Addasu, Gohirio, Dirwyn i ben, Dirymu neu Wahardd.

Adran C: Polisiau Ardal Penodol

Ardal Strategaeth 1: Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd (AABC)

Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd (AABC)



- Y CYD-DESTUN IS-RANBARTHOL**
- 3.1 **Bargod** yw'r brif dref yn rhan Bwrdeistref Sirol Caerffili o Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd (AABC). Fel y brif dref, mae Bargod yn darparu ystod o swyddogaethau a gwasanaethau i'r trefedigaethau amgylchynol nad ydynt ar gael unrhyw le arall yn rhan Caerffili o ardal Blaenau'r Cymoedd. Cydnabyddir pwysigrwydd y dref gan y rhaglen Blaenau'r Cymoedd ac o ganlyniad mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei dynodi fel ardal blaenoriaeth adfywio. Rhagwelir y bydd datblygu'r Ffordd Liniaru 'Angel Way' yn gwella hygyrchedd a gwedd y dref a bydd yn gweithredu fel catalydd i ddenu buddsoddiad cyhoeddus a phreifat angenrheidiol i'r dref.
- 3.2 Bydd y pwyslais ym Margoed ar ailstrwythuro ac ailddatblygu canol y dref i sicrhau ei bod yn ganolfan fanwerthu, hamdden a chyflogaeth ac yn addas i'r pwrpas yn y 21ain ganrif. Bydd y Cynllun hefyd yn sicrhau darpariaeth ddigonol i amrywio'r cyflenwad tai sydd ar gael yn yr

- ardal. Bydd ailddatblygu'r dref yn gwella delwedd yr holl AABC ac yn gwella'r ystod o wasanaethau pwysig a'r cyfleusterau hamdden a manwerthu sydd ar gael i rannau gogleddol y Fwrdeistref Sirol.
- 3.3 Mae Bargod a'i maestrefi hefyd yn rhan o gytref y cymoedd canol ac mae gan y dref ran bwysig i'w chwarae yn nhwf a lles y Fwrdeistref Sirol yn gyffredinol. Yn arbennig, efallai bydd cyfle i Fargoed ddatblygu fel canolfan ar gyfer gweithgareddau hamdden ar gyfer rhan fawr o'r Fwrdeistref Sirol os gellir ymgorffori'r diddordeb presennol gan y sector preifat wrth ddatblygu sinema aml-sgrin a chyfleusterau hamdden eraill i gynllun ailddatblygu canol y dref.
- 3.4 Bydd nifer o bolisiau dyraniadau yn cael eu gweithredu gyda'r pwrpas o ddatblygu rôl Bargod gyda Phrif Dref Blaenau'r Cymoedd. Mae **CM4.2** yn dyrannu safle mawr ar gyfer cyfleusterau manwerthu ac adloniant, i'w integreiddio i ganol y dref bresennol. Cynigir llyfrgell ardal newydd a chanolfan 'y cwsmer yn gyntaf' y Cyngor yn **CF1.10**. Bydd y dref hefyd yn ennill rôl fel canolfan ar gyfer cyflogaeth swyddfa trwy weithredu **CM4.3** a **CM5.1**.
- 3.5 **Rhymni** yw'r ganolfan leol ar gyfer yr AABC ac mae ganddi'r potensial i ddarparu porth twristiaeth i'r Fwrdeistref Sirol o ardal Blaenau'r Cymoedd ac ymhellach. Wedi'i lleoli yn ganolog o ran yr AABC mae mewn lle unigryw i helpu i newid y canfyddiad o'r isranbarth trwy wella'r rôl ymwelwyr a thwristiaeth a gynigir gan yr ardal, drwy er enghraifft ddatblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Cynigir Canolfan Adnoddau Gofal Cymdeithasol ar gyfer Rhymni i wasanaethu gogledd y Fwrdeistref. Mae cyfleusterau hamdden cefn gwlad yn yr ardal, sydd, ynghyd a'r llwybrau seiclo strategol a'r llwybrau troed sy'n rhedeg trwy'r ardal, yn cyfrannu at y potensial sylweddol ar gyfer mwynhau'r amgylchedd gwledig a gynigir gan Rymni.
- 3.6 Mae'r ardal hefyd yn cael ei gwasanaethu gan linell Reilffordd Rhymni i Gaerdydd, sydd bellach yn elwa o bedwar trên yr awr rhwng Bargod a Chaerdydd. Fodd bynnag, er mwyn i'r rhwydwaith rheilffordd gynnig dewis arall deniadol i'r car ar gyfer teithio o'r AABC i Gaerdydd, mae angen gwelliannau pellach i ddarparu gwasanaeth bob hanner awr i Rymni.
- 3.7 Fel y nodwyd, mae Rhymni hefyd yn cyfrannu swm sylweddol o dir cyflogaeth ar ystadau diwydiannol presennol. Mae patrwm newidiol y gofynion tir cyflogaeth yn dangos bod y safleoedd hyn yn cynnig y cyfle i ddarparu ar gyfer defnyddiau eraill, tra'n cadw swyddogaeth cyflogaeth, gyda'r potensial i amrywio rôl Rhymni er budd yr ardal gyfan.
- 3.8 Bydd rôl Rhymni fel canolfan leol yn cael ei hwyluso trwy ddyraniadau dan **CF1.2**, a fydd yn galluogi datblygu'r Ganolfan Adnoddau Gofal Cymdeithasol ac lechyd arfaethedig, a **CM4.1**, a fydd yn caniatáu ar gyfer datblygiad manwerthu newydd ar ymyl canol y dref.
- 3.9 Mae mynediad ffordd i Gwm Rhymni Uchaf wedi'i wella gyda datblygiad diweddar y

ffordd newydd yn Nhredegar Newydd. Pan fydd y Ffordd Liniaru Angel Way wedi'i chwblhau yn 2009, bydd mynediad ffordd o'r gogledd i'r de yn cael ei wella yn yr ardal hon hefyd.

3.10 Fodd bynnag, mae angen parhaus i wella'r rhwydwaith ffordd mewn prif leoliadau - yn enwedig adran is-safonol yr A469 rhwng Tredegar Newydd a Phontlotyn - i ddod â'r rhwydwaith i safon sy'n ofynnol i gwrdd ag anghenion yr 21ain Ganrif. Mae **Polisi TR8** yn ceisio ymdrin â hyn, i sicrhau bod yr HOVRA yn gwasanaethu'n effeithiol ac yn enwedig ar gyfer gwireddu potensial a manteision Bargod yn llawn.

3.11 Mae Cwm Rhymni Uchaf yn cynnig y potensial mwyaf o ran cynhyrchu ynni yn y fwrdeistref sirol oherwydd presenoldeb adnoddau glo yn Nant Llesg a photensial ardal Cwm Rhymni Uchaf o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, mae'r ardal hefyd yn brif borth i ben gogleddol y Fwrdeistref Sirol ac yn amlwg o Ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd. Mae'r Cynllun yn ceisio cydbwyso manteision cynlluniau ynni adnewyddadwy a diogelu a datblygiad posibl mwynau yn yr ardal hon yn erbyn yr amcan o ddiogelu'r dirwedd o ddirywio pellach a, lle bo'n bosibl, sicrhau gwella tirwedd. Oherwydd amlygrwydd, bydd angen i unrhyw gynigion ar gyfer datblygu yn gysylltiedig â chynhyrchu ynni yng Nghwm Rhymni Uchaf gydnabod bod angen datblygu mewn modd sy'n dderbyniol i'r amgylchedd. Dylai cynigion datblygu, lle bo'n briodol, sicrhau adfer a gwella tirwedd effeithiol fel rhan allweddol

o'r cynllun. Bydd hefyd angen i'r cynigion fod yn gyson gyda'r strategaeth adfywio ehangach a bydd angen rhagweld rôl hamdden a thwristiaeth gwell ar gyfer y rhan hon o'r ardal Gynllun.

3.12 Bydd datblygiad preswyl yn canolbwyntio ar Fargoed a Rhymni, ynghyd â **Phontlotyn, Tredegar Newydd** ac **Aberbargod**, sydd â mynediad da i'r rhwydwaith rheilffordd. Mae safleoedd tai ar raddfa fechan wedi'u dyrannu ym mhentrefi preswyl **Princetown, Fochriw** ac **Abertyswg**, lle mae angen tai modern i gynnal hyfywdra'r cyn bentrefi glo hyn. Mae **22** o ddyraniadau tai newydd ar draws trefedigaethau llai Uchelfannau wedi'u dylunio i gyflwyno ystod a dewis mathau a daliadaethau tai yn y lleoliadau hyn a byddant yn cryfhau eu rolau fel canolfannau preswyl. Bydd **Polisiau CF1** a **LE3** yn caniatáu datblygu cyfleusterau cymunedol newydd yn yr ardaloedd hyn, gan wella eu dengarwch fel llefydd i fyw ynddynt.

3.13 Mae pentrefi **Argoed, Llwyncelyn** a **Markham** yng Nghwm Sirhywi yn rhai preswyl yn bennaf. Er eu bod wedi'u lleoli yn yr AABC, mae ganddynt gysylltiadau cryf â'r Coed Duon, yn wahanol i drefedigaethau Cwm Rhymni Uchaf. Yng nghyfnod y Cynllun, fodd bynnag, maent yn debygol o ddatblygu cysylltiadau â Bargod hefyd, unwaith y bydd canol y dref wedi'i datblygu. Ni ragwelir newid sylweddol yn yr ardaloedd anghysbell hyn, er gallai'r cefn gwlad amgylchynol, sy'n cynnwys safle Glofa Markham, wneud cyfraniad sylweddol i Barc Rhanbarthol y Cymoedd.

3.14 Cydnabyddir y bydd y trefi a phentrefi mwyaf gogleddol yn y Fwrdeistref Sirol hefyd yn edrych ar Ferthyr Tudful a threfi eraill ar hyd tramwyfa Blaenau'r Cymoedd ar gyfer cyfleoedd swyddi a dinesig. Mae cysylltiadau trafnidiaeth da i Ferthyr Tudful yn arbennig yn bwysig felly.

3.15 O ran Blaenau'r Cymoedd yn gyffredinol, bydd ymarferoldeb y canolfannau a nodwyd a'r pentrefi preswyl yn cael eu cryfhau drwy wella'r cysylltiadau trafnidiaeth rhyngddynt. Cyflawnir hyn drwy weithredu **Polisiau TR1, TR4** a **TR8**.

3.16 Mae cyfraniad posibl yr ardal i Barc Rhanbarthol y Cymoedd (menter a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru) yn enfawr ac yn gofyn am ddyraniadau cadarnhaol, gan gynnwys parciau gwledig (**Polisi LE2**) a llwybrau seiclo (**Polisi TR1**), yn ogystal â dyraniadau a ddyluniwyd i amddiffyn tirwedd dramatig sy'n tanategu presenoldeb y Parciau. Bydd **Polisiau SI1, NH1**, a **NH2** yn gwasanaethu i gyflawni hyn.

Polisiau Ardal Penodol Ar Gyfer AABC

HUNANIAETH ARDAL

Lletemau Glas

SI1 **Caiff Lletemau Glas eu nodi a'u gwarchod yn y lleoliadau canlynol:**

SI1.1 **Llechryd a Rhymni**

SI1.2 **Fochriw a Phontlotyn**

SI1.3 **Rhymni ac Abertyswg**

SI1.4 **Brithdir a Thirphil**

SI1.5 **Argoed a Markham**

3.17 Ystyrir yr angen i ddiffinio a chynnal mannau agored rhwng yr ardaloedd dinesig a threfedigaethau i atal cyfuno mannau yn bwysig i'r Fwrdeistref Sirol i amddiffyn integriti yr amgylchedd adeiledig a naturiol. O fewn lletemau glas, bwriedir atal unrhyw gynnig datblygu na fyddai'n cynnal y cymeriad agored hwn.

3.18 Mae gan yr AABC bum rhan werdd. Bydd cynigion datblygu yn cael eu hystyried pan fydd y defnydd yn ychwanegu at y cymeriad presennol neu'n gwella cymeriad y rhan werdd. Gellir canfod disgrifiad manwl o ddyraniadau'r rhan werdd yn **Atodiad 3**.

CADW TREFTADAETH NATURIOL

Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA)

NH1 **Caiff Ardaloedd o Dirwedd Arbennig eu nodi a'u hamddiffyn yn y lleoliadau canlynol:**

NH1.1 **Cwm Rhymni Uchaf**

NH1.2 **Comin Gelligaer**

3.19 Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) yn ddynodiadau anstatudol lleol sy'n ceisio amddiffyn ardaloedd sy'n dangos nodweddion a rhinweddau tirwedd, hanesyddol, diwylliannol, bioamrywiaeth a daearegol unigryw yn y Fwrdeistref Sirol. Maent yn elfennau lleol pwysig o dreftadaeth naturiol o'r amgylcheddau gwledig a dinesig, ac yn darparu hanes byw o esblygiad tirwedd yr ardal yn ogystal â chefnlen ddiwylliannol ac amgylchedd gweledol. Mae dynodi ATA yn pwysleisio ystyriaeth cyfannol y dirwedd, gyda phwyslais ar natur 'arbennig' y nodweddion a rhinweddau tirwedd unigryw yn yr ardaloedd hyn.

3.20 Mae'r ardaloedd tirwedd arbennig wedi'u nodi yn yr AABC. Bydd yr ardaloedd hyn wedi'u hamddiffyn rhag unrhyw ddatblygiad a fyddai'n niweidio eu nodweddion neu rinweddau unigryw. Nid yw'r polisi wedi'i ddylunio i rwystro datblygiad. Fodd bynnag, bydd angen i ymgeisydd ddangos na fydd cynnig am ddatblygiad yn effeithio'n negyddol ar y nodweddion neu rinweddau unigryw arbennig sy'n gysylltiedig â'r ATA.

3.21 LANDMAP yw'r system gwybodaeth leol ar gyfer ystyried tirluniau wrth wneud penderfyniadau. Mae'n gwahanu tirluniau yn pum ardal agwedd: tirluniau daearegol, gweledol a synhwyrol, cynefinoedd tirluniau, tirluniau diwylliannol a'r tirluniau hanesyddol. Mae'r system yn caniatáu ar gyfer casglu, trefnu a gwerthuso gwybodaeth o fewn cyfres

ddata cenedlaethol gyson. Mae pob ATA wedi’u nodi gan ddefnyddio gwybodaeth LANDMAP a methodoleg dynodi ATA. Mae hyn yn cydnabod y gall ATA gynnwys rhannau bychain o’r tirlun lleol nad ydynt yn arddangos yr un lefel o bwysigrwydd tirlun. Gellir gweld disgrifiad manwl o’r dynodiadau ATA yn **Atodiad 1**, sy’n darparu gwybodaeth am y nodweddion a rhinweddau tirlun unigryw ym mhob ATA.

Tirweddau Lleol o Bwysigrwydd Gweledol (TLIBG)

- NH2 **Caiff Tirweddau Lleol o Bwysigrwydd Gweledol eu nodi a’u gwarchod yn y lleoliadau canlynol:**
- NH2.1 **Cwm Rhymni Gogleddol**
- NH2.2 **Manmoel**

- 3.22 Mae Tirweddau Lleol o Bwysigrwydd Gweledol (TLLGB) yn ddynodiadau anstatudol sy’n ceisio amddiffyn nodweddion neu rinweddau unigryw tirlun gweledol a synhwyrol y Fwrdeistref Sirol a sut ydym yn canfod ac yn ymateb i’r tirlun o’n cwmpas. Mae TLLGB wedi’u nodi gan ddefnyddio haen weledol a synhwyrol LANDMAP yn unig. Mae gan yr AABC ddau Dirlun Lleol o Bwysigrwydd Gweledol.
- 3.23 Caniateir datblygu lle mae’n cadw a, lle bo’n briodol, yn gwella nodweddion neu rinweddau tirlun gweledol neu synhwyrol unigryw y TLLGB yn unig. Dylai cynigion datblygu ddangos bod y nodweddion hyn o haen agwedd LANDMAP gweledol a synhwyrol yn cael eu cadw a, lle bo’n briodol yn gwella er lles y tirlun gweledol. Gellir gweld disgrifiad manwl o’r dynodiadau

TLLGB yn Atodiad 2, sy’n darparu crynodeb o’r nodweddion a’r rhinweddau tirlun gweledol a synhwyrol unigryw yn y TLLGB.

Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN)

- NH3 **Afon Rhymni**
- NH3.2 **Pen March a Thraed y Milwyr, Llechryd**
- NH3.3 **Y Drenewydd, Llechryd a Glaswelltiroedd Rhymni, Rhymni**
- NH3.4 **Nant Bargod Rhymni, Cwm Darran**
- NH3.5 **Morfa Tair Carreg, i’r Gogledd Orllewin o Fochriw**
- NH3.6 **Coedlan Cwm-Llydrew, i’r De o Fochriw**
- NH3.7 **Nant Bargod Flush, Deri**
- NH3.8 **Cefn y Brithdir, i’r De o Bontlotyn**
- NH3.9 **Pwll Mile End, Abertyswg**
- NH3.10 **Y Graig Mire, i’r De o Abertyswg**
- NH3.11 **Afon Sirhywi**
- NH3.12 **Afon Ebwy**
- NH3.13 **Coetir Cwmsyfiog, i’r Gogledd o Dredegar Newydd**
- NH3.14 **Coed Cefn Rhychdir, i’r Gogledd o Dredegar Newydd**
- NH3.15 **Troed Rhiw’r Fuwch, i’r Gogledd Orllewin o Dredegar Newydd**
- NH3.16 **Planhigfa Llarwydd Parc Cwm Darran, Deri**
- NH3.17 **Cefn Gelligaer, i’r Gorllewin o Deri**
- NH3.18 **Craig Ysgwydd Gwyn, Deri**
- NH3.19 **Coedlan Ysgwydd Gwyn Isaf, i’r De o Deri**
- NH3.20 **Coed Deri Newydd, Deri**
- NH3.21 **Pont Caradog a Choedlannau Nant Llan, i’r Dwyrain o Deri**
- NH3.22 **Tir-y-Ferch-Gryno, Brithdir**

- NH3.23 **Coed-y-Moeth a Bryn Cwmsyfiog, Cwmsyfiog**
- NH3.24 **Mynydd Manmoel, i’r Gogledd o Fanmoel**
- NH3.25 **Twyn y Bleiddiaid, i’r De Ddwyrain o Fanmoel**
- NH3.26 **Coed Waun-Bleiddian, i’r Gogledd o Lwyncelyn**
- NH3.27 **Ffynnon Llwyncelyn, Llwyncelyn**
- NH3.28 **Coedlan Llwyn-Bach, i’r De o Lwyncelyn**
- NH3.29 **Coedlan Nant-y-Felin, i’r Gogledd Ddwyrain o Markham**
- NH3.30 **Tipiau Markham, i’r Gogledd o Markham**
- NH3.31 **Dolydd Pen-yr-Heol, Markham**
- NH3.32 **Llinell Reilffordd Markham, Markham**
- NH3.33 **Pen- Rhiw’r-Eglwys, i’r Dwyrain o Markham**
- NH3.34 **Hafodrisclawdd, i’r Dwyrain o Markham**
- NH3.35 **Pen-y-Waun, i’r De o Markham**
- NH3.36 **Glofa Markham, i’r Gogledd o Markham**
- NH3.37 **Coed Argoed, i’r Dwyrain o Fedwellte**
- NH3.38 **Iard Eglwys Bedwellte, Bedwellte**
- NH3.39 **Tir gyferbyn ag Eglwys St Annan, Bedwellte**
- NH3.40 **Nant Cwm-Crach, Bedwellte**
- NH3.41 **Nant-Gau a Choedlannau Darran, i’r Gogledd o Oakdale**
- NH3.42 **Caeau Cwm-Corrog, i’r Gogledd o Oakdale**

- 3.24 Mae Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN) yn adnodd bioamrywiaeth pwysig yn cynnwys ardaloedd sylweddol o gynefinoedd a rhywogaethau. Mae

dynodiadau yn seiliedig ar feini prawf gwyddonol gwrthrychol i gyd-fynd a’r canllawiau Cymru gyfan (sy’n cael eu datblygu). Mae’r polisi hwn yn ymwneud â’r holl safleoedd sy’n cwrdd â’r meini prawf ar gyfer dynodi.

- 3.25 Caniateir datblygu fel arfer lle na fyddai’n achosi niwed annerbyniol i nodweddion penodol y SGNP. Os na ellir osgoi niwed dylid ei leihau drwy fesurau lleihau effeithiol i sicrhau nad oes gostyngiad yng ngwerth cadwraeth natur cyffredinol yr ardal neu nodwedd. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid darparu mesurau digolledu a ddyluniwyd i gadw, gwella a rheoli cynefinoedd a rhywogaethau unigryw lleol, gan gynnwys er enghraifft gadw ac adfer cynlluniau. Gellir canfod disgrifiad o’r SGNP dynodedig yn **Atodiad 4**.

CYFLEUSTERAU TRIN GWASTRAFF A MWYNAU

Safle Trin Gwastraff a Mwynau

- MW1 **Nodir safle pen lein fel safle addas ar gyfer trin mwynau a chyfleusterau dyrannu a rheoli gwastraff yn gysylltiedig â thrafnidiaeth rheilffordd, fel a ganlyn:**
- MW1.1 **Pwynt Gwaredu Cwmbargoed, i’r gogledd orllewin o Fochriw**

- 3.26 Mae cyfadeilad Pwynt Gwaredu Cwmbargoed yn cynnwys ffin Bwrdeistref Sirol Caerffili a Merthyr Tudful. Defnyddir y mwyafrif o’r safle sy’n rhan o Fwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer paratoi a dyrannu glo. Byddai gweithgareddau cyflogaeth priodol eraill sy’n dibynnu ar y cyfleuster pen lein ac yn bodloni egwyddorion cynladwyedd y Cynllun, er enghraifft cyfleusterau rheoli gwastraff ac yn uno trin a dyrannu, yn dderbyniol. Mae disgrifiad o’r safle hwn yn **Atodiad 6**.

Parth Clustogi Safle Mwynau

MN1 Nodir parth Clustogi yn gysylltiedig â'r safle canlynol:

MN1.1 Safle Glo Brig Ffos y Frân

3.27 Disgrifir y cyfyngiadau datblygu sy'n gysylltiedig â'r parth hwn ym **Mholisi CW23** yn adran dau y Cynllun.

Gwarchod Mwynau

MN2 Mae ardaloedd gwarchod mwynau wedi'u nodi yn:

MN2.1 I'r Gorllewin o Rymni - Glo

MN2.2 I'r Dwyrain o Rymni - Glo

MN2.3 I'r De o Abertyswg - Glo

MN2.4 I'r De o Fochriw - Glo

MN2.5 I'r Dwyrain o Markham - Glo

3.28 Mae TAN Glo (MTAN 2 - Glo) yn gofyn i awdurdodau cynllunio lleol ddiogelu adnoddau glo ar gyfer y dyfodol. Nid yw diogelu adnoddau yn sicrhau eu gweithrediad ond mae'n atal disbyddu'r adnodd gan ddatblygiad arall.

3.29 Mae Papur Cefndir 5 yn darparu gwybodaeth fanwl ar yr adnoddau glo yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd.



Safleoedd wedi'u Neilltuo ar gyfer Tai

HG1 Mae tir wedi'i ddyrannu ar gyfer tai ar draws ardal adfywio Blaenau'r Cymoedd fel a ganlyn:

	Enw Safle	Trefedigaeth	Maint (ha)	Unedau
HG1.1	Tir i'r De o Merthyr Road	Princetown	4.02	140
HG1.2	Tir i'r Dwyrain o Fyngalo Llechryd	Llechryd	1.10	39
HG1.3	Siop Old Barrell +	Rhymni	0.63	15
HG1.4	Lower Hill Street	Rhymni	0.30	10
HG1.5	Garej Maerdy gerllaw Tŷ Maerdy +	Rhymni	0.79	16
HG1.6	Croesfan Maerdy	Rhymni	2.40	57
HG1.7	Cyn ddepo i'r de o Ffordd gyswllt Pontlotyn	Pontlotyn	1.02	36
HG1.8	Heol Evan Wynne +	Pontlotyn	1.13	10
HG1.9	Greensway	Abertyswg	0.82	28
HG1.10	Tir i'r de orllewin o Carn-y-Tyla Terrace +	Abertyswg	7.08	133
HG1.11	Tir gerllaw Brynglas+	Pontlotyn	1.20	56
HG1.12	Tir oddi ar Railway Terrace	Fochriw	4.20	147
HG1.13	Tir wrth Graig Rhymni +	Tredegar Newydd	2.61	30
HG1.14	Tir gerllaw Abernant Road	Markham	2.34	82
HG1.15	Bedwellty Road	Aberbargod	7.34	180
HG1.16	Tir gerllaw Gelynos Avenue +	Argoed	0.72	13
HG1.17	Aberbargod ac Ysbyty'r Ardal	Aberbargod	0.56	20
HG1.18	Llwyfandir Aberbargod	Aberbargod	11.80	413
HG1.19	Llwyfandir Manwerthu Aberbargod	Bargod	2.7	48
HG1.20	YGG Cwm Rhymni + #	Bargod	0.62	28
HG1.21	Ystâd y Parc	Bargod	1.50	53
HG1.22	Ysgol Gyfun Bedwellte	Aberbargod	1.88	74
CYFANSWM			56.76	1,628

+ Roedd gan y safle ganiatâd cynllunio o 1 Ebrill 2007
safle tai fforddiadwy 100%

3.30 Mae dyrannu safleoedd ar gyfer datblygiadau preswyl yn bwysig o ran sicrhau bod tir digonol ar gael i gwrdd â gofynion y boblogaeth yn y dyfodol. Yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, mae cyfanswm o **1,628** uned wedi'u dyrannu ar draws ystod o safleoedd er mwyn cynnig dewis a hyblygrwydd. Bydd hyn yn cyfrannu at amrywiaeth y stoc tai ac yn sicrhau dyfodol cynaliadwy, hyfyw ar gyfer trefedigaethau ym Mlaenau'r Cymoedd. Yn yr ardal hon, dyrennir **55%** o anheddau ar safleoedd tir llwyd.

3.31 Mae tir dan y polisi hwn yn cynnwys:
o Safleoedd gyda chaniatâd cynllunio

ar gyfer tai neu ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau yn cynnwys tai o 1 Ebrill 2007 (mewn rhai achosion yn unol â llofnodi Cytundeb Adran 106).
o Safleoedd newydd wedi'u nodi'n addas ar gyfer datblygiadau preswyl neu ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau, gan gynnwys tai o ganlyniad i broses asesu safleoedd arfaethedig cadarn.

3.32 Mae disgrifiadau manwl o'r dyraniadau safleoedd hyn yn **Atodiad 7**. Hefyd, mae'r arolygon a gwybodaeth bellach sy'n ofynnol i'w gyflwyno fel rhan o geisiadau cynllunio yn y dyfodol fel y nodir i'w gweld yn **Atodiad 8**.

- 3.33

Mae'r nifer arfaethedig o safleoedd a nodir ar gyfer pob safle yn ddangosol a gallai dwysedd uwch neu is fod yn dderbyniol, pan fo'r datblygiad arfaethedig yn ymdrin ag ystyriaethau polisi eraill gan gynnwys dylunio, cynaliadwyedd a datblygiad cynhwysfawr.
- 3.34

Yn ogystal â'r tai fforddiadwy a fydd yn cael eu sicrhau trwy **Bolisi CW11**, mae un safle wedi'i nodi ar gyfer 100% o dai
- fforddiadwy, a fydd yn cyfrannu tuag at ymdrin â'r angen am dai fforddiadwy yn yr ardal. Mae'r safle yn debygol o ddod ymlaen ar gyfer 100% o dai fforddiadwy o ganlyniad i ganiatâd cynllunio, argaeledd grantiau tai cymdeithasol a pherchnogaeth tir. Bydd hyrwyddo safleoedd eraill ar gyfer 100% o dai fforddiadwy yn cael eu ffafrio mewn lleoliadau cynaliadwy lle na fydd hyn yn amharu ar y nod o ddarparu cymunedau cymysg.

CYFLOGAETH

Dyraniadau Cyflogaeth

EM1

Mae'r safle canlynol wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygu o fewn Defnyddiau Dosbarth B1, B2, A B8:

Enw Safle

EM1.1 Tir ym Mlaenau'r Cymoedd +

Trefedigaeth

Rhymni

Maint (ha)

5.2

Math

Prif Safle

+ C/C 1 Ebrill 2007

3.35

Mae'r prif safle dynodedig hwn yn cynnwys cymysgedd o Ddosbarthiadau Defnydd ar hyn o bryd, ac o'r herwydd, fe'i hystyrir yn briodol ar gyfer defnyddiau dosbarth B1, B2 a B8, sef swyddfeydd, diwydiant ysgafn a

chyffredinol, a defnyddiau warws. Disgwylir bod cynigion ar gyfer datblygu'r tir gwag ar y safle hwn yn cyd-fynd a'r defnyddiau hynny. Mae disgrifiad manwl o ddyraniad y safle hwn ar gael yn **Atodiad 9**.

Gwarchod Ardaloedd Cyflogaeth

EM2

Mae'r safleoedd canlynol wedi'u gwarchod ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, yn unol â'u statws yn hierarchaeth y safle cyflogaeth:

EM2.1 Tir yn Nhredegar Newydd

Prif Safle

EM2.2 Blaenau'r Cymoedd, Rhymni

Safle Eilradd

EM2.3 Cwm Capital, Rhymni

Safle Eilradd

EM2.4 Maerdy, Rhymni

Safle Eilradd

EM2.5 Angel Lane, Aberbargod

Safle Eilradd

EM2.6 Bowen, Aberbargod

Safle Eilradd

- 3.36

Yn ogystal â'r tir a ddyrennir ar gyfer datblygiad cyflogaeth yn y dyfodol (Polisi EM1), mae nifer o safleoedd yn bodoli yn y Fwrdeistref Sirol sydd eisoes yn meddu ar ddefnyddiau cyflogaeth swyddogaethol. Bydd safleoedd o'r fath wedi'u hamddiffyn rhag datblygiadau tu allan i'r Dosbarthiadau Defnydd a nodir gan y categorïau

- perthnasol (e.e. Defnydd Dosbarth B1 ar gyfer Parciau Busnes yn unig). Bwriad y polisi amddiffyn yw gweithredu ar y cyd â Pholisi CW13 yn y cyd-destun hwn.
- 3.37

Mae'n holl bwysig mewn perthynas â'r AABC bod safleoedd o'r fath yn cael eu hamddiffyn er mwyn cwrdd â darpariaethau'r strategaeth. Os ydym am wireddu'r nod o leihau anghysondebau economaidd a chymdeithasol rhwng trefedigaethau gogleddol y Fwrdeistref Sirol ac mewn mannau eraill, mae angen cynnal swyddogaethau cyflogaeth presennol yr ardal.
- 3.38

Bargod yw'r trydydd canolfan fwyaf yn y Fwrdeistref Sirol ac o ganlyniad, fe'i nodir fel Prif Dref. Felly, mae gofyn iddi chwarae rôl amlswyddogaethol o ran y gwasanaethau a ddarperir ganddi. Mae manwerthu yn rhan hollbwysig o hyn ac, i'r pen hwn, mae'r polisiau yn y Cynllun hwn wedi'u ffurfio gyda'r nod o amddiffyn a gwella hyfywdra a dichonoldeb Bargod. Bwriad y polisi yw gweithredu ar y cyd a gofynion **Polisi CW14**.
- 3.39

Mae cyfle sylweddol am ailddatblygiad manwerthu a hamdden masnachol newydd yn rhan ddeheuol Bargod. O ganlyniad, teimlir bod yr hamdden masnachol yn rôl newydd ar gyfer dref, a allai ffurfio'r safle ar gyfer darpariaeth bellach o'r natur hon.
- 3.40

Dangosir ffin ddiffiniedig Prif rannau Canol y Dref ar y Map Cynigion a hefyd ar gynllun ar raddfa fwy yn **Atodiad 11**.

DATBLYGIAD MASNACHOL

Prif Ffiniau Canol y Dref

CM1

Mae'r ffin ar gyfer Prif rannau Canol y Dref yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd wedi'i diffinio fel a ganlyn:

CM1.1

Bargod

Safleoedd Datblygu yn y Prif Dref a'r Canolfan Leol

CM4

Mae'r safleoedd canlynol yn y Prif Dref a'r Canolfan leol wedi'u dynodi ar gyfer datblygiad:

Enw Safle

CM4.1 Y Lawnt

Trefedigaeth

Rhymni

Maint (ha)

7.3

Math o Gynnig

Manwerthu, Cyfleusterau Cymunedol

CM4.2 Llwyfandir Manwerthu Bargod

Bargod

2.7

Siop Fwyd, Manwerthu, Sinema, Preswyl

CM4.3 Cyn Sinema, Sgwâr, Hanbury +

Bargod

0.1

Swyddfeydd

+C/C Ebrill 2008

- 3.41

Mae disgrifiadau manwl o'r dynodiadau safle hyn i'w gweld yn **Atodiad 10**.
- Ardal Cyfle Masnachol
- CM5

Mae Ardal Cyfle masnachol wedi'i nodi yn y lleoliad canlynol:
- CM5.1

Heol Fawr, Bargod
- 3.42

Mae Ardal Cyfle Masnachol wedi'i nodi ar gyfer y brif dref Bargod lle gallai datblygiad
- swyddfeydd fod o fudd mawr. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn atal cynigion o'r fath mewn unrhyw fan arall yn y canol trefi dynodedig ac eithrio o fewn y Prif Ardaloedd. Mae'r fenter polisi hon yn ceisio darparu cyfres arwyddocaol arall o gyfleoedd i barhau a'r twf economaidd yn y dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol. Nodir ffin Ardal Cyfle Masnachol Bargod ar y Map Cynigion a hefyd ar y cynllun ar raddfa fwy yn **Atodiad 11**.

Cyfleusterau Cymunedol

- CF1 Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dynodi ar gyfer cyfleusterau cymunedol newydd:
 - CF1.1 I'r Gogledd o Fynwent Rhymni, Rhymni - estyniad y Fynwent
 - CF1.2 Y Lawnt, Rhymni - Canolfan Adnoddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Addysg Bellach
 - CF1.3 Ysgol Gynradd Bryn Awel, Rhymni - Ysgol Newydd
 - CF1.4 Canolfan Ieuentid Fochriw, Fochriw - Canolfan Ieuentid Newydd
 - CF1.5 Canolfan Hamdden, Tredegar Newydd - Canolfan Ieuentid newydd
 - CF1.6 Hanger 81, Aberbargod - Canolfan Ieuentid newydd
 - CF1.7 Gerllaw Ysgol Bro Sannan, Aberbargod - Estyniad ysgol
 - CF1.8 Ysgol Gynradd Aberbargod, Aberbargod - Estyniad ysgol
 - CF1.9 I'r De o Lwyfandri Aberbargod, Aberbargod - Gorsaf Dan
 - CF1.10 Eglwys y Bedyddwyr Hanbury Road, Bargod - Llyfrgell
 - CF1.11 Gilfach Street, Bargod - Canolfan Iechyd

3.43 Mae disgrifiadau manwl o'r safleoedd hyn i'w gweld yn **Atodiad 14**.

Gwarchod Mannau Agored Ffurfiol

- LE1 Mae tir wedi'i warchod ar gyfer mannau agored a pharcdir yn:
 - LE1.1 Parc Cofeb Rhyfel, Rhymni
 - LE1.2 Wellington Way, Rhymni
 - LE1.3 The Green, Abertyswg
 - LE1.4 King George's Field, Markham
 - LE1.5 Parc Bargod, Bargod
- 3.44 Mae parciau a gerddi ffurfiol yn fannau dinesig deniadol ar gyfer mwynhad y cyhoedd ac o'r herwydd dylid eu gwarchod. Dylid osgoi gostyngiadau cynyddol yn eu ffiniau er lles datblygiadau adeiledig i sicrhau eu bod yn bresennol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- 3.45 Mae nifer o barciau yn cynnwys atyniadau megis arddangosiadau blodau, planhigion, caeau chwarae, meysydd chwarae i blant a nodweddion dwr addurniadol. Er bod rhywfaint o hyblygrwydd yn bwysig ar gyfer datblygiadau dethol a fydd yn cyfuno'r defnyddiau hyn megis llochesi, llwyfannau ac adeiladau storio, mae'n bwysig gwella'r agwedd hamdden.



LE2 Dynodir tir ar gyfer Parc Gwledig newydd yn:

LE2.1 Hen Lofa Markham, Markham

- 3.46 Ledled y rhanbarth, mae nifer o barciau gwledig wedi'u datblygu'n llwyddiannus ar dir a oedd ar un adeg yn cynnwys diwydiant trwm ond sydd bellach wedi'i ail-adfer. Er mwyn parhau â'r adfywio hwn mewn lleoliadau dethol ar gyfer pwrpasau twristiaeth ac i ddarparu rhwydwaith o safleoedd amwynder ar gyfer cerdded, seiclo, reidio, picnics a chadwraeth bywyd gwyllt, mae tir wedi'i neilltuo ar gyfer datblygu parc gwledig newydd.
- 3.47 Mae llwybrau seiclo eisoes wedi'u nodi yn rhannau canol ac is y Fwrdeistref Sirol, ac mae angen gwella'r seilwaith ymhellach yng Nghwm Sirhywi Uchaf. Bydd hyn yn bwydo i'r rhwydwaith dolenni a chysylltiadau a fydd yn ei dro yn ffurfio rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd.

Gwarchod Parciau Gwledig

LE3 Mae Parciau Gwledig sy'n cyfrannu at Barc Rhanbarthol y Cymoedd wedi'u gwarchod yn y lleoliadau canlynol:

- LE3.1 Parc Bryn Bach, Rhymni/Tredegar
- LE3.2 Parc Cwm Darran, Deri
- LE3.3 Parc Coetir Bargod

3.48 Mae parciau gwledig yn gyfleusterau llai ffurfiol ar raddfa fwy sy'n cynnig adnodd gwerthfawr ar gyfer gweithgareddau hamdden a thwristiaeth mewn amgylchedd gwledig, yn agos at brif ganolfannau poblogaeth y Fwrdeistref Sirol. Er mwyn cydnabod eu cyfraniad i'r dirwedd fel atyniadau twristiaeth ac i sicrhau eu bod yn parhau i wasanaethu'r pwrpas hwn, mae'r cynllun yn diffinio eu ffiniau fel y gellir ei hamddiffyn rhag unrhyw ddatblygiad amhriodol.

3.49 Mae nifer wedi'u datblygu ar dir a oedd ar un adeg yn cynnwys diwydiant trwm ond sydd bellach wedi'u hail-adfer, gyda'r cwbl yn cynnig ystod o weithgareddau hamdden. Mae eisoes llwybrau seiclo wedi'u nodi yn y Fwrdeistref Sirol, ac mae'r parciau amrywiol ar hyd Cymoedd Rhymni, Sirhywi ac Ebwy yn ymddangos fel eu bod yn cynnig potensial ar gyfer cysylltu'r rhain. Bydd hyn yn bwydo i'r rhwydwaith dolenni a chysylltiadau a fydd yn ffurfio rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd.

Cyfleusterau Hamdden Ffurfiol

LE4 Nodir tir ar gyfer cyfleusterau hamdden gan gynnwys caeau gemau yn:

- LE4.1 I'r Gogledd o Lan y Nant, Rhymni
- LE4.2 Cyn Lofa McLaren, Abertyswg
- LE4.3 Pont Bren, Deri
- LE4.4 Heol Fawr, Bargod
- LE4.5 Hen Ysgol Gyfun Bedwellte, Gilfach
- LE4.6 I'r De o Gilfach, Gilfach

3.50 Mae caeau gemau yn rhan allweddol o fwyafrif o ddarpariaeth hamdden ffurfiol cymunedau. Wrth fesur nifer y cyfleusterau yn erbyn 'Safon Acer Chwech' Cymdeithas Caeau Chwarae Cenedlaethol, mae prinder caeau chwarae wedi'i nodi yn y Fwrdeistref Sirol.

3.51 Tra bo hyn yn adlewyrchu dirywiad cenedlaethol mewn darpariaeth, mae'r safonau NPFA yn parhau fel dyhead cadarn ar gyfer polisiâu defnydd tir awdurdod lleol er mwyn gallu atal y dirywiad. O ganlyniad, mae nifer o safleoedd, yn aml yn cynnwys adfywio trefedigaeth yn ehangach trwy adfer neu ddefnyddio safle tir llwyd wedi'u nodi ar gyfer datblygiadau caeau chwarae newydd.

Gwarchod Mannau Agored Anffurfiol

LE5 Gwarchodir tir ar gyfer defnyddiau cymunedol a hamdden anffurfiol yn:

- LE5.1 I'r Gogledd o Barc Cofeb, Rhymni

LE5.2 Rhwng Cwmsyflog a Brithdir, Tredegar Newydd

LE5.3 Church Field, Gilfach

- 3.52 Mae mannau agored o gymeriad llai ffurfiol yn aml yn elfennau allweddol yn y dirwedd faestrefol, yn cynnig hafan ddeniadol ar gyfer bywyd gwyllt. Gall hyn gynnwys y gymuned mewn projectau perchnogaeth a chadwraeth. Gellir defnyddio'r ardaloedd hyn yn aml ar gyfer cerdded a gallant ar brydiau gynnig mwynhad anffurfiol ar gyfer seiclwr sy'n pasio trwy'r ardal hon.

TWRISTIAETH

Cynigion Twristiaeth

- TM1 **Dynodir safleoedd ar gyfer gweithgareddau twristiaeth yn:**
- TM1.1 **Parc Bryn Bach, Rhymni/Tredegar**
- TM1.2 **Winding House, Tredegar Newydd**

- 3.53 Wedi'i leoli oddi ar ffordd A465, mae Parc Bryn Bach yn atyniad arwyddocaol gyda llyn a chanolfan ymwelwyr. Mae'n gorwedd ym mhen mwyaf gogleddol y Fwrdeistref Sirol, ar y ffin â Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac eisoes yn lleoliad ar gyfer chwaraeon dŵr a beicio cwad oddi ar y ffordd. Cynigir ei ddatblygu ymhellach ar gyfer nodweddion twristiaeth o amgylch y parc gyda chyfleusterau ychwanegol ar dir gerllaw, megis llwybrau troed a rhagor o fannau mynediad yn gysylltiedig â chynllun coedwigaeth. Mae Bryn Bach yn debygol o fod yn un o'r prif elfennau parc ym Mharc Rhanbarthol arfaethedig y Cymoedd a gall elwa o'i agosrwydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

- 3.54 Mae amgueddfa newydd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol yn cael ei datblygu yn Nhredegar Newydd. Wedi'i lleoli yn adeilad Hen Lofa Elliot, bydd yr amgueddfa yn cynnwys ystod o arteffactau yn gysylltiedig â threftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol yr ardal o fewn adeilad rhestredig, ynghyd â chyfleusterau dehongli ac arddangos. Dyma elfen bwysig yn y gwaith o adfywio'r ardal a bydd gyda gobaith yn gatalydd ar gyfer buddsoddiad pellach.

TRAFNIDIAETH

Llwybrau Seiclo

- TR1 **Bydd tir yn cael ei warchod i hwyluso'r gwelliannau canlynol i'r rhwydwaith llwybr seiclo:**

TR1.1 **Llwybr Seiclo Llinynnol Cwm Rhymni - Blaenau'r Cymoedd i Fedwas / Caerffili, Blaenau'r Cymoedd**

TR1.2 **Cwblhau ac Estyn Llwybr Seiclo NCN 46**

TR1.3 **Parc Gwledig Bargod i Ystad Ddiwydiannol Bowen**

TR1.4 **Estyniad i Lwybr Seiclo Cwm Sirhywi**



TR1.5 Cysylltiadau Lleol i Ganol Dref Bargod

TR1.6 Cyswllt o Fochriw i NCN 46 trwy Bwll Rhaslas

TR1.7 Cyswllt Seiclo Lleol o Argoed i Oakdale

- 3.55 Ffactor pwysig wrth ddarparu trafndiaeth mwy cynaliadwy yw sylweddoli cynnydd sylweddol yn y nifer o deithiau byr drwy gerdded a seiclo. Mae darparu rhwydwaith strategol a lleol o lwybrau dynodedig o ansawdd uchel ar gyfer y dulliau hyn yn elfen hanfodol o sylweddoli'r twf hwn.
- 3.56 Mae'r aliniadau llwybrau penodol ar gyfer y gwelliannau uchod eto i'w hystyried mewn manylder ac mae'r cynlluniau ar gamau datblygu gwahanol. Dangosir aliniadau llwybrau awgrymedig ar Fap Cynigion y CDLI ac maent yn cynrychioli cyfeiriad cyffredinol y llwybr yn unig. Nid yw'r aliniadau dangosol ar y Map Cynigion, felly, yn rhagnodol.
- 3.57 Yn ogystal â'r cynlluniau posibl uchod, bydd cynlluniau Llwybrau Diogel i Orsafoedd a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau hefyd yn cael eu blaenoriaethu.
- 3.58 Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu Llwybr 46 ar hyd tramwyfa Blaenau'r Cymoedd a chysylltiadau strategol o Gymoedd Rhymni a Sirhywi i leoliadau allweddol.
- 3.59 Bydd y llwybrau seiclo arfaethedig ym Mlaenau'r Cymoedd yn hyrwyddo adfywio a chynladwydd, yn annog ffordd o fyw iachach a gweithgarwch corfforol cynyddol, ac yn cyfrannu at ffyniant economaidd yr ardal.
- 3.60 Bydd llwybrau'r hen linellau rheilffordd sydd â photensial ar gyfer datblygiad trafndiaeth yn cael eu diogelu, yn enwedig y rhai sy'n hwyluso cerdded, seiclo llwyth rheilffordd neu symudiadau teithwyr.

- 3.61 Disgwylir i'r cynllun ar gyfer datblygiadau preswyl, cyflogaeth, manwerthu, hamdden ac eraill i gynnwys darpariaeth ar gyfer cerdded a seiclo a lle bo'n bosibl cysylltiadau / mynediad i'r rhwydweithiau cerdded a seiclo sy'n cael eu datblygu.

Cyfleusterau Parcio a Theithio

- TR4 **Mae'r gorsafoedd canlynol wedi'u nodi ar gyfer darpariaeth parcio a theithio newydd:**

TR4.1 **Rhymni**

TR4.2 **Bargod**

- 3.62 Mae darparu cyfleusterau parcio a theithio mewn gorsafoedd yn cynyddu mynediad i'r rhwydwaith rheilffordd ac yn annog defnyddwyr ceir i newid i'r rheilffordd am ran sylweddol o'u siwrne.
- 3.63 Mae amllder a gwelliannau cynhwysedd diweddar a pharhaus ar linell Cwm Rhymni, yn unol ag agor llinell Glyn Ebwy ar gyfer gwasanaethau teithwyr, yn darparu cyfle rhagorol i gynyddu defnydd o'r rheilffordd yn y Fwrdeistref Sirol. Mae pedwar trên pob awr bellach o Fargoed i Gaerdydd a bydd darparu cyfleusterau parcio a theithio yn Rhymni yn cynyddu'r potensial i'r cyhoedd, yn enwedig cymudwyr, i gyrchu a defnyddio'r gwasanaethau rheilffordd gwell.
- 3.64 Ceisir nawdd ar hyn o bryd ar gyfer cam olaf gwelliannau amllder ar y Llinell Rhymni, a fydd yn darparu gwasanaeth bob hanner awr i Rymni. Mae darpariaeth cyfleusterau parcio a theithio estynedig yn gysylltiedig â'r gwelliannau hyn i amllder y trenau, a fydd yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth ac yn hybu defnydd pellach ar gyfleusterau parcio a theithio.
- 3.65 Mae'r aliniadau llwybrau penodol ar gyfer y gwelliannau uchod eto i'w hystyried mewn manylder ac mae'r cynlluniau wedi eu datblygu i wahanol raddau. Mae

Map Cynigion y CDLI yn nodi'r lleoliadau gorsafoedd sy'n ymwneud a'r cynigion, ond nid ydynt yn ceisio nodi'r tir gofynnol. O ganlyniad mae'r dynodiadau yn ddangosol ac ni ddylid eu hystyried fel rhai rhagnodol.

Ffyrdd Newydd i Hwyluso Datblygu

- 3.66 Mae'r Cyngor wedi bod yn meddwl am beth amser y dylid ystyried ffordd liniaru a fyddai'n dargyfeirio traffig i ffwrdd o gyffordd Goleuadau Bedwellte yn Aberbargoed yn unol â'r gofynion tai newydd yn yr ardal. Mae cynllun Ffordd Liniaru Bedwellte wedi'i nodi mewn cynlluniau datblygu blaenorol ac mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i'w datblygu. Fodd bynnag, mae amheuon ynghylch y gallu i ddarparu'r cynnig yn ystod y Cynllun wedi atal dyrannu'r cynllun yn y CDLI.
- 3.67 Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn Chwefror 2009 ar gyfer datblygiad tai ar safle dyrannu tai y CDLI **HG1.15** - Bedwellty Road. Bydd y datblygiad ar y safle hwn yn darparu cyfran ddwyreiniol Ffordd Liniaru Bedwellte. Fodd bynnag byddai'n afresymol disgwyl i'r datblygiad ddarparu hyd llawn y Ffordd Liniaru a bydd angen i'r cyngor ganfod nawdd i ddarparu'r rhan sy'n weddill.
- 3.68 Nid yw'r aliniad llwybr penodol ar gyfer rhan y ffordd liniaru sy'n weddill wedi'i ystyried mewn manylder eto. Mae'r cyngor yn parhau'n ymrwymedig i ddatblygu'r cynllun llawn a bydd yn ymgymryd â'r gwaith ymchwil ac ymarferoldeb manwl ar gyfer penderfynu ar aliniad penodol a chost y rhan sy'n weddill. Yn ystod cyfnod

y Cynllun, bydd y cyngor hefyd yn canfod ac yn dilyn cyfleoedd ar gyfer sicrhau cyllid i hwyluso darparu'r rhan o'r ffordd sy'n weddill.

Adfywio - Gwelliannau Priffordd

- TR8 **Mae'r cynllun priffordd canlynol wedi'i nodi i hwyluso adfywio Ardal Blaenau'r Cymoedd:**
TR8.1 A469 Bargod ac A4049 Aberbargod i Rymni
- 3.69 Un o'r prif broblemau trafnidiaeth sy'n wynebu ardal Blaenau'r Cymoedd yw safon wael mynediad i gerbydau. Bydd cwblhau Angel Way yn cael gwared â'r problemau sy'n gysylltiedig â Chanol Tref Bargod a bydd y gwelliannau i A4049 yn cynyddu hygyrchedd i Dredegar Newydd. Fodd bynnag, mae problemau sylweddol yn parhau ar yr A4049 i'r gogledd o Fargoed a'r A4049 i'r gogledd o Dredegar Newydd. Er mwyn hwyluso adfywio, ac i wireddu rôl a swyddogaeth pob trefedigaeth yn llawn yn ardal Blaenau'r Cymoedd, bydd angen ymgymryd â gwelliannau i'r dramwyfa hon fel rhan o'r pecyn adfywio cyffredinol.



GWEITHREDU A CHWBLHAU
Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd


- 3.70 Yn y gorffennol mae'r sector preifat wedi dangos amharodrwydd i fuddsoddi yn y rhan hon o'r Fwrdeistref Sirol. Yn fwy diweddar cafwyd arwyddion bod hyn yn newid ond bydd gweithredu cynigion yn yr ardal hon yn fwy dibynnol ar gyllid cyhoeddus o hyd nag ardaloedd ymhellach i'r de. Mae gwerthoedd tir isel a galw gwan yn golygu bod cyfraniadau sylweddol gan oblygiadau cynllunio yn annhebygol yn yr ardal hon.
- 3.71 Mae'r ardal hon yn gymwys am gyllid Rhaglen Blaenau'r Cymoedd (sy'n ymrwymiad hirdymor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cyfnod llawn y Cynllun) a Chyllid Cydgyfeirio Ewropeaidd (2007-2013). Mae'n ardal o flaenoriaeth i'r Cyngor ac i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac felly disgwylir swm sylweddol o gyllid sector cyhoeddus.

Risgiau

- 3.72 Mae'r risgiau i gynigion y Cynllun ar gyfer yr ardal hon yn ymwneud â chyllid a buddsoddiad yn bennaf. Nid oes unrhyw gynigion seilwaith allweddol a fyddai'n arwain at effaith 'blocio' ar ddatblygu'r safleoedd neu a fyddai'n gofyn am strategaethau wrth gefn eraill.

Adran C: Polisiau Ardal Penodol Y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol (TCG)

Y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol (TCG)



Y CYD-DESTUN IS-RANBARTHOL

3.73 Ers 1996, mae'r Cynllun Datblygu Unedol a gymeradwywyd gan y Cyngor wedi canolbwyntio datblygiadau newydd yn yr 'Ardal Twf' a oedd wedi ei chanoli ar Dramwyfa Canol y Cymoedd ar hyd yr A472. O ganlyniad, mae ardaloedd cynllunio cymuned, Canol y Cymoedd Gorllewin a Chanol y Cymoedd Dwyrain, sef y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol (TCG) wedi denu llawer o fuddsoddiad preifat a chyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf.

3.74 Mae'r TCG yn rhan unigryw o'r maes glo. Mae'n cynnwys ardaloedd cyson o ddatblygiadau trefol ar hyd canol Cymoedd

Rhymni, Sirhywi ac Ebwy. Yma, mae'r dopograffeg yn ffafrio symudiadau dwyrain-gorllewin a gogledd-de. Mae'r patrwm anheddu, felly, yn debycach i strwythur linyddol nodweddiadol trefi'r Cymoedd. Mae'r ardal, o Ffos-y-Greiddinen yn y gorllewin i Drecelyn yn y dwyrain a hyd at Fargoed yn y gogledd, yn gartref i 65,000 o bobl yn 2001 – poblogaeth fwy nag un Cwmbrân neu Ferthyr Tudful.


3.75 Mae dwy ganolfan wrth galon y TGC, sef Ystrad Mynach (lle mae canolfan Cyngor y Fwrdeistref Sirol, coleg addysg bellach a lle bydd ysbyty cyffredinol newydd yn y dyfodol) a'r Coed Duon (prif ganolfan fan werthu'r ardal). Yno hefyd mae un o

safleoedd gwaith mwyaf y cymoedd, sef Parc Busnes Oakdale.

3.76 Yr A472 yn ffurfio'r prif heol dwyrain-gorllewin ar ochr ddeheuol y TCG. Ffordd ddeuol sydd rhwng Trecelyn a'r Coed Duon, ac felly hefyd yr A469 rhwng Caerffili ac Ystrad Mynach. Mae Ffordd Fenter Sirhywi newydd gael ei chwblhau, ac yn cysylltu ardal waith fawr Oakdale/ Penyfan gyda'r

A472 ac yn ffordd gyflym i gyrraedd Canol Tref y Coed Duon. Bydd cwblhau Ffordd Liniaru Angel Way, sy'n cael ei weithredu fel rhan o Gynllun Adfywio Cymuned Bargod Uchaf, yn sicrhau y bydd ffyrdd da i ran ogleddol y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol. Bydd **Polisiau TR5 a TR7** yn galluogi gwelliannau i'r rhwydwaith heolgydd a fydd yn gwella hygyrchedd y TCG o fannau eraill ac oddi mewn iddi, ac yn gwneud

Cynllun yn dangos Cytrf Canol y Cymoedd



y rhwydwaith heolydd presennol yn fwy effeithiol. Mae gofid o hyd am gyswllt yr A472 rhwng cylchdro'r Crown a chylchdro Cwm Du, drwy Faescwmer. Mae'r Cyngor yn ystyried potensial gwella'r rhan hon o'r heol, a gwahanol opsiynau o wneud hynny. Bydd cynlluniau yn cael eu nodi os yn briodol mewn adolygiadau o'r CDLI pan, a phryd, y deuant nhw i'r fei.

3.77 Yn sgil agor gwasanaeth teithwyr trên Glyn Ebwy yn 2008, daeth Caerdydd yn hygyrch ar y trên o ddwyrain a gorllewin y TCG. Mae gwelliannau i linell Cwm Rhymni yn golygu bod trenau rhwng Bargod a Chaerdydd nawr yn fwy cyson. Mae pedwar trên pob awr nawr. Mae'r rhain yn ddatblygiadau arwyddocaol yn nhermau hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy.

3.78 Mae **Parc Busnes Oakdale** ac Ystâd Ddiwydiannol Penyfan yn cynnwys rhyw gilomedr sgwâr (106 hectar) o dir sy'n cael ei ddefnyddio i gyflogi pobl arno neu wedi ei gynllunio i wneud hynny. Mae wedi cymryd 6 mlynedd a £10 miliwn i adfer y Parc Busnes. Mae llawer o fuddsoddwyr wedi eu denu yno eisoes ac mae cynlluniau yn eu lle i ddatblygu'r safle ymhellach, yn darparu amrywiaeth o adeiladau fydd yn diwallu anghenion busnesau modern. Mae llwyddiant y Parc Busnes yn allweddol i sicrhau ffyniant economaidd trigolion y Fwrdeistref Sirol, ac wrth wireddu un o brif swyddogaethau'r TCG - sef darparu cyfleoedd gwaith i drigolion Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd. Bydd parhau i ddynodi Oakdale fel safle i'w ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth o dan **Bolisi EM1**, ynghyd â gwarchod nifer o safleoedd o dan **Bolisi EM2**, yn helpu'r broses o dyfu'r economi yn yr ardal.

3.79 **Ystrad Mynach** a'r **Coed Duon** ynghyd â safle cyflogaeth **Oakdale / Penyfan** a **Bargod** yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, sy'n ffurfio craidd cytref canol y cymoedd. Mae gan brif drefi'r gytref rôl allweddol i'w chwarae fel prif ganolfannau

ar gyfer cymunedau mwy difreintiedig yn bellach i'r gogledd yn Ardal Adfywio'r Cymoedd. Mae ganddynt botensial i gysylltu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y gogledd gyda chyfleoedd economaidd, diwylliannol a hamdden sydd ar gynnig yn ardal canol y Cymoedd ac yn ne'r Fwrdeistref Sirol.

3.80 Gwasanaethir **Ystrad Mynach** yn dda o ran trafnidiaeth, gan ei bod wedi ei lleoli ar hyd prif reilffordd Rhymni i Gaerdydd, ac mae modd parcio a theithio yno. Mae mewn lleoliad o bwys strategol lle mae'r A469 a'r A472 yn cwrdd. Yn sgil ei safle strategol, mae nifer o wasanaethau cyhoeddus wedi eu lleoli yno, yn cynnwys coleg addysg bellach a gorsaf heddlu ardal. Cryfhawyd ei rôl fel prif ganolfan llywodraeth leol pan adeiladwyd prif swyddfeydd y Cyngor yn Nhredomen. Y newid mwyaf arwyddocaol fydd adeiladu ysbyty cyffredinol lleol newydd yn 2010, a fydd yn gwasanaethu'r Fwrdeistref Sirol i gyd. Mae presenoldeb yr holl wasanaethau hyn yn golygu bod Ystrad Mynach hefyd yn ganolfan gyflogaeth o bwys, gyda'r swyddogaeth honno yn cynyddu dros gyfnod y Cynllun.

3.81 **Y Coed Duon** yw prif dref Dwyrain Canol y Cymoedd. Mae llawer o fuddsoddi preifat a chyhoeddus wedi digwydd yno dros y blynyddoedd diwethaf, gyda datblygiad nifer arwyddocaol o unedau manwerth yng ngogledd a de'r dref. Mae yn y dref bellach fwy o ofod manwerthu nag unrhyw ganol tref arall yn y Fwrdeistref Sirol, yn cynnwys Caerffili. O ganlyniad, mae'n cael ei chydabod fwyfwy fel canolfan siopa isranbarthol deniadol, yn denu pobl o ddalgylch eang. Mae CACI (arbenigwyr marchnata blaenllaw) yn amcangyfrif bod trosiant blynyddol y dref, o nwyddau y gellir eu cymharu, yn rhyw £46m ac yn ei gosod yn rhif 22 yn y tabl o brif ganolfannau manwerthu yng Nghymru.

3.82 Gellir cyrraedd y dref yn hawdd mewn car o Barc Busnes Oakdale (safle cyflogi mwyaf y

Fwrdeistref Sirol) ar hyd Pont y Siartwyr yn y gogledd. Mae potensial mawr felly i fanteisio i'r eithaf ar y berthynas rhwng y dref a'r parc busnes.

3.83 Ers creu Ffordd Fenter Sirhywi a'r buddsoddiad yng Ngorsaf Bysiau newydd y Coed Duon mae'r dref yn llawer mwy hygyrch. Mae angen, fodd bynnag, ystyried gwella'r cysylltiadau rhwng y dref ac Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd. Mae angen ystyried cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus mwy cyson gyda llinell drên Cwm Rhymni yn Ystrad Mynach ac i ystyried cysylltiadau newydd gyda llinell drên Cwm Ebwy yn Nhrecelyn. Mae hefyd angen sicrhau bod y rhwydwaith heolydd strategol yn cael ei wella mewn mannau allweddol, er mwyn sicrhau ei bod hi'n hawdd symud rhwng y Coed Duon ac Ystrad Mynach. Mae hyn oll yn dangos yr angen am rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus eang ar gyfer cytref canol y cymoedd. Mae **Polisi TR2** yn caniatáu darparu gwasanaeth newydd i deithwyr rhwng Ystrad Mynach a Bedlinog, tra bo **Polisiâu TR3** a **TR4** yn galluogi agor gorsafoedd newydd yn Ffos-y-Gerddinen a Chrymlyn a chyfleusterau parcio a theithio ym Mhengam ac Ystrad Mynach. Bydd hyn oll yn gwneud y mwyaf o'r gwelliannau sydd wedi digwydd i'r rhwydwaith trenau dros y blynyddoedd diwethaf.

3.84 Bydd y Coed Duon yn allweddol i lwyddiant y TGC wrth wasanaethu anghenion ei thrigolion a'r boblogaeth ehangach o'i chwmpas, yn cynnwys Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd. Bydd y pwyslais dros gyfnod y Cynllun y Coed Duon ar adeiladau ar ei chryfderau fel canolfan siopa isranbarthol wych a pharhau i wella darpariaethau manwerthu'r dref, tra'n datblygu swyddogaeth newydd fel canolfan gyflogi, yn enwedig mewn swyddfeydd. Bwriad **CM2.1**, **CM4.4** ac **CM5.2** yw annog datblygiadau manwerthu, hamdden masnachol a swyddfeydd yn y Coed Duon, gan felly ganiatáu creu economi lleol amrywiol.

3.85 Mae canolfannau lleol y TCG yn cynnwys Ffos-y-Gerddinen yn y gorllewin, y bydd ei phwysigrwydd i dwristiaeth a chyflogaeth yn cynyddu, a Threcelyn yn y dwyrain, a ddaeth yn lleoliad pwysig ar gyfer datblygiadau cynaliadwy yn sgil agor gorsaf reilffordd newydd yno.

3.86 **Ffos-y-Gerddinen** yw'r annedd fwyaf gorllewinol yn ardal Cynllun Cymunedol Gorllewin Canol y Cymoedd. Mae ar safle o bwysigrwydd strategol ar yr A472, ryw 2 filltir o'i chyffordd â'r A470.

3.87 Mae yng nghanol pentref Ffos-y-Gerddinen amrywiaeth o siopau bychain a gwasanaethau sy'n gwasanaethu pentrefi cyfagos fel Treharris, Trelewis a Mynwent y Crynwyr, yn ogystal â Ffos-y-Gerddinen ei hun. Mae gwelliannau diweddar i'r orsaf fysiau ganolog wedi gwneud y pentref lawer yn fwy hygyrch i'r ardal o'i gwmpas.

3.88 Mae'r llwybr seiclo cenedlaethol (47) yn mynd drwy Ffos-y-Gerddinen, ger Parc Coetir y Wern ac yn cysylltu'r ardal a Pharc Cymunedol Penalltau. Mae'r rhain yn creu cefnlen wledig ddeniadol i Ffos-y-Gerddinen. Mae Parc Coetir y Wern hefyd yn gyswllt gwerthfawr i ganol hanesyddol y pentref ar gyfer ymwelwyr a'r Parc. O gofio'r amrywiaeth o atyniadau ymwelwyr hanesyddol sydd yn yr ardal, yn cynnwys amgueddfa Hanes byw Llancaeath Fawr, gallai fod potensial twristiaeth mawr yn Ffos-y-Gerddinen. Mae **Polisi TM1** yn dynodi Llancaeath Fawr fel Twristiaid, ac felly'n cydnabod ei bwysigrwydd yn hyn o beth a'i bwysigrwydd i'r economi leol yn gyffredinol.

3.89 Cynigir safle cyflogaeth mawr yn Nhŷ Du, ar gyrion Ffos-y-Gerddinen. Mae'r tir hwn wedi ei neilltuo ar gyfer cyflogaeth ers blynyddoedd lawer. O gofio mor agos y mae'r tir hwn at ganolfan swyddfeydd pwysig Ystrad Mynach, mae cyfle i hybu Ffos-y-Gerddinen fel lleoliad gwych ar gyfer datblygiadau cyflogaeth arloesol

neu fel canolfan addysg uwch i gyd-fynd a Chanolfan Fusnes Tredomen.

3.90 Mae **Trecelyn** mewn safle pwysig ar y groesffordd rhwng yr A472 a'r A467. Mae agor Rheilffordd Cwm Ebwy a'r atalfa drenau yn Nhrecelyn wedi bod yn fodd i gysylltu'r dref gyda'r Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol ac Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd yn y gogledd. Bydd y gwelliannau i'r seilwaith trafniadaeth gyhoeddus, yn cynnwys cyfleuster parcio a theithio sylweddol, yn cynnig cyfleoedd i amrywio'r economi a chynyddu'r tebygrwydd o ddenu buddsoddiad newydd i'r ardal.

3.91 Mae amrywiaeth o siopau annibynnol bychain a gwasanaethau yn gwasanaethu Trecelyn a'r ardal o'i chwmpas yng nghanol y dref ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun yn pwysleisio cryfderau presennol Trecelyn fel canolfan siopa ardderchog a pharhau i wella'r hyn sydd ar gynnig o ran manwerthu yn y dref, tra'n amrywio canol y dref drwy ailddatblygu nifer o safleoedd tir llwyd i greu cyfleoedd economaidd addas, cyfleusterau diwylliannol yn y 'Memo', tai, gofod cyhoeddus agored a chyfleusterau parcio ceir.

3.92 Mae hen safle Gwaith Glo De Celynnen o fewn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol ond hefyd yng nghefnwlad Trecelyn. O ganlyniad, bydd ailddatblygu'r safle hwn ar gyfer tai yn amrywio'r stoc dai sydd ar gael yn yr ardal a rhagwelir y bydd hyn, ynghyd a'r amrywiaeth o gyfleusterau hamdden a chwaraeon sydd yn yr ardal, yn helpu i ddenu pobl ifanc i aros yn ardal Trecelyn.

3.93 Pan fo safleoedd addas ar gael, bydd datblygiadau tai yn cael eu canolbwyntio ar gytref canol y cymoedd, ynghyd â Ffos-y-Gerddinen, Hengoed, Tir y Berth a Maes-y-cymer, sydd oll â chysylltiadau da â'r rhwydwaith trenau. Caniateir datblygiadau tai cyfyngedig hefyd ym mhentrefi Gelligaer a Thrinant, lle mae angen amrywio'r stoc dai i gynnal dichonolrwydd yr anheddau.

3.94 Mae **Polisi HG1** yn mynd i'r afael yn benodol â thai, ac yn dynodi tir ar gyfer datblygu yn yr anheddau a grybwyllwyd. Mae cyfleusterau cymunedol a gofod agored hefyd yn angenrheidiol i greu anheddau cynaliadwy. O ganlyniad, mae **Polisiau CF1** ac **LE1** yn sicrhau y bydd y cyfleusterau hyn ar gael.

3.95 Yr A472 yw'r prif lwybr teithio rhwng dwyrain a gorllewin yn yr ardal. Mae'r rhan rhwng Trecelyn a'r Coed Duon yn ffordd ddeuol fodern, ond mae gweddill y llwybr yn israddol i'r swyddogaeth y mae'r strategaeth wedi ei rhoi iddi. Mae gofid yn arbennig am y rhan rhwng cylchdro'r Crown a chylchdro Cwm Du, drwy Faesycwmer. Mae'r Cyngor yn ystyried potensial gwella'r rhan hon, a'r opsiynau o wneud hynny, ac os yn briodol bydd adolygiadau o'r CDLI yn y dyfodol yn nodi'r rhain, pan, a phryd, y byddan nhw'n codi.

3.96 Mae'r A472 yn para yn ei blaen y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol i Abercynon yn y gorllewin a Phontypridd yn y dwyrain. Dylid archwilio effeithlonrwydd y rhannau o'r A472 sy'n ffyrdd sengl yng nghyd-destun rhanbarth ddinesig De-ddwyrain Cymru.

3.97 Roedd ailgyflwyno gwasanaethau trên i deithwyr ar linell Cwm Ebwy yn 2008 yn ddatblygiad i'w groesawu, ond nid yw hyn yn newid y ffaith y bydd gofyn i'r gwasanaeth greu cyswllt a Chasnewydd a darparu trenau mwy cyson a mwy o orsafoedd os ydyw i fod yn ddewis gwir gynaliadwy i drafniadaeth ffordd yn yr ardal hon.

Polisiau Cdll Sy'n Benodol I Ardaloedd

HUNANIAETH ANHEDDAU

Lletemau Glas

SI1 Aberbargod, Cefn Fforest a Phengam

SI1.7 Penpedairheol, Gilfach a Thir y Berth

SI1.8 Y Coed Duon, Cwm Gelli a Cefn Fforest

SI1.9 Y Coed Duon, Oakdale a Phenmaen

SI1.10 Croespenmaen a Threowen

SI1.11 I'r gorllewin o Ffos-y-Gerddinen

SI1.12 Gelligaer, Penybryn a Phenpedairheol

SI1.13 Pengam, Y Coed Duon a Phontllanfraith

SI1.14 Trecelyn ac Abercarn

SI1.15 Cefn Hengoed, Hengoed, Ystrad Mynach a Threlyn

SI1.16 Maes-y-cymer, Pontllanfraith a Threlyn

SI1.17 Maes-y-cymer ac Ystrad Mynach

3.98 Mae'r Cyngor yn ystyried yr angen i nodi a chynnal ardaloedd o dir agored rhwng ardaloedd trefol ac o fewn ardaloedd trefol er mwyn sicrhau nad ydynt yn ymdoddi i'w gilydd yn bwysig. Bydd hyn yn gwarchod integriti'r amgylchfyd naturiol ac adeiledig. O fewn lletemau glas, y bwriad yw osgoi datblygiadau fydd yn niweidio'r tir agored hwn.

3.99 Mae deuddeg o letemau glas wedi eu nodi yn y CDLI, a dim ond pan fo'u defnydd yn cyd-fynd neu yn gwella'r lletemau y bydd cynigion datblygu yn cael eu hystyried. Mae disgrifiad manwl o ddynodiadau lletemau glas yn **Atodiad 3**.

CADW'R AMGYLCHFYD NATURIOL

Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA)

NH1 **Nodir Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn y lleoliadau canlynol, a byddant yn cael eu gwarchod:**

NH1.2 Comin Gelligaer

NH1.3 Mynydd Eglwysilian

3.100 Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) yn ddynodiadau lleol, anstatudol, sydd am warchod ardaloedd sydd ag ynddynt nodweddion tirweddol, hanesyddol, diwylliannol, bioamrywiol a daearegol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Maen nhw'n elfennau pwysig o'r amgylchfyd naturiol, yn drefol ac yn wledig, ac yn gofnod byw o hanes esblygiad yr ardal. Maen nhw hefyd yn rhoi cyd-destun diwylliannol a gweledol i'r ardal. Mae dynodi ATA yn adlewyrchu'r ffaith bod angen edrych ar y dirwedd yn gyfan, ond gyda phwyslais ar natur 'arbennig' yr ardaloedd unigol.

3.101 Mae dwy Ardal Tirwedd Arbennig wedi eu nodi yn ardal y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol. Bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu gwarchod rhag unrhyw ddatblygu a fyddai'n niweidio'u nodweddion arbennig. Nid bwriad y polisi hwn yw gwahardd unrhyw ddatblygiadau. Bydd rhaid i ddatblygwr, fodd bynnag, brofi na fydd datblygiad yn cael effaith andwyol ar y nodwedd arbennig sy'n gysylltiedig â'r ATA.

3.102 LANDMAP yw'r system wybodaeth genedlaethol sy'n gosod fframwaith i'r ffordd y dylid ystyried tirwedd wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Mae'n rhannu tirwedd yn bum rhan: tirweddau daearegol, tirweddau gweledol a synhwylol, tirweddau cynefin, tirweddau diwylliannol a thirweddau hanesyddol. Mae'r system yn caniatáu i wybodaeth gael ei chasglu, ei threfnu a'i gwerthuso o fewn casgliad data sy'n gyson yn genedlaethol. Mae pob un o'r ATA wedi eu nodi drwy ddefnyddio gwybodaeth a methodoleg dynodi ATA.

Mae hyn yn cydnabod y gall ATA gynnwys darnau bychain o'r dirwedd leol nad yw'n cynnwys yr un graddau o bwysigrwydd tirweddol. Mae disgrifiad manwl o'r dynodiadau ATA yn **Atodiad 1**, sy'n dangos pa nodweddion tirweddol arbennig sydd ymhob ardal.

Tirwedd Lleol o Bwysigrwydd Gweledol (TLIBG)

NH2 Nodir Tirwedd Lleol o Bwysigrwydd Gweledol yn y lleoliad canlynol, a bydd yn cael ei warchod:

NH2.3 Abercarn

- 3.103 Mae Tirweddau o Bwysigrwydd Gweledol (TLIBG) yn ddynodiadau anstatudol sydd a'r bwriad o warchod nodweddion arbennig o dirwedd weledol a synhwyrol y Fwrdeistref Sirol a sut yr ydyn ni'n ymateb i'r dirwedd o'n cwmpas. Mae TLIBG wedi eu nodi yn defnyddio ystyriaethau gweledol a synhwyrol LANDMAP. Mae un Dirwedd o Bwysigrwydd Gweledol yn y TCG.
- 3.104 Caniateir datblygu ddim ond pan fo'n gwarchod, a phan yn briodol, yn gwella nodweddion gweledol a synhwyrol arbennig y TLIBG. Dylai cynigion datblygu brofi bod y nodweddion gweledol a synhwyrol a nodir yn LANDMAP yn mynd i gael eu gwarchod a, phan yn briodol eu gwella, er budd y dirwedd weledol. Mae disgrifiad manwl o'r dynodiadau TLIBG yn Atodiad 2, sy'n crynhoi'r nodweddion gweledol a synhwyrol arbennig o fewn y TLIBG.

Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN)

NH3 Nodir Safleoedd O Bwysigrwydd Cadwraeth Natur yn y lleoliadau canlynol, a byddant yn cael eu gwarchod:

- NH3.1 Afon Rhymni
- NH3.11 Afon Sirhywi
- NH3.12 Afon Ebwy
- NH3.41 Nant-Gau a Choetiroedd Darran , i'r Gogledd o Oakdale
- NH3.42 Caeau Cwm Corrwg, i'r Gogledd o Oakdale
- NH3.43 Coedwig Gwerthnor Isaf, i'r De o Gilfach
- NH3.44 Coedwig Britannia, i'r De of Aberbargoed
- NH3.45 Coedwig a Thip Ty'n-y-Pwll, i'r De o Britannia
- NH3.46 Mynydd Pen-y-Fan, i'r De-ddwyrain o Fanmoel
- NH3.47 Glaswelltiroedd Pen-y-Fan-Fach, Glandŵr
- NH3.48 Coetir Nant Gwynt, Glandŵr
- NH3.49 Llyn a Meysydd Pen-y-Fan, i'r Gorllewin o Bentwyn
- NH3.50 Coed Trinant, i'r Dwyrain o Bentwyn
- NH3.51 Caeau Pentwyn, Pentwyn
- NH3.52 Tyle Pottery Road, i'r Dwyrain o Elligaer
- NH3.53 Waun Rydd, Gelligaer
- NH3.54 Tir i'r De o Ysgol Fabanod Gelligaer, Gelligaer
- NH3.55 Llinell rheilffordd Cwm Afon, i'r gorllewin o Ffos-y-Gerddinen
- NH3.56 Cwm Afon, i'r Gorllewin o Ffos-y-Gerddinen
- NH3.57 Coetir Wern, Ffos-y-Gerddinen
- NH3.58 Morfa Brooklands, i'r Gogledd o Ffos-y-Gerddinen
- NH3.59 Tip Pyllau Tredomen, Ffos-y-Gerddinen

- NH3.60 Meysydd Llancaeath Fawr, Llancaeath
- NH3.61 Coed Gelliau'r Gwellt, i'r Dwyrain o Lancaeath
- NH3.62 Nant Caeach, i'r Gogledd o Lancaeath
- NH3.63 Rhiw Cefn Hengoed, i'r Gogledd o Hengoed
- NH3.64 Dolydd Penalltau, i'r Gorllewin o Hengoed
- NH3.65 Dolydd Llys Gelligaer, i'r Gogledd o Benpedairheol
- NH3.66 Tyle Tir Jackwurain o Benpedairheol
- NH3.67 Coetir Trelyn Uchaf, i'r De o Bengam
- NH3.68 Coetir Clwb Golff y Coed Duon, Coedwig Cefn
- NH3.69 Coed y Gelli, i'r Gogledd o Goedwig Cefn
- NH3.70 Coedwig a Dolydd Cwm Gelli, i'r Gogledd o Goedwig Cefn
- NH3.71 Coetiroedd Glanrafon y Coed Duon, i'r Gogledd-ddwyrain o'r Coed Duon
- NH3.72 Penmaen Carr, i'r Dwyrain o'r Coed Duon
- NH3.73 Y Coed Duon, Y Coed Duon
- NH3.74 Parc Eco Coedwig Cefn, Y Coed Duon
- NH3.75 Coetiroedd Penllwyn, Pontllanfraith
- NH3.76 Nant yr Odyn, i'r Dwyrain o Bontllanfraith
- NH3.77 Dolydd Stad Crown, Pontllanfraith
- NH3.78 Morfa Cylchdro Crown, Pontllanfraith
- NH3.79 Coetir a Dôl Trelyn, Pontllanfraith
- NH3.80 Glaswelltiroedd Ffordd Fenter, Pontllanfraith
- NH3.81 Coed a Llinell Rheilffordd Penalltau, Ystrad Mynach

- NH3.82 Coetiroedd Tir Twyn, Ystrad Mynach
- NH3.83 Coedcae Mawr, Ystrad Mynach
- NH3.84 Coetiroedd a Dolydd Maes-y-cymer, Maes-y-cymer
- NH3.85 Dôl Bryn Ysgafn, Telyn
- NH3.86 Tyle Victoria Road, Trelyn
- NH3.87 Coetiroedd Penmaen, Penmaen
- NH3.88 Cwm Dows, i'r Dwyrain o Benmaen
- NH3.89 Coed Cwm Philkins, i'r Dwyrain o Benmaen
- NH3.90 Caeau Cyncoed, i'r Dwyrain o Benmaen
- NH3.91 Coetiroedd Pentwyn Isaf, Pentwyn mawr
- NH3.92 Coetiroedd Glan-Brynar, Pentwynmawr
- NH3.93 Dôl Greenlands, Pentwynmawr
- NH3.94 Caeau Ton-y-Pistyll, Pentwynmawr
- NH3.95 Gwarchodfa Natur Valentec, i'r Gogledd o Groespenmaen
- NH3.96 Morfa Pen- Rhiw, Oakdale
- NH3.97 Caeau Nant Philkins, Oakdale
- NH3.98 Tiroedd Ffatri Remploi, Oakdale
- NH3.99 Coetir Stad Ddiwydiannol Penyfan, Oakdale
- NH3.100 Dôl Pant Glas, Trinant
- NH3.101 Dolydd Hen Fferm Crymlyn, Crymlyn
- NH3.102 Cwm Kendon, Crymlyn
- NH3.103 Coetir Llanerch Isaf, Crymlyn
- NH3.104 Coed Goferau, Crymlyn
- NH3.105 Pontbren, i'r Gogledd o Grymlyn
- NH3.106 Coedcae Watkin Dafydd, i'r Dwyrain o Grymlyn
- NH3.107 Coedwig Tŷ Mawr, Rhiw
- NH3.108 Caeau Pant Ysgawen, Treowen
- NH3.109 Pennar- Ganol, i'r De o Drecelyn
- NH3.110 Pen Rhiw Bica, i'r De o Drecelyn
- NH3.111 Coed Gawni, i'r Dwyrain o Drecelyn

- NH3.112 Coed Cil-Lonydd, i'r Dwyrain o Drecelyn
- NH3.113 Mynydd Maen, i'r Dwyrain o Drecelyn
- NH3.114 Coedcae Newydd, Gelligroes
- NH3.115 Morfa Tŷ Bach, i'r Dwyrain o Wyll
- NH3.116 Coetiroedd Heol Ddu, Wyllie
- NH3.117 Coetiroedd Llanbradach Fawr, i'r Gogledd o Lanbradach
- NH3.118 Tyle Mynydd Bach, i'r Dwyrain o Lanbradach
- NH3.119 Coed Mawr, l'r Gogledd o Lanbradach
- NH3.120 Mynydd Eglwysilan, i'r Gogledd o Senghennydd
- NH3.121 Tir ar Tair Waun Uchaf Isaf a Fferm Cwmheldeg, Senghennydd
- NH3.122 Cyforgors Nant Caedudwg, i'r Gogledd o Senghennydd

3.105 Mae Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN) yn adnodd bioamrywiaeth pwysig sy'n cynnwys ardaloedd sylweddol o gynefinoedd a rhywogaethau. Mae'r dynodiadau yn seiliedig ar feini prawf gwyddonol gwrthrychol sy'n cyd-fynd a'r canllawiau Cymru gyfan sy'n cael eu datblygu. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob safle sy'n cwrdd â'r meini prawf dynodi.

3.106 Caniateir datblygu fel arfer pan na fydd yn effeithio'n andwyol ar nodweddion arbennig y SBCN. Pan fo niwed yn annatod dylid sicrhau yr achosir cyn lleied o niwed a phosibl drwy fesurau fydd yn gwneud

iawn amdano, a sicrhau na fydd gwerth cadwraethol yr ardal gyffredinol neu'r nodwedd yn cael ei niweidio. Pan nad yw hyn yn bosibl, dylid ymgorffori mesurau sy'n cadw, gwella a rheoli cynefinoedd a rhywogaethau sy'n nodweddiadol o'r ardal, yn cynnwys manylion ynghylch adfer ac adennill. Mae disgrifiad o'r SBCN dynodedig yn **Atodiad 4**.

MWYNAU

Parthau Clustogi Mwynau

- MN1 Nodir parthau clustogi o gwmpas y safleoedd mwynau canlynol:
 - MN1.2 Chwarel Bryn - Gweithredol
 - MN1.3 Chwarel Hafod Fach - Gweithredol
 - MN1.4 Chwarel Gelligaer - Gweithredol
 - MN1.5 Chwarel Caerllwyn - Segur
 - MN1.6 Pwll Graean Fferm Darren Felin - Segur
- 3.107 Disgrifir y cyfyngiadau datblygu sydd ynghlwm wrth y parthau hyn ym **Mholisi CW23** yn ail adran y Cynllun.
 - Gwarchod Mwynau
 - MN2 Nodir ardaloedd gwarchod mwynau yn y mannau canlynol:
 - MN2.6 El'r dwyrain o Ffos-y-Gerddinen - Glo
 - MN2.7 I'r gogledd o Bentwynmawr - Glo
 - MN2.8 I'r gogledd-ddwyrain o Ffos-y-Gerddinen - Tywod a Graean

3.108 Mae Nodyn Cyngor Technegol Glo (MTAN 2 - Glo) yn dweud ei bod hi'n angenrheidiol i awdurdodau cynllunio lleol warchod adnoddau glo i'r dyfodol. Nid yw'r ffaith fod yr adnoddau yn cael eu gwarchod yn awgrymu y bydd gwaith o anghenraid yn cael ei ganiatáu yn y dyfodol, ond mae'n gwarchod y safle rhag cael ei ddifwyno gan ddatblygiadau eraill.

3.109 Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 - Agregau yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau cynllunio lleol i warchod adnoddau tywod a graean tir fel dewis o'r môr.

3.110 Mae Papur Cefndir 5 yn rhoi gwybodaeth fanwl am yr adnoddau glo a thywod a graean o fewn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol.

TAI

Safleoedd Tai Dynodedig

Mae tir wedi ei ddynodi ar gyfer tai ar hyd a lled y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol fel a ganlyn:			
Enw'r Safle	Annedd	Maint (ha)	Unedau
HG1.23 Tir o fewn cwrtil Tafarn Pentwyn +	Trinant	0.4	19
HG1.24 Tir oddi ar Brynhoward Terrace	Oakdale	2.20	77
HG1.25 Gardd randir, Llwyn onn Lanw +	Oakdale	1.37	49
HG1.26 Gorsaf Ambiwylans y Coed Duon	Y Coed Duon	0.68	24
HG1.27 Pencoed Avenue +	Coedwig Cefn	1.87	65
HG1.28 Tir i'r dwyrain o Bryn Road	Coedwig Cefn	0.68	24
HG1.29 I'r de o Thorncombe Road +	Y Coed Duon	0.34	12
HG1.30 Tir ym Mharc Hawtin	Pontllanfraith	5.55	194
HG1.31 Oak Terrace	Trelyn	0.69	21
HG1.32 Tir-y-berth	Hengoed	4.95	173
HG1.33 Gwaith Glo Penalltau +	Ystrad Mynach	27.18	689
HG1.34 Iard Penalltau +	Ystrad Mynach	0.29	10
HG1.35 Tir ar New Road	Ystrad Mynach	0.54	18
HG1.36 Tir oddi ar Valley View +	Hengoed	1.46	31
HG1.37 Ysgol Gynradd Greenhill	Gelligaer	2.8	32
HG1.38 Tir i'r dwyrain o Handball Court	Ffos-y-Gerddinen	3.36	90
HG1.39 Safle'r Farchnad Wartheg +	Ffos-y-Gerddinen	0.62	12
HG1.40 Tir ar Gellideg Heights	Maes-y-cymer	3.91	137
HG1.41 Tir ar Tŷ Pwll +	Cefn-y-Pant	0.64	16
HG1.42 Tir i'r gorllewin o Old Pant Road	Cefn-y-Pant	2.2	56
HG1.43 The Stores, Albertina Road +	Trecelyn	0.41	10
HG1.44 Tir ar Barc Fields	Trecelyn	2.30	80
HG1.45 Pennar Lane +	Trecelyn	4.00	63
HG1.46 Modurdy Chris Bowen +	Trecelyn	0.08	16
CYFANSWM		68.52	1,918

+ Roedd gan y safle ganiatâd cynllunio o 1 Ebrill 2007

- 3.111

Mae dynodi safleoedd ar gyfer datblygiadau preswyl yn bwysig i sicrhau y bydd digon o dir ar gael i ddiwallu anghenion y boblogaeth gynyddol a ragwelir i'r dyfodol. Mae cyfanswm o **1,918** o unedau wedi eu dynodi yn y TCG, mewn nifer o safleoedd, er mwyn adlewyrchu swyddogaethau'r anheddau. Yn yr ardal hon, mae **68%** o'r cartrefi wedi eu dynodi ar dir llwyd.
- 3.112

Mae tir sydd wedi ei ddynodi o dan y polisi hwn yn cynnwys:
 - Safleoedd gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer tai neu ddefnydd cymysg yn cynnwys tai o 1 Ebrill 2007 (yn amodol ar arwyddo Cytundeb Adran 106 mewn rhai achosion).
 - Safleoedd newydd sydd wedi eu nodi'n addas ar gyfer datblygiadau preswyl neu
- ddefnydd cymysg yn cynnwys tai, yn sgil proses asesu trylwyr ar ddarpar safleoedd.
- 3.113

Mae disgrifiadau manwl o'r dynodiadau safle hyn yn **Atodiad 7**. Mae **Atodiad 8** yn egluro'r arolygon a'r wybodaeth ychwanegol fydd angen eu cynnwys fel rhan o geisiadau cynllunio yn y dyfodol.
- 3.114

Bydd angen i ganran o'r tai fod yn rhai fforddiadwy yn y safleoedd hyn, yn unol â **Pholisi CW11** pan fo tystiolaeth o angen.
- 3.115

Awgrym yw'r nifer o unedau a nodir ar gyfer pob safle ac mae'n bosib y bydd mwy neu lai o dai yn dderbyniol pan fo datblygiad yn diwallu anghenion polisi eraill, yn cynnwys cynllun, cynladwyedd a datblygu eang.

CYFLOGAETH

Dynodiadau Cyflogaeth

EM1 Mae'r safleoedd canlynol wedi eu dynodi ar gyfer cyflogaeth, yn unol â'u statws o fewn yr hierarchaeth gyflogi:

	Enw'r Safle	Annedd	Maint (ha)	Math
EM1.2	Tŷ Du	Ffos-y-Gerddinen	18.8	Parc Busnes
EM1.3	Llwyfandir 1, Parc Busnes Oakdale	Oakdale	30.2	Prif Safle
EM1.4	Llwyfandir 2, Parc Busnes Oakdale	Oakdale	7.0	Prif Safle
EM1.5	Llwyfandir 3, Parc Busnes Oakdale	Oakdale	3.4	Prif Safle
EM1.6	Llwyfandir 4, Parc Busnes Oakdale	Oakdale	4.3	Prif Safle
EM1.7	Parc Hawtin gogledd	Gellihaf	4.5	Prif Safle
EM1.8	Parc Hawtin de	Gellihaf	8.8	Prif Safle
EM1.9	Parc Busnes Dyffryn gogledd	Ystrad Mynach	4.9	Prif Safle
EM1.10	Parc Busnes Dyffryn de	Ystrad Mynach	6.3	Prif Safle
EM1.11	Estyniad Penallta	Hengoed	1.6	Safle Eilradd

+ C/C 1af Ebrill 2007

- 3.116

Mae'r parc busnes yn Ffos-y-Gerddinen wedi ei ddynodi ar gyfer defnydd dosbarth B1 yn unig, sef datblygiad wedi ei seilio ar swyddfeydd. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf a'r sectorau gwasanaethu, masnachol ac ariannol. Mae gan y ddau olaf yn enwedig swyddogaeth bwysig i'w chyflawni wrth feithrin menter a datblygu diwylliant o fentergarwch. Mae'r rhain yn ffactorau sydd yn allweddol i dwf cynaliadwy yn yr economi leol, a rhanbarthol o ran hynny.
- 3.117

Ar hyn o bryd, mae cyfuniad o ddefnydd yn y prif safleoedd sydd wedi eu dynodi ac o ganlyniad ystyrir nhw yn addas ar gyfer Dosbarth B1, B2 a B8, sef swyddfeydd,
- diwydiant ysgafn a chyffredinol a defnydd warws. Mae disgwyl i gynigion am ddatblygu tir gwag yn y safleoedd hyn hefyd fod â defnydd tebyg.
- 3.118

Mae'r safle a ddisgrifir fel Estyniad Penallta yn cael ei ystyried fel un sy'n addas ar gyfer defnydd sui generis yn ogystal â Defnydd Dosbarthiadau B1, B2 a B8. Gall defnydd sui generis chwarae rôl bwysig ym mhatrwm economaidd y Fwrdeistref Sirol, er ei bod hi'n bwysig eu bod yn ategu a chefnogi'r defnydd a wneir ar fusnesau o'u cwmpas, yn hytrach na bod yn niweidiol iddynt.
- 3.119

Mae disgrifiad manwl o'r dynodiadau hyn yn **Atodiad 9**.

Gwarchod Safleoedd Cyflogaeth

EM2 Mae'r safleoedd canlynol wedi eu dynodi ar gyfer cyflogaeth, yn unol â'u statws o fewn yr hierarchaeth cyflogi:

EM2.7	Swyddfeydd Dŵr Cymru, Ffos-y-Gerddinen	Parc Busnes
EM2.8	Tredomen, Ystrad Mynach	Parc Busnes
EM2.9	Llwyfandir 2, Parc Busnes Oakdale	Prif Safle
EM2.10	Penyfan, Croespenmaen	Prif Safle
EM2.11	Gogledd Celynen, Trecelyn (i'r de o ffordd fynediad y safle)	Prif Safle
EM2.12	Parc Hawtin, Gellihaf	Prif Safle
EM2.13	Parc Busnes Dyffryn	Prif Safle
EM2.14	Gogledd Celyned, Trecelyn (i'r gogledd o ffordd fynediad y safle)	Safle Eilradd
EM2.15	Croespenmaen	Safle Eilradd
EM2.16	Britannia, Pengam	Safle Eilradd
EM2.17	Dewi Sant, Pengam	Safle Eilradd
EM2.18	New Road, Tiryberth	Safle Eilradd
EM2.19	Penallta	Safle Eilradd
EM2.20	Trecelyn Road, Pontllanfraith	Safle Eilradd
EM2.21	Tram Road, Pontllanfraith	Safle Eilradd
EM2.22	Switchgear, Pontllanfraith	Safle Eilradd
EM2.23	Penmaen	Safle Eilradd
EM2.24	Woodfieldside, Penmaen	Safle Eilradd

3.120 Yn ogystal â thir wedi ei ddynodi ar gyfer datblygiadau cyflogaeth yn y dyfodol (**Polisi EM1**), mae nifer o safleoedd eisoes yn y Fwrdeistref Sirol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyflogaeth. Bydd safleoedd fel y rhain yn cael eu gwarchod rhag datblygiadau y tu allan i'r defnydd sydd wedi ei nodi yn y categori perthnasol (e.e. defnydd dosbarth B1 yn unig ar gyfer Parciau Busnes). Bydd y polisi hwn yn gweithio ar y cyd gyda **Pholisi CW13** yn hyn o beth.

3.121 Mae Parc Busnes Tredomen yn ddelfrydol ar gyfer defnydd yn seiliedig ar swyddfeydd o ansawdd uchel, yn canolbwyntio ar arloesedd a menter o fewn yr economi leol. Mae'n lleoliad allweddol i ddatblygiad y cysyniad o waith partneriaeth fel modd i sicrhau twf economaidd, yn enwedig rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus, o gofio bod canolfan newydd y Cyngor yno. O ganlyniad, gwarchodir y safle hwn fel un ar gyfer Defnydd Dosbarth B1 yn unig. Mae yn y prif safleoedd dynodedig ar hyn gymysgedd o ddefnydd. Fe'u hystyrir felly yn addas ar gyfer Defnydd Dosbarth B1, B2 a B8. Yn y safleoedd sydd wedi eu nodi fel rhai eilradd mae'r polisi gwarchod hwn hefyd yn caniatáu defnydd sui generis. Gall defnydd sui generis chwarae rôl bwysig ym mhatrwm economaidd y Fwrdeistref Sirol, er ei bod hi'n bwysig eu bod yn ategu a chefnogi'r defnydd a wneir ar fusnesau o'u cwrmpas, yn hytrach na bod yn niweidiol iddynt.

DATBLYGIAD MASNACHOL

Ffiniau Prif Ganol Trefi

- CM1 Diffinnir ffiniau prif ganol trefi'r Dramwyfa Cysylltiadau Cyhoeddus fel a ganlyn:
 - CM1.2 Y Coed Duon
 - CM1.3 Ystrad Mynach

3.122 Mae'r polisi hwn yn diffinio ffiniau'r ddau Brif Ganol Tref yn y TCG. Mae gan y Prif Drefi nifer o swyddogaethau wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn eu dalgylch. Nhw yw'r prif ganolfannau siopa, ond maent hefyd yn ganolfannau gwasanaethau masnachol, a chanolfannau gweithgareddau hamdden masnachol hefyd. O ganlyniad, maent hefyd yn gyflogwyr mawr. Mae polisiâu manwerthu felly wedi eu llunio, gyda'r bwriad o warchod a gwella eu hyfywedd a dichonolrwydd masnachol. Mae'r polisi hwn yn gweithio ar y cyd gyda **Pholisi CW14**.

3.123 Prif fwriad y strategaeth manwerthu yw parhau i gynyddu darpariaeth manwerthu yn y Fwrdeistref Sirol drwy hybu cynnydd yn y nifer o ganolfannau siopa o ansawdd uchel sy'n cadw'r nodweddion cyfredol gorau a hybu buddsoddiadau siopa newydd a gwelliannau amgylcheddol. Mae'r polisiâu felly yn bwriadu canolbwyntio datblygiadau manwerthu o fewn y canolfannau siopa presennol a diffinio ffiniau canolfannau er mwyn cynnal mathau penodol o siopau.

3.124 Y Coed Duon yn y TCG (a Chaerffili yn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol) yw'r mwyaf o bell ffordd yn nhermau maint lloriau gwerthu, darpariaeth a chyfleusterau hamdden o'u mewn. Maen nhw lawer yn fwy na'r tair prif ganolfan arall. Mae datblygiadau manwerthu mawr newydd wedi eu lleoli yng Nghoed Duon, yng Ngogledd Y Coed Duon a Phorth Y Coed Duon. Y bwriad yn y ddwy dref, felly, yw cynnal a chynyddu'r gwelliant sydd eisoes wedi digwydd i'w statws, hyfywedd a

dichonolrwydd. Disgwylir i ddatblygiadau swyddfa newydd hefyd ymleoli yng Nghoed Duon.

3.125 Er bod archfarchnad Tesco a Lidl yn Ystrad Mynach, mae ei swyddogaethau swyddfa ac iechyd yn bwysicach. Dyma lle mae prif ganolfan y Cyngor a bydd ysbyty newydd yn cael ei adeiladu cyn bo hir yn y dref i wasanaethu'r TGC a thu hwnt. Mae rhan o'r dref wedi ei dynodi fel ardal sydd mewn perygl o lifogydd, fodd bynnag. Bydd angen i gynigion datblygu yn y dyfodol fynd i'r afael a'r mater hwn.

3.126 Dangosir ffiniau'r ddwy Brif Ganol Tref hyn yn y Map Cynigion a hefyd mewn cynlluniau mwy o faint yn **Atodiad 11**.

Ffiniau Parc Warws

Manwerthu'r Coed Duon

- CM2 Diffinnir ffin y Parc Warws Manwerthu yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol fel a ganlyn:
 - CM2.1 Porth Y Coed Duon, Y Coed Duon

3.127 Y Coed Duon yw un o'r canolfannau mwyaf o ran maint lloriau gwerthu, gwasanaethau a chyfleusterau hamdden o'u mewn. Mae datblygiad manwerthu newydd wedi cael ei godi hefyd ym Mhorth Y Coed Duon.

3.128 Mae'r Parc Warws Manwerthu hwn yn benodol wedi cael ffiniau pendant er mwyn

hyrwyddo'i ddatblygiad cyn safleoedd eraill mewn lleoliadau anaddas gael eu datblygu. Dewiswyd ef i gyd-fynd a darpariaethau manwerthu presennol eraill Y Coed Duon. Mae'r bwriad, felly, o flaenoriaethu datblygiad yma yn gynaliadwy ac yn cefnogi'r strategaeth manwerthu yn gyffredinol. Bwriad y polisi hwn yw gweithio ar y cyd ag anghenion **Polisi CW17**.

3.129 Dangosir ffin ddiffiniedig Parc Warws Manwerthu'r Coed Duon ar y Map Cynigion ac mewn cynllun mwy o faint yn **Atodiad 11**.

Gwarchod Prif Ardal ar gyfer Canol Prif Dref Coed Duon

- CM3 Nodir prif ardal fanwerthu yn y lleoliad canlynol:
 - CM3.1 Stryd Fawr, Y Coed Duon

3.130 Mae ffin Prif Ardal Manwerthu Coed Duon wedi ei gosod yn fanwl, er mwyn galluogi cynnwys defnydd A2 ac A3 newydd o fewn y rhan fawr sy'n weddill o'r ganolfan manwerthu. Nid yw'r polisi yn cyfyngu ar y defnydd hwn, felly, gan fod ganddynt rôl bwysig i'w chyflawni wrth greu canol tref bywiog, ond yn lleihau ei effaith negyddol ar y craidd siopa. Bwriedir i'r polisi hwn weithio ar y cyd gydag anghenion **Polisi CW14**.

3.131 Dangosir ffiniau Prif Ardal Manwerthu Coed Duon ar y Map Cynigion. Mae hefyd mewn cynllun mwy o faint yn **Atodiad 11**.

Safleoedd Datblygu Prif Drefi a Chanolfannau Lleol

CM4 Mae'r safleoedd Prif Drefi a Chanolfannau Lleol wedi eu dynodi ar gyfer manwerthu, hamdden fasnachol a datblygiadau swyddfa:				
	Enw'r Safle	Annedd	Maint (ha)	Math o Gynnig
CM4.4	Safle Maes Parcio, Cefn High Street	Coed Duon	0.1	Swyddfeydd
CM4.5	Safle'r Porth	Trecelyn	0.3	Swyddfeydd
CM4.6	Gwaith Glo Penallta	Ystrad Mynach	2.0	Manwerthu, Swyddfeydd

3.132 Mae disgrifiad manwl o'r dynodiadau hyn yn **Atodiad 10.**

Ardal Cyfle Masnachol

CM5 **Nodir Ardal Cyfle Masnach yn y lleoliad canlynol:**

CM5.2 **Stryd Fawr, Coed Duon**

3.133 Mae Ardal Cyfle Masnach wedi ei nodi ar gyfer Prif Dref Coed Duon, lle mae'n bosibl y bydd datblygu swyddfeydd yn arbennig o fuddiol. Ni fydd hyn, fodd bynnag, yn golygu na fydd datblygiadau tebyg mewn ardaloedd eraill heblaw'r Prif Ardaloedd yn y canol trefi dynodedig. Bwriad y polisi hwn yw darparu set arall o gyfleoedd i ysgogi twf economaidd pellach yn y Fwrdeistref Sirol. Dangosir ffin Ardal Cyfle Masnach Coed Duon yn y Map Cynigion. Dangosir hi hefyd mewn cynllun mwy o faint yn **Atodiad 11.**

CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

Cyfleusterau Cymunedol

CF1 **Nodir y safleoedd canlynol ar gyfer cyfleusterau cymunedol newydd:**

- CF1.12 **I'r dwyrain o Fynwent Gelligaer, Gelligaer – Estyniad i'r fynwent**
- CF1.13 **Ysgol Gynradd Greenhill, Gelligaer – Ysgol newydd**
- CF1.14 **Ysgol Maesglas, Gelligaer – Meddygfa**
- CF1.15 **Ysgol Penalltau, Ystrad Mynach – Ysgol newydd**
- CF1.16 **Oakfield Street, Ystrad Mynach – Meddygfa**
- CF1.17 **Ystrad Fawr, Ystrad Mynach – Ysbyty Cyffredinol newydd**

- CF1.18 **Neuadd Goffa, Trecelyn – Llyfrgell**
- CF1.19 **Pantside, Trecelyn – Canolfan gymunedol**
- CF1.20 **Drws nesaf i'r Tir Hamdden, Hafodyrynys – Canolfan gymunedol**

3.134 Mae disgrifiadau manwl o'r safleoedd dynodedig hyn yn **Atodiad 14.**

HAMDDEN

Gwarchod Mannau Agored Ffurfiol

LE1 **Mae tir wedi ei warchod ar gyfer mannau agored a defnydd parciau yn:**

- LE1.6 **The Circle, Oakdale**
- LE1.2 **Tir Hamdden, Oakdale**
- LE1.3 **Tir y Welfare, Coedwig Cefn**
- LE1.4 **Parc Coffa Sir Harold Finch, Pontllanfraith**
- LE1.5 **Caeau Libanus, Pontllanfraith**
- LE1.6 **Y Bryn, Pontllanfraith**
- LE1.7 **Parc Islwyn, Pontllanfraith**
- LE1.8 **Parc Caertwmpyn, Trecelyn**
- LE1.9 **Maes Rygbi Trecelyn, Trecelyn**
- LE1.10 **Parc Trelyn, Trelyn**
- LE1.11 **Wern Crescent, Ffos-y-Gerddinen**
- LE1.12 **Parc yr Institute, Hengoed**
- LE1.13 **Parc Maes-y-cymer, Maes-y-cymer**
- LE1.14 **Parc Ystrad Mynach, Ystrad Mynach**

3.135 Mae parciau a gerddi ffurfiol yn ardaloedd dinesig deniadol i'w mwynhau gan y cyhoedd a dylid, felly, eu gwarchod. Dylid osgoi bwyta i'w ffiniau er mwyn datblygu er mwyn iddynt barhau i'r oesoedd a ddel.

3.136 Mae gan lawer o barciau arddangosfeydd blodau, planhigion, meysydd chwaraeon, meysydd chwarae i blant a nodweddion dwr. Tra bo hyblygrwydd yn bwysig mewn datblygiadau er mwyn caniatáu cysgodfeydd, pafiliynau ac adeiladau stori, dylid gwella'r agweddau hamdden bob amser.

Gwarchod Parciau Gwledig

LE3 **Mae Parciau Gwledig sy'n cyfrannu at Barc Rhanbarthol y Cymoedd yn cael eu gwarchod yn y mannau canlynol:**

- LE3.4 **Parc Penallta, Ystrad Mynach**
- LE3.5 **Pwll Penyfan, Croespenmaen**

- 3.137 Mae parciau gwledig yn gyfleusterau mwy o faint a llai ffurfiol, sy'n werthfawr i weithgareddau hamdden a thwristiaeth o fewn cyd-destun gwledig, yn agos at brif ganolfannau poblogaeth y Fwrdeistref Sirol. I gydnabod eu pwysigrwydd i'r dirwedd fel atyniadau ymwelwyr ynddyn nhw eu hunain, ac i sicrhau eu bod yn dal i weithredu felly, mae'r Cynllun yn diffinio eu ffiniau er mwyn eu gwarchod rhag datblygiadau amhriodol.
- 3.138 Mae nifer ohonynt wedi eu datblygu ar dir fu gynt dan ddiwydiannau trwm ond sy bellach wedi eu hadennill. Maen cyfleoedd hamdden amrywiol ynddyn nhw oll. Mae llwybrau seiclo eisoes wedi eu pennu yn y Fwrdeistref Sirol, ac mae'n ymddangos y gallai'r parciau amrywiol sydd ar hyd Cymoedd Rhymni, Sirhywi ac Ebwy fod yn gyswllt pellach i'r llwybr seiclo. Bydd hyn yn bwydo'r rhwydwaith cysylltiadau a fydd yn ei dro yn ffurfio rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd.

Cyfleusterau Hamdden Ffurfiol

LE4 **Nodir tir gyfer cyfleusterau hamdden yn cynnwys meysydd chwarae yn:**

- LE4.7 **Cefn-y-pant, Trecelyn**
- LE4.2 **Drws nesaf i Ysgol Penalltau, Ystrad Mynach**
- LE4.3 **Yr hen Ysbyty, Ystrad Mynach**
- LE4.10 **Tir oddi ar Penallta Road, Ystrad Mynach**

3.139 Mae caeau gemau yn rhan allweddol o ddarpariaeth hamdden ffurfiol y mwyafrif o gymunedau. Wedi cymharu'r nifer

o gyfleusterau o'r fath yn erbyn 'Safon Chwe Erw' y Gymdeithas Caeau Gemau Genedlaethol, gwelwyd bod prinder o gaeau gemau o fewn y Fwrdeistref Sirol.

3.140 Tra bo hyn yn adlewyrchu lleihad cenedlaethol yn y ddarpariaeth, bwriedir safonau'r GCGG fel awgrym o'r hyn y dylai pob awdurdod lleol anelu tuag ato o ran polisiau defnydd tir, er mwyn atal y dirywiad hwn a chynyddu'r nifer o gaeau gemau unwaith eto. O ganlyniad, mae tomen wastraff y gwaith glo gynt wedi ei nodi fel lle i ddatblygu cae gemau newydd. Mae garddio ar randiroedd yn weithgaredd hamdden boblogaidd, ac mae'r diddordeb ynddo wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, mae galw cynyddol am randiroedd ac mae angen gwarchod lleoliadau addas at y diben hwn ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol, yn cynnwys tir oddi ar Penallta Road, Ystrad Mynach.

Gwarchod Mannau Agored Anffurfiol

LE5 **Gwarchodir tir at ddibenion hamdden a chymunedol anffurfiol yn:**

- LE5.4 **Safle hen Waith Glo Oakdale, Oakdale**
- LE5.2 **Drws nesaf i Vernon Place, Croespenmaen**
- LE5.3 **Cefn Oakdale Terrace, Penmaen**
- LE5.7 **Trelyn Uchaf, Y Coed Duon**
- LE5.8 **Fferm Trelyn, Y Coed Duon**
- LE5.9 **I'r de o Barc Islwyn, Pontllanfraith**
- LE5.10 **I'r de i o'r Ganolfan Hamdden, Trecelyn**
- LE5.11 **Pantside, Trecelyn**
- LE5.12 **Ynys Las, Ffos-y-Gerddinen**
- LE5.13 **Drws nesaf i Afon Rhymni, Tiryberth**
- LE5.14 **Drws nesaf i Afon Rhymni, Hengoed**
- LE5.15 **I'r de o Brynawel Road, Hengoed**
- LE5.16 **Dolydd Maes-y-cymer, Maes-y-cymer**

3.141 Mae mannau agored llai ffurfiol ei natur yn aml yn elfennau gweledol pwysig o’r dirwedd faestrefol, ac yn gartref hefyd i fywyd gwyllt. Gallant, yn aml, ddenu’r cymunedau i gyfrannu at brojectau cadwraeth a theimlo perchenogaeth drostynt. Gellir mwynhau cerdded drwy’r ardaloedd hyn, ac weithiau gall seiclwyr eu defnyddio wrth deithio drwy’r ardal.

TWRISTIAETH

Cynigion Twristiaeth

- TM1 **Dynodir safleoedd at ddefnydd gweithgareddau ynghlwm â thwristiaeth yn:**
 - TM1.3 **Llancaeath Fawr a’r ardal**
 - TM1.4 **Dolydd Maes-y-cymer, Maes-y-cymer**
 - TM1.5 **Llwybr Glan Yr Afon Rhymni – Cefn Mabli**
 - TM1.6 **Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, Cangen Crymlyn**

3.142 Mae twristiaeth yn cyfrannu’n sylweddol at economi’r Fwrdeistref Sirol, gydag atyniadau fel Llancaeath Fawr yn ffurfio rhwydwaith o adeiladau a thirweddau hanesyddol. Mae sicrhau bod eu llwyddiant yn parhau yn un o brif amcanion y strategaeth twristiaeth, ac mae datblygu atyniadau eraill yn ffordd effeithiol o hybu adfywiad a chynyddu gweithgaredd economaidd mewn lleoliadau penodol.

3.143 Mae Llwybr Glanrafon Rhymni yn llwybr llinynnol y gellir ei ddatblygu ar hyd rhwydwaith o fannau gwyrdd anffurfiol.

Ar hyn o bryd mae’n dilyn Afon Rhymni tua’r de o Rymni. Mae’n gyfan hyd at y darn o’r afon rhwng Tiryberth a Hengoed, yn Maesycwmer ac yn Ystrad Mynach yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol, lle mae rhannau ar goll. Wedi hynny, mae’n cysylltu anheddau yn y Dramwyfa Cysylltiadau tan Machen, y Draethen a Chefn Mabli. Mae angen gwaith datblygu pellach yno hefyd. Mae’r llwybr yn cynnwys llwybrau cerdded wedi eu tirweddau gyda phwyntiau gwyllo. Mae’r rhain yn golygu y gall ymwelwyr fwynhau’r afon i’r eithaf. Bydd ei warchod yn fuddiol, er mwyn cwblhau’r llwybr cerdded hir.

TRAFNIDIAETH

Llwybrau Seiclo

- TR1 **Bydd tir yn cael ei warchod i hwyluso’r gwelliannau canlynol i’r rhwydwaith llwybr seiclo:**
 - TR1.8 **Llwybr Seiclo Llinellol Cwm Rhymni - Blaenau’r Cymoedd i Fedwas / Caerffili, Gogleddol**
 - TR1.9 **Cysylltiadau Rhwydwaith o Goed Duon/ Pontllanfraith**
 - TR1.10 **Trecelyn / Crymlyn i Crosskeys a Chwm Sirhywi / Cyswllt Seiclo Pontllanfraith**
 - TR1.11 **Cysylltiadau Lleol o Grymlyn**
 - TR1.12 **Cyswllt Lleol o Benallta i Ystrad Mynach**

3.144 Mae gweld cynnydd yn y nifer o siwrneiau ar droed neu ar feic yn rhan allweddol o greu trafnidiaeth fwy cynaliadwy. Mae darparu rhwydwaith lleol o ansawdd dda o lwybrau sydd yno’n unsydd i’w cerdded neu seiclo arnynt yn allweddol i’r twf hwn.

3.145 Nid yw’r llwybrau penodol ar gyfer y gwelliannau uchod wedi eu hystyried yn fanwl eto, ac mae’r cynlluniau wedi eu datblygu i wahano raddau. Dangosir awgrym o drefn y llwybrau ym Map Cynigion y CDLI. Maen nhw’n awgrymu

cyfeiriad cyffredinol y llwybr. Nid yw trefniadau’r llwybrau, felly, yn derfynol.

3.146 Yn ychwanegol at y cynlluniau posibl uchod, rhoddir blaenoriaeth hefyd i Gynlluniau Llwybrau Diogel i Orsafoedd a Llwybrau Cymunedol Diogel.

3.147 Bydd y llwybrau seiclo o fewn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol yn hybu adfywiad a chynladwyedd, yn annog ffyrdd iachach o fyw a chynyddu gweithgareddau corfforol, ac yn cyfrannu at ffyniant economaidd yr ardal.

3.148 Bydd y llwybrau rheilffordd gynt sydd â photensial i’w datblygu at ddibenion trafnidiaeth, yn enwedig y rhai sy’n hyrwyddo cerdded, seiclo, symud nwyddau ar drenau, yn cael eu gwarchod.

3.149 Bydd disgwyl i ddatblygiadau preswyl, gwaith, manwerthu, hamdden ac eraill, ymgorffori darpariaethau i gerddwyr a seiclwyr lle bynnag y bo’n bosibl a chysylltiadau/mynediad i’r rhwydweithiau cerdded a seiclo sy’n cael eu datblygu.

Gwasanaeth Newydd i Deithwyr Trên

- TR2 **Bydd y llinell rheilffordd ganlynol yn cael ei gwarchod er mwyn hwyluso ailagor y llinell i wasanaethau teithwyr**
 - TR2.1 **Llinell rheilffordd Cwm Bargod rhwng Ystrad Mynach a Bedlinog**

3.150 Llinell Cwm Bargod, sy’n gweithredu fel llinell cludo nwyddau ar gyfer gwaith fforio mwynau Ffos-Y-Fran, yw’r llinell drên sylweddol olaf yn y fwrdeistref Sirol nad yw’n cludo teithwyr. Mae llinell Cwm Bargod yn cysylltu Ffos-y-Gerddinen ag Ystrad Mynach a’r gwasanaethau ar linell Cwm Rhymni.

3.151 Byddai ailgychwyn yr arfer o gludo teithwyr ar y llinell hon yn hwyluso symudiadau i ac o Ffos-y-Gerddinen, yn enwedig ar gyfer y defnydd cyflogaeth a gynigir ar gyfer Tŷ Du. Ar hyn o bryd, dyw ailgyflwyno teithwyr i’r llinell ddim yn rhan o unrhyw raglen drafnidiaeth, ond bydd y Cyngor yn parhau i ddilyn hyn drwy bob dull posibl.

Gorsafoedd Trên Newydd

TR3 **Bydd y Cyngor yn nodi a gwarchod tir ar gyfer gorsafoedd trên newydd yn y lleoliadau canlynol:**

- TR3.1 **Ffos-y-Gerddinen**
- TR3.2 **Crymlyn**

3.152 Mae’r Cyngor am weld gorsaf yn Ffos-y-Gerddinen fel rhan o unrhyw ddatblygiad o linell ar gyfer teithwyr yng Nghwm Bargod yn y dyfodol. Byddai’r orsaf newydd hon yn creu cyswllt i Ystrad Mynach a gwasanaethau trên ar linell Cwm Rhymni. Byddai hefyd yn wasanaeth ar gyfer y datblygiadau a gynigir ar gyfer defnydd cyflogaeth ar safle Tŷ Du.

3.153 Mae ailagor gwasanaethau teithwyr ar linell Cwm Ebwy wedi bod yn gyfle gwych i gynyddu’r defnydd ar drenau yn y Fwrdeistref Sirol. Tra bo’r gwasanaethau teithwyr newydd yn cael eu croesawu, mae’r Cyngor yn dal yn awyddus i sefydlu gorsaf yng Nghrymlyn, a fyddai o gymorth mawr i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus i’r prif safle cyflogaeth yn Oakdale.

3.154 Nid yw’r anghenion tir ar gyfer y gorsafoedd newydd wedi cael eu hystyried yn fanwl eto, ac mae’r cynlluniau wedi eu datblygu i wahanol raddau. Mae Map Cynigion y CDLI yn nodi’r lleoliadau cyffredinol sy’n ymwneud a’r polisi, ond nid yw’n ceisio nodi safleoedd penodol ar gyfer y cynigion. O ganlyniad awgrymu yn unig y mae’r dynodiadau, ac ni ddylid eu hystyried fel rhai terfynol.

Cyfleusterau Parcio a Theithio

TR4 Mae’r orsaf ganlynol wedi ei nodi ar gyfer gwell cyfleusterau parcio a theithio:
TR4.3 Pengam

- 3.155 Mae’r gwelliannau diweddar i linell Cwm Rhymni, yn cynnwys trenau mwy cyson a mwy o le ynddynt, a chychwyn gwasanaethau i deithwyr ar linell Cwm Ebwy, yn gyfle gwych i gynyddu’r defnydd ar drenau yn y Fwrdeistref Sirol. Mae darparu cyfleusterau parcio a theithio mewn gorsafoedd yn eu gwneud yn fwy hygyrch ac yn annog teithwyr i ddefnyddio’r trên yn hytrach na char ar gyfer rhan sylweddol o’u taith. Bydd ehangu’r cyfleuster parcio a theithio ym Mhengam yn ei gwneud hi’n haws i’r cyhoedd ddefnyddio’r gwasanaethau trên newydd sydd wedi gwella gymaint, yn enwedig wrth deithio i’r gwaith ac oddi yno.
- 3.156 Nid yw gofynion tir gwelliannau Pengam wedi eu trafod yn fanwl eto, a newydd gychwyn cael ei ddatblygu y mae’r cynllun. Mae’r CDLI yn nodi’r lleoliadau sydd ynghlwm â’r cynnig, ond nid yw’n ceisio diffinio’r tir y bydd ei angen. O ganlyniad, awgrym yw’r dynodiadau ac ni ddylid eu hystyried yn rhai terfynol.

Cynlluniau Gwella Trafnidiaeth – Y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol

TR5 Mae’r gwelliannau rhwydwaith canlynol wedi eu nodi mewn perthynas â Dyletswydd y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol:

- TR5.1 A467 Trecelyn i Crosskeys
TR5.2 A467 Trecelyn i Grymlyn
TR5.3 A472 Ystrad Mynach i Ffos-y-Gerddinen
TR5.4 Cyfnewidfa Trecelyn
TR5.5 A472 o Gylchdro’r Crown i Gylchdro Cwm Du

- 3.157 Bydd y CDLI yn gallu ymdopi a thwf yn y boblogaeth dros gyfnod y Cynllun ac mae wedi dynodi safleoedd ar gyfer tai, cyflogaeth ac anghenion eraill yn ôl y galw. Bydd y datblygiad hwn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth ar rwydwaith trafnidiaeth y Fwrdeistref Sirol, fydd yn arwain at fwy o dagfa. O ganlyniad mae meysydd ar gyfer gwella wedi eu nodi, fydd yn mynd i’r afael ag effaith y datblygiadau hyn gyda’i gilydd. Bydd mwy o waith yn cael ei wneud i ystyried effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd datblygiadau’r ardal a bydd cynlluniau newydd yn cael eu datblygu fel rhan o Ddyletswyddau’r Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol.

Heolydd Newydd i Hwyluso Datblygiad

TR7 Mae’r cynllun priffyrdd canlynol wedi ei nodi er mwyn hwyluso datblygiadau newydd:

TR7.1 Cyffordd Cwm Du / Cyffordd Maesycwmer

- 3.158 Er mwyn hwyluso datblygiad yr ysbyty yn Ystrad Mynach, mae angen gwelliannau i gyffordd Cwm Du (y gyffordd rhwng yr A472 a’r A469) yn sgil rhagamcanion am y cynnydd mewn traffig. Bydd hyn yn effeithio ar y cylchdro, a rhannau o’r A469 a’r A472, yn cynnwys y gyffordd a reolir gan oleuadau ym Maesycwmer.
- 3.159 Nid yw union drefn y llwybr wedi ei hystyried i fanylder eto. Mae Map Cynigion y CDLI yn nodi cyfeiriad cyffredinol y llwybr, ond nid yw’n nodi’r union dir fydd ei angen.

Dylid felly ystyried y dynodiad fel awgrym yn unig ac ni ddylid ystyried bod y llwybr yn derfynol. Gallai gwaith yn y dyfodol yn effeithio ar y llwybr.

GWEITHREDU A CHWBLHAU
Y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol

- 3.160 Er bod y sector preifat wedi mynegi diddordeb mawr mewn buddsoddi yn yr ardal yn y gorffennol, dim ond ychydig o gynigion datblygu safle newydd sydd yn y CDLI o’i gymharu â rhai sydd eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio. Mae hyn yn golygu mai cyfyng fydd cyfraniadau gan ddyletswyddau cynllunio yn y dyfodol, ac mai’r sector cyhoeddus fydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o ddarparu seilwaith y dramwyfa hon.
- 3.161 Mae’r ardal hon yn gymwys i dderbyn Cyllid Cydgyfeirio Ewropeaidd (2007-2013) ond nid yw’n ardal flaenoriaeth o fewn y rhaglen gan mai cymharol ychydig o anheddau difreintiedig iawn sydd ynddi. Mae prif safleoedd cyflogaeth mawr newydd y Fwrdeistref Sirol ynddi, fodd bynnag, a gellid disgwyl i’r rhain dderbyn cefnogaeth ariannol gref.


Risgiau

- 3.162 Mae’r safle ysbyty mawr newydd yn ddibynnol ar welliannau i’r A472 ym Maesycwmer ond mae’r ysbyty a’r gwelliannau cysylltiedig i’r briffordd wedi eu hariannu’n llawn.
- 3.163 Nid oes ddynodiadau eraill yn yr ardal hon sy’n ddibynnol ar welliannau seilwaith cyn eu gweithredu, er y bydd disgwyl i’r seilwaith yn gyffredinol gadw i fyny a datblygiadau.

Adran C: Polisiau Ardal Penodol

Ardal Strategaeth 3: Y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol (TCD)

Southern Connections Corridor (SCC)



CYD-DESTUN ISRANBARTHOL

3.164 Mae'r Prif Drefi, Caerffili a Risga/ Pontymister, mewn dau ddyffryn afon gwahanol. Er bod y ddwy, felly, yn rhan o'r Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol (TCD), nid ydynt yn gytref unedig fel sydd yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol (TCG).

3.165 Wrth i Gaerdydd a Chasnewydd dyfu'n fwyfwy llwyddiannus, mae Caerffili hefyd - a Risga i raddau llai - wedi gweld mwy o bwysau datblygu. Mae nifer sylweddol o ddatblygiadau wedi digwydd, yn enwedig ym Masn Caerffili dros y blynyddoedd diwethaf.

3.166 Tra bo angen i Risga/Pontymister fanteisio ar ei hagosrwydd at Gasnewydd, ac angen i Gaerffili wneud yr un peth gyda Chaerdydd a manteisio i'r eithaf ar y budd economaidd all ddod o hyn, mae hefyd angen sicrhau nad yw'r ardaloedd hyn yn datblygu cymaint tan i gynydd economaidd fynd yn drech na'r angen i warchod yr amgylchedd. Y flaenoriaeth yn yr ardal hon fydd datblygu safleoedd sydd yno eisoes ac nid ar ryddhau o'r newydd lawer o dir gwyrdd. Bydd angen, fodd bynnag, i'r Cynllun sicrhau nad yw'r tiroedd llwyd yn cael eu datblygu yn unig ar gyfer tai, ar draul y swyddogaethau gwasanaethu, cyflogi a manwerth sydd gan y canolfannau lleol.

3.167 O'r anheddau llai sydd yn y TCD, Bedwas/ Tretomas yw'r fwyaf o bell ffordd (8,000 o boblogaeth) ac mae ganddi swyddogaeth leol bwysig i'w chwarae yn narpriaeth ddiwylliannol Basn Caerffili, ac wrth ddarparu swyddi.

3.168 Basn Caerffili yw'r unig ardal fawr yn y Fwrdeistref Sirol sydd heb barc gwledig. O gofio pwysigrwydd datblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn ystod cyfnod y Cynllun, bydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol yn archwilio'r posibilrwydd o greu parc gwledig yn ardal Basn Caerffili, wedi ei gysylltu â'r rhwydwaith seiclo newydd ac yn ategiad i Gastell Caerffili, sydd eisoes yn denu twristiaid lu.

Ardal Islwyn Isaf

3.169 **Risga / Pontymister** yw prif ganolfan wasanaethu'r ardal hon. Mae'r Coleg Addysg Bellach yn Crosskeys yn gwasanaethu ardal ehangach. Mae'r ffaith fod Casnewydd, a Choed Duon i raddau llai, mor agos yn effeithio ar swyddogaeth fanwerthu'r ardal. Mae cyfle, fodd bynnag, i ailstrwythuro canol y dref a denu mwy o fuddsoddiad a gwneud yr ardal yn fwy deniadol i'r trigolion ac i ymwelwyr. Mae CM4.7, CM4.8 ac CM4.9 ar gyfer datblygiadau manwerthu o fewn Risga/ Pontymister, ac felly helpu i greu economi leol fwy amrywiol.

3.170 Mae cyfle yma i fanteisio ar y cyfleoedd sydd wedi dod yn sgil ailagor rheilffordd Cwm Ebwy ac adferiad y gamlas. Mae cyfle hefyd i greu datblygiadau cymysg eu defnydd, yn cynnwys cyflogaeth, manwerthu, tai ar dir llwyd byr Afon Ebwy. Bydd angen bod yn ofalus, fodd bynnag, gan fod llifogydd yn berygl i ardaloedd mawr ar waelod y dyffryn.

3.171 Yr A467 yw'r prif lwybr sy'n cysylltu Abercarn a Chwmcarn gyda Rhisga, yr M4 a Chasnewydd yn y de. Mae'r A4048 yn cysylltu gwaelod Dyffryn Sirhywi gyda chanolfan isranbarthol Y Coed Duon gerllaw a gyda chyfleoedd gwaith yn y TCG. Bydd agor gwasanaeth teithwyr Cwm Ebwy gyda gorsafoedd yn Abercarn, Cwmcam, Crosskeys a Phontymister yn ei gwneud hi'n haws teithio rhwng Trecelyn yn y gogledd a Risga, Caerdydd (a Chasnewydd yn y pendraw) yn y de.

3.172 Pentrefi preswyl yn bennaf yw **Abercarn, Cwmcarn, Tŷ Sign, Pontywaun, Cwmfelinfach, Wattsville** ac **Ynysddu**, er bod hefyd gyfleoedd gwaith yn y rhan fwyaf ohonyn nhw.

3.173 Mae'r ardal wledig o'u cwmpas yn cynnwys Llwybr Gyrru Coedwig Cwm Carn a Pharc Gwledig Sirhywi. Mae'n ardal bwysig yn nhermau twristiaeth felly. Bwriedir adeiladu ar hyn yng nghyd-destun Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

Basn Caerffili

3.174 **Caerffili** yw'r Brif Dref ym Masn Caerffili ac mae'n chwarae rhan bwysig yn nhermau siopa, cyflogaeth, hamdden a thwristiaeth yr isranbarth. Bydd cynigion datblygu sy'n cefnogi'r swyddogaeth hon mewn ffordd sy'n cyd-fynd a'r strategaeth a pholisïau'r Cynllun yn cael eu croesawu. Bydd dynodiadau priodol yn cael eu gwneud o fewn yr anheddau i alluogi hyn. Fel lleoliad sy'n darparu llawer o swyddi, bydd angen dynodi tir ar gyfer cyflogaeth o fewn Basn Caerffili. Y flaenoriaeth, fodd bynnag, fydd ailddatblygu safleoedd presennol, yn cynnwys canol y dref, i gynyddu pwysigrwydd y Basn fel canolfan fanwerthu a chyflogi.

3.175 Mae canol tref Caerffili yn ardal fanwerthu bwysig ac yn rhoi dewis i bobl yn hytrach na Chaerdydd ar gyfer siopa. Mae **CM2.2, CM4.10, CM4.11, CM4.12, CM4.13, CM4.14**, ac **CM5.3** yn annog ffyrdd amrywiol o ddefnyddio datblygiadau, sef manwerthu, hamdden fasnachol a swyddfeydd. Mae **Polisïau EM1** ac **EM2** yn

dynodi, ac yn gwarchod, fel y bo'n briodol, safleoedd cyflogi addas. Gyda'i gilydd, bydd y polisïau hyn yn creu economi leol amrywiol er budd y Fwrdeistref Sirol.

3.176 Mae sail ddiwydiannol gref i bentref **Bedwas** o hyd ac mae dwy ystâd ddiwydiannol fawr a llwyddiannus yno, yn Nhŷ Bedwas a Phant Glas. Rhwng y ddwy, mae ganddynt 61 hectar o dir. Bydd yr ardal yn parhau i ddarparu safleoedd o'r fath, drwy **Bolisïau EM1** ac **EM2**.

3.177 Mae cynigion i wella Neuadd y Gweithwyr ym Medwas a gwella'r ardal o'i chwmpas yn rhan o'r ymgais i greu swyddogaeth ddiwylliant a hamdden gryfach i Fasn Caerffili. O gofio ei hagosrwydd i Gastell Caerffili a Chanol Tref Caerffili, gallai bod potensial i ddenu twristiaid i'r ardal.

3.178 Bydd ailddatblygu Pwll Glo Bedwas yn effeithio'n fawr ar swyddogaeth Bedwas a Thretomos yn y dyfodol yn hyn o beth. Mae'r safle tir llwyd hwn yn gyfle i ehangu swyddogaeth breswyl Bedwas a darparu cyfleusterau hamdden a chymunedol a gwneud yr ardal yn fwy deniadol. Byddai angen gwella ffyrdd yr ardal yn sylweddol i alluogi'r datblygiad hwn. Rhagwelir y bydd ffordd fynediad newydd yn cael ei chreu o dan **Bolisi TR7**.

3.179 Mae cyfle hefyd i fanteisio ar safle'r pentref ar lan yr afon drwy ddatblygu parc Glanrafon o'r ddol a choetir sydd rhwng Bedwas a Thretomas. Mae **Polisi TM1** yn neilltuo Llwybr Glanrafon Rhymni ar gyfer twristiaeth.

3.180 Anheddau preswyl yn bennaf yw **Llanbradach, Abertridwr, Senghennydd, Tretomos, Graig y Rhaca, Waterloo, Rhydri** a'r **Draethen**. Yn Llanbradach yn unig y mae gorsaf drenau a chynllunnir cyfleuster parcio a theithio mawr yno o dan **Bolisi TR4**.

3.181 Dynodir tir ar safle'r hen waith paent yn Waterloo ar gyfer datblygiad preswyl yn cynnwys 545 o unedau. Mae hyn yn gyfle i ddiwallu anghenion tai poblogaeth y Fwrdeistref Sirol drwy ailddatblygu safle tir llwyd. Bydd Ysgol Gynradd hefyd yn cael ei darparu. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu cymuned ardal Rhydri / Waterloo.

3.182 Mae angen sefydlu cysylltiadau amlycach a mwy effeithlon i'r system drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn gwneud Canol Tref Caerffili a'r ardal o'i chwmpas yn fwy hygyrch. Mae hefyd angen sicrhau bod y rhwydwaith heolydd strategol yn cael ei wella mewn mannau pwysig, er mwyn sicrhau y gellir symud yn hawdd o fewn a thu hwnt i Ardal Basn Caerffili.

3.183 Taith 17 munud yn unig yw hi i Gaerffili o ganol Caerdydd. Mae hyn yn fantais economaidd hynod bwysig y bydd Y Cynllun am fanteisio i'r eithaf arni. Mae cysylltiadau heol a thrên i Gaerdydd yn arbennig o bwysig, gan eu bod yn hwyluso teithio lleol a hefyd yn gwasanaethu'r niferoedd uchel o bobl sy'n teithio i'r gwaith o'r gogledd yng Nghwm Rhymni.

3.184 Yn yr un modd, bydd y cysylltiadau trên o Gaerdydd a Chasnewydd yn cael eu hystyried yng nghynigion y Cynllun ar gyfer ardal Islwyn Isaf.

3.185 Wrth hwyluso teithio o fewn canol tref Caerffili, fodd bynnag, rhaid hefyd cofio am ystyriaethau amgylcheddol, yn enwedig yn nhermau ansawdd aer. Mae rhai ardaloedd yn methu â chyrraedd y safonau derbyniol. Mae'n rhaid i system drafnidiaeth gynaliadwy Caerffili sicrhau bod gofynion teithio yn cael eu diwallu tra bod ansawdd yr awyr yn yr ardaloedd poblog yn cael ei wella. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ymchwilio mesurau fydd yn gwella'r awyr yng nghanol y dref. Bydd rhai mesurau trafnidiaeth yn annatod yn rhan o'r mesurau hyn.

Polisïau Sy'n Benodol I Ardaloedd Yn Y Tcg

HUNANIAETH ANHEDDAU

Lletemau Glas

SI1 Nodir Lletemau Glas yn yr ardaloedd canlynol, a byddant yn cael eu gwarchod:

- SI1.14 Trecelyn ac Abercarn**
- SI1.18 Cwmcarn a Phontywaun**
- SI1.19 Cwmfelinfach ac Ynysddu**
- SI1.20 Penyrheol, Hendredenny ac Abertridwr**
- SI1.21 Llanbradach a Phwll-y-Pant**
- SI1.22 Bedwas a Chaerffili**
- SI1.23 Machen, Graig-y-Rhaca a Waterloo**
- SI1.24 Tŷ-Sign a Phontymister**

3.186 Mae'r Fwrdeistref Sirol yn ystyried yr angen i nodi a chynnal tir agored rhwng ac o fewn ardaloedd trefol ac anheddau yn bwysig. Mae hyn yn eu hatal rhag ymdoddi i'w gilydd ac yn gwarchod purdeb amgylchedd naturiol ac adeiledig. O fewn lletemau glas, bwriedir rhwystro unrhyw gynnig datblygu na fyddai'n cadw ei natur agored.

3.187 Mae wyth o letemau glas yn y TCD. Dim ond pan fônt yn ategu neu'n gwella cymeriad y lletemau glas y bydd cynigion datblygu yn cael eu hystyried. Mae disgrifiad manwl o'r dynodiadau lletemau glas yn **Atodiad 3**.

CADW'R AMGYLCHFYD NATURIOL

Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA)

NH1 Nodir Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn y lleoliadau canlynol, a byddant yn cael eu gwarchod:

- NH1.4 Gogledd Caerffili**
- NH1.5 De Caerffili**
- NH1.6 Mynydd Islwyn**

3.188 Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) yn ddynodiadau lleol, anstatudol, sydd am warchod ardaloedd sydd ag ynddynt nodweddion tirweddol, hanesyddol, diwylliannol, bioamrywiol a daearegol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Maen nhw'n elfennau pwysig o'r amgylchfyd naturiol, yn drefol ac yn wledig, ac yn gofnod byw o hanes esblygiad yr ardal. Maen nhw hefyd yn rhoi cyd-destun diwylliannol a gweledol i'r ardal. Mae dynodi ATA yn adlewyrchu'r ffaith bod angen edrych ar y dirwedd yn gyfan, ond gyda phwyslais ar natur 'arbennig' yr ardaloedd unigol.

3.189 Mae tair Ardal Tirwedd Arbennig wedi eu nodi yn ardal y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol. Bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu gwarchod rhag unrhyw ddatblygu a fyddai'n niweidio'u nodweddion arbennig. Nid bwriad y polisi hwn yw gwahardd unrhyw ddatblygiadau. Bydd rhaid i ddatblygwr, fodd bynnag, brofi na fydd datblygiad yn cael effaith andwyol ar y nodwedd arbennig sy'n gysylltiedig â'r ATA.

3.190 LANDMAP yw'r system wybodaeth genedlaethol sy'n gosod fframwaith i'r ffordd y dylid ystyried tirwedd wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Mae'n rhannu tirwedd yn bum rhan: tirweddau daearegol, tirweddau gweledol a synhwyrol, tirweddau cynefin, tirweddau diwylliannol a thirweddau hanesyddol. Mae'r system yn caniatáu i wybodaeth gael ei chasglu, ei threfnu a'i gwerthuso o fewn casgliad data sy'n gyson yn genedlaethol. Mae pob un o'r ATA wedi eu nodi drwy ddefnyddio gwybodaeth a methodoleg dynodi ATA. Mae hyn yn cydnabod y gall ATA gynnwys

darnau bychain o'r dirwedd leol nad yw'n cynnwys yr un graddau o bwysigrwydd tirweddol. Mae disgrifiad manwl o'r dynodiadau ATA yn Atodiad 1, sy'n dangos pa nodweddion tirweddol arbennig sydd ymhob ardal.

Tirwedd Lleol o Bwysigrwydd Gweledol (TLIBG)

NH2 **Nodir Tirweddau Lleol o Bwysigrwydd Gweledol yn y lleoliadau canlynol, a byddant yn cael eu gwarchod:**

NH2.3 **Abercarn**

NH2.4 **Rhydri**

3.191 Mae Tirweddau o Bwysigrwydd Gweledol (TLIBG) yn ddynodiadau anstatudol sydd â'r bwriad o warchod nodweddion arbennig o dirwedd weledol a synhwyrol y Fwrdeistref Sirol a sut yr ydyn ni'n ymateb i'r dirwedd o'n cwmpas. Mae TLIBG wedi eu nodi yn defnyddio ystyriaethau gweledol a synhwyrol LANDMAP. Mae dwy Dirwedd o Bwysigrwydd Gweledol yn y TCD.

3.192 Caniateir datblygu ddim ond pan fo'n gwarchod, a phan yn briodol, yn gwella nodweddion gweledol a synhwyrol arbennig y TLIBG. Dylai cynigion datblygu brofi bod y nodweddion gweledol a synhwyrol a nodir yn LANDMAP yn mynd i gael eu gwarchod a, phan yn briodol eu gwella, er budd y dirwedd weledol. Mae disgrifiad manwl o'r dynodiadau TLIBG yn **Atodiad 2**, sy'n crynhoi'r nodweddion gweledol a synhwyrol arbennig o fewn y TLIBG.

Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN)

NH3 **Nodir Safleoedd O Bwysigrwydd Cadwraeth Natur yn y lleoliadau canlynol, a byddant yn cael eu gwarchod:**

NH3.1 **Afon Rhymni**

NH3.11 **Afon Sirhywi**

- NH3.12 **Afon Ebwy**
- NH3.123 **Pwll Gwinau, i'r Dwyrain o Drecelyn**
- NH3.124 **Coetiroedd Cwm Gwyddon, Abercarn**
- NH3.125 **Cwm Pennar, Abercarn**
- NH3.126 **Coedwig Tyle Coch Wood, i'r Gogledd o Abercarn**
- NH3.127 **Coed Ffordd Fawr, Abercarn**
- NH3.128 **Coetiroedd Cwm Hafod Fach, i'r Gogledd o Abercarn**
- NH3.129 **Pwll y Distillery, Abercarn**
- NH3.130 **Mynydd y Lan, i'r Gorllewin o Cwmcarn**
- NH3.131 **Fferm Sychpan, i'r Gorllewin o Cwmcarn**
- NH3.132 **Cilfynydd, Cwmcarn**
- NH3.133 **Coetiroedd Mynydd y Lan, Cwmcarn**
- NH3.134 **Coedwig Cwm Gofia, Cwmcarn**
- NH3.135 **Tyle Cwm Carn, Cwmcarn**
- NH3.136 **Cangen Crymlyn o Gamlas Sir Fynwy/Aberhonddu**
- NH3.137 **Coed Mam-Gu, Crosskeys**
- NH3.138 **Twmbarlwm, i'r Gogledd o Risga**
- NH3.139 **Cwm y Nant, Rhisga**
- NH3.140 **Dolydd Ty-Sign, Rhisga**
- NH3.141 **Mynydd Machen, i'r Gorllewin o Risga**
- NH3.142 **Coed y Mochyn, Rhisga**
- NH3.143 **Coetir Darran, Fernlea**
- NH3.144 **Chwarel Risga, Fernlea**
- NH3.145 **Nant y Draenog, i'r Dwyrain o Wyllie**
- NH3.146 **Dolydd Pontgam Terrace, Wyllie**
- NH3.147 **Coetiroedd Craig y Prisiad, Ynysddu**
- NH3.148 **Mynydd y Grug, i'r Gorllewin o Gwmfelinfach**
- NH3.149 **Twyn yr Oerfel, i'r De o Gwmfelinfach**
- NH3.150 **Dolydd Parc Gwledig Sirhywi, Cwmfelinfach**

- NH3.151 **Nant Hafod Tudor, i'r Dwyrain o Gwmfelinfach**
- NH3.152 **Glaswelltiroedd Ochrrwyth, Ochrrwyth**
- NH3.117 **Coetiroedd Llanbradach Fawr, i'r Gogledd o Lanbradach**
- NH3.153 **Cae Nant Owen, i'r Gogledd o Lanbradach**
- NH3.118 **Tyle Mynydd Bach, i'r Dwyrain o Lanbradach**
- NH3.154 **Mynydd Dimlaith a Chwm y Bwch, i'r De-ddwyrain o Lanbradach**
- NH3.155 **Coed y Brain, Penyrheol**
- NH3.156 **Nant yr Aber**
- NH3.157 **Ty'n y Parc, Abertridwr**
- NH3.158 **Craigfyfedw, Abertridwr**
- NH3.159 **Cwm yr Aber, i'r De o Abertridwr**
- NH3.160 **Mynydd Meio, i'r De o Abertridwr**
- NH3.120 **Mynydd Eglwysilan, i'r Gogledd o Senghennydd**
- NH3.161 **Gwern a Choetir Nant Cae'r-Moel, Senghennydd**
- NH3.162 **Cae Glawnant, Senghennydd**
- NH3.163 **Gwlypdir Lôn y Sipsiwn, i'r De o Groes-Wen**
- NH3.164 **Comin, i'r De o Gaerffili**
- NH3.165 **Dôl Warren Drive, i'r De o Gaerffili**
- NH3.166 **Cyforgors Nant Gwaunybara, i'r Dwyrain o Gaerffili**
- NH3.167 **Coedlan Tŷ Melyn, i'r De o Barc Watford, Caerffili**
- NH3.168 **Coed y Maerdy, i'r Dwyrain o Gaerffili**
- NH3.169 **Chwareli Thornhill, Thornhill**
- NH3.170 **Rheilffordd Segur Caerffili / Machen, i'r Dwyrain o Dretomos**
- NH3.171 **Coedwig Berth Goch, i'r Gogledd o Dretomos**
- NH3.172 **Coetiroedd Graig y Rhaca, Graig y Rhaca**

- NH3.173 Glaswelltiroedd Graig-y-Rhaca, Graig-y-Rhaca
- NH3.174 Coetiroedd Machen, Machen
- NH3.175 Coed Pen-Llyn, Machen
- NH3.176 Chwarel Gerddi Tudor, Machen
- NH3.177 Coed Cefn-Pwll-Du, i'r De o Fachen
- NH3.178 Coed Craig Ruperra, i'r Dwyrain o'r Draethen
- NH3.179 Castell a Gerddi Ruperra , Y Draethen
- NH3.180 Coetiroedd Ruperra, i'r Dwyrain o'r Draethen
- NH3.181 Coedcefnporth, Cefn Mabli
- NH3.182 Coetiroedd Wernddu, Rhydri
- NH3.183 Esgair Cefn Onn, i'r De o Wern Ddu
- NH3.184 Comin Mynydd Rhydri, Rhydri
- NH3.185 Coetiroedd Rhydri, Rhydri
- NH3.186 Coed y Sgweiar a Choedcae, Rhydri
- NH3.187 Dolydd Blaengwynlais, Rhydri
- NH3.188 Coetir Nant Du, Rhydri
- NH3.189 Coetir Cwm Crynant, i'r De o Rydri
- NH3.190 Nant Fawr, i'r De o Rydri

3.193 Mae Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN) yn adnodd bioamrywiaeth pwysig sy'n cynnwys ardaloedd sylweddol o gynefinoedd a rhywogaethau. Mae'r dynodiadau yn seiliedig ar feini prawf gwyddonol gwrthrychol sy'n cyd-fynd â'r canllawiau Cymru-gyfan sy'n cael eu datblygu. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob safle sy'n cwrdd â'r meini prawf dynodi.

3.194 Caniateir datblygu fel arfer pan na fydd yn effeithio'n andwyol ar nodweddion arbennig y SBCN. Pan fo niwed yn annatod dylid sicrhau yr achosir cyn lleied o niwed a phosibl drwy fesurau fydd yn gwneud iawn amdano, a sicrhau na fydd gwerth cadwraethol yr ardal gyffredinol neu'r nodwedd yn cael ei niweidio. Pan nad yw hyn yn bosibl, dylid ymgorffori mesurau sy'n cadw, gwella a rheoli cynefinoedd a rhywogaethau sy'n nodweddiadol o'r ardal, yn cynnwys manylion ynghylch adfer ac adennill. Mae disgrifiad o'r SBCN dynodedig yn **Atodiad 4**.

MWYNAU

Parthau Clustogi Mwynau

- MN1 Nodir parthau clustogi o gwmpas y safleoedd mwynau canlynol:
- MN1.7 Chwarel Machen - Gweithredol
- MN1.8 Chwarel Cefn Onn - Segur
- MN1.9 Chwarel Cwmleyshon – Anweithredol
- MN1.10 Chwarel Blaengwynlais – Anweithredol
- MN1.11 Chwarel Pontymister – Segur
- 3.195 Disgrifir y cyfyngiadau datblygu sydd ynghlwm wrth y parthau hyn ym **Mholisi CW23** yn ail adran y Cynllun.
- Gwarchod Mwynau
- MN2 Nodir ardaloedd gwarchod mwynau yn y mannau canlynol:
- MN2.9 Brigiad deheuol, Caerffili/Isllwyn Isaf - Glo
- MN2.10 i'r Dwyrain i Lanbradach – Tywod a Graean
- MN2.11 I'r De-ddwyrain o Fachen – Tywod a Graean
- MN2.12 I'r Dwyrain o Fferm Gwernleyshon - Tywod a Graean
- MN2.13 I'r Gorllewin o Barc Fferm Cefn Mabli - Tywod a Graean

3.196 Mae Nodyn Cyngor Technegol Glo (MTAN 2 - Glo) yn dweud ei bod hi'n angenrheidiol i awdurdodau cynllunio lleol warchod adnoddau glo i'r dyfodol. Nid yw'r ffaith fod yr adnoddau yn cael eu gwarchod yn awgrymu y bydd gwaith o anghenraid yn cael ei ganiatáu yn y dyfodol, ond mae'n gwarchod y safle rhag cael ei ddifwyno gan ddatblygiadau eraill.

3.197 Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 - Agregau yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau cynllunio lleol i warchod adnoddau tywod a graean tir fel dewis o'r môr.

3.198 Mae Papur Cefndir 5 yn rhoi gwybodaeth fanwl am yr adnoddau glo a thywod a graean o fewn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol.

TAI

Safleoedd Tai Dynodedig

HG1	Mae tir wedi ei ddynodi ar gyfer tai ar hyd a lled y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol fel a ganlyn:			
		Enw'r Safle	Annedd	Maint(ha) Unedau
HG1.47	Tir i'r gorllewin o'r A467 ac Afon Ebwy +		Abercarn	8.7 269
HG1.48	Tŷ Twyncarn		Cwm Carn	0.39 26
HG1.49	Tir ar Hillary Rise +		Pontywaun	1.10 20
HG1.50	Tir nesaf at Heol Pen y Chwarel		Wyllie	1.60 56
HG1.51	Ti'r i'r gogledd-ddwyrain o Heol Llanarth +		Wattsville	2.16 30
HG1.52	Tir ar Station Approach, Rhisga +		Rhisga	0.51 10
HG1.53	Afon Rom +		Rhisga	1.9 38
HG1.54	Rhan ddwyreiniol y tir nesaf at Afon Ebwy		Pontymister	1.38 48
HG1.55	Ffatri Suflex		Pontymister	2.1 88
HG1.56	Fferm Tŷ'n y Waun +		Machen	0.77 10
HG1.57	Gweithfeydd Waterloo +		Waterloo	17.00 545
HG1.58	Hen Orsaf Betrol , Ffordd Casnewydd +		Tretomos	0.19 10
HG1.59	The Grove +		Tretomos	0.46 13
HG1.60	Pwll Glo Bedwas		Bedwas	36.22 630
HG1.61	Ysgol Gynradd Sant Iago		Caerffili	2.98 49
HG1.62	Tir ar Venosa Trading Estate		Caerffili	4.55 130
HG1.63	Tir ar Stâd Ddiwydiannol Pontypandy +		Caerffili	7.58 199
HG1.64	Ffordd Caerdydd/ Stryd Pentre-baen +		Caerffili	1.12 127
HG1.65	Tir rhwng Van Road / Maes Glas, a'r Rheilffordd +		Caerffili	1.77 62
HG1.66	Safle'r Gwaith Nwy, Ffordd y Felin +		Caerffili	2.20 55
HG1.67	Ysbyty Glowyr Caerffili		Caerffili	3.26 114
HG1.68	Castlegate +		Caerffili	24.1 259
HG1.69	Ysgol Fabanod Hendre		Caerffili	0.46 16
HG1.70	Ysgol Gynradd Cwm Ifor		Caerffili	2.8 46
HG1.71	Tir i'r dwyrain o Coedcae Road		Abertridwr	0.78 27
HG1.72	Pwll Glo Windsor		Abertridwr	5.51 193
HG1.73	Tir islaw Coronation Terrace +		Senghennydd	0.76 12
HG1.74	Jeremy Oils +		Llanbradach	1.80 45

+ Roedd gan y safle ganiatâd cynllunio o 1 Ebrill 2007
safle tai fforddiadwy 100%

CYFANSWM 134.15 3,127

- 3.199

Mae dynodi safleoedd ar gyfer datblygiadau preswyl yn bwysig i sicrhau y bydd digon o dir ar gael i ddiwallu anghenion y boblogaeth gynyddol a ragwelir i'r dyfodol. Mae cyfanswm o 3,127 o unedau wedi eu dynodi yn y TCD, mewn nifer o safleoedd, er mwyn adlewyrchu swyddogaethau'r anheddau. Yn yr ardal hon, mae 98% o'r cartrefi wedi eu dynodi ar dir llwyd. Mae safleoedd tir glas wedi eu dynodi pan fo ganddynt eisoes ganiatâd cynllunio neu pan fo'u hangen er mwyn cynnal dichonolrwydd yr anheddau unigol.
- 3.200

Mae tir sydd wedi ei ddynodi o dan y polisi hwn yn cynnwys:
 - Safleoedd gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer tai neu ddefnydd cymysg yn cynnwys tai o 1 Ebrill 2007 (yn amodol ar arwyddo Cytundeb Adran 106 mewn rhai achosion).
 - Safleoedd newydd sydd wedi eu nodi'n addas ar gyfer datblygiadau preswyl neu ddefnydd cymysg yn cynnwys tai, yn sgil proses asesu trylwyr ar ddarpar safleoedd.
- 3.201

Mae disgrifiadau manwl o'r dynodiadau safle hyn yn **Atodiad 7**. Mae **Atodiad 8** yn egluro'r arolygon a'r wybodaeth ychwanegol fydd angen eu cynnwys fel rhan o geisiadau cynllunio yn y dyfodol.
- 3.202

Awgrym yw'r nifer o unedau a nodir ar gyfer pob safle ac mae'n bosib y bydd mwy neu lai o dai yn dderbyniol pan fo datblygiad yn diwallu anghenion polisi eraill, yn cynnwys cynllun, cynladwyedd a datblygu eang.
- 3.203

Yn ogystal â'r tai fforddiadwy fydd yn cael eu creu drwy **Bolisi CW11**, nodir un safle ar gyfer tai fforddiadwy 100%. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at yr angen am dai fforddiadwy yn yr ardal. Mae'r safle a nodir yn realistig i'w nodi fel un 100% ar gyfer tai fforddiadwy oherwydd bod grantiau tai cymdeithasol ar gael ac oherwydd perchnogaeth y tir. Bydd hybu safleoedd eraill fel rhai 100% ar gyfer tai fforddiadwy yn cael eu ffafrio mewn leoliadau cynaliadwy, pan na fydd hyn yn andwyo'r nod o greu cymunedau cymysg.

CYFLOGAETH

Dynodiadau Cyflogaeth

EM1 Mae'r safleoedd canlynol wedi eu dynodi ar gyfer cyflogaeth, yn unol â'u statws o fewn yr hierarchaeth cyflogi:

Enw'r Safle	Annedd	Maint (ha)	Math	Enw'r Safle
EM1.12	Tir ar Barc Busnes Caerffili +	Caerffili	3.6	Prif Safle
EM1.13	Tir yn Nhrecennydd +	Caerffili	2.2	Safle Eilradd
EM1.14	Tir yn +	Caerffili	1.1	Safle Eilradd

+ C/C 1af Ebrill 2007

- 3.204

Mae gan y Prif Safleoedd dynodedig ddefnydd cymysg ar hyn o bryd, ac o'r herwydd fe'u hystyrir yn addas ar gyfer defnydd Dosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8sef swyddfeydd, diwydiant cyffredinol ac ysgafn, a defnydd warws. Disgwylir i gynigion datblygiadau ar dir gwag fod a defnydd tebyg.
- 3.205

Mae'r safleoedd yn Nhrecennydd a Western yn cael eu hystyried fel rhai sy'n addas ar gyfer defnydd sui generis yn ogystal â Defnydd Dosbarthiadau B1, B2 a B8.
- 3.206

Mae disgrifiad manwl o'r dynodiadau hyn yn **Atodiad 9**.
- Mae'r safleoedd dan sylw eisoes yn cael eu defnyddio mewn ffordd fyddai'n addas ar gyfer datblygiad sui generis gerllaw, neu maent y drws nesaf i safleoedd o'r fath. Gall defnydd sui generis chwarae rôl bwysig ym mhatrwm economaidd y Fwrdeistref Sirol, er ei bod hi'n bwysig eu bod yn ategu a chefnogi'r defnydd a wneir ar fusnesau o'u cwrpas, yn hytrach na bod yn niweidiol iddynt.

Gwarchod Safleoedd Cyflogaeth

EM2 Mae'r safleoedd canlynol wedi eu gwarchod ar gyfer cyflogaeth:

EM2.25	Pantglas, Bedwas	Prif Safle
EM2.26	Parc Busnes Caerffili	Prif Safle
EM2.27	Prince of Wales, Abercarn	Safle Eilradd
EM2.28	Nine Mile Point, Cwmfelinfach	Safle Eilradd
EM2.29	Blackvein, Wattsville	Safle Eilradd
EM2.30	Newtown, Crosskeys	Safle Eilradd
EM2.31	Ffordd y Parc, Rhisga	Safle Eilradd
EM2.32	Parc Rogerstone, Pontymister	Safle Eilradd
EM2.33	Tŷ Bedwas, Bedwas	Safle Eilradd
EM2.34	Ffordd Pontygywindy, Caerffili	Safle Eilradd
EM2.35	Trecennydd, Caerffili	Safle Eilradd
EM2.36	Western, Caerffili	Safle Eilradd

- 3.207

Yn ogystal â thir wedi ei ddynodi ar gyfer datblygiadau cyflogaeth yn y dyfodol (**Polisi EM1**), mae nifer o safleoedd eisoes yn y Fwrdeistref Sirol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyflogaeth. Bydd safleoedd fel y rhain yn cael eu gwarchod rhag datblygiadau y tu allan i'r defnydd sydd wedi ei nodi yn y categori perthnasol (e.e. defnydd dosbarth B1 yn unig ar gyfer prif safleoedd). Bydd y polisi hwn yn gweithio ar y cyd gyda **Pholisi CW13** yn hyn o beth.

DATBLYGIAD MASNACHOL

Ffiniau Prif Ganol Trefi

- CM1

Diffinnir ffiniau prif ganol trefi'r Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol fel a ganlyn:
- CM1.4

Rhisga / Pontymister
- CM1.5

Caerffili

- 3.208

Mae'r polisi hwn yn diffinio ffiniau'r ddau Brif Ganol Tref yn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol. Mae gan y Prif Drefi nifer o swyddogaethau wrth ddarparu

gwasanaethau i'r cyhoedd yn eu dalgylch. Nhw yw'r prif ganolfannau siopa, ond maent hefyd yn ganolfannau gwasanaethau masnachol, canolfannau gwasanaethau cymunedol, ac yn ganolfannau gweithgareddau hamdden masnachol hefyd. O ganlyniad, maent hefyd yn gyflogwyr mawr. Mae polisiâu manwerthu felly wedi eu llunio, gyda'r bwriad o warchod a gwella eu hyfywedd a dichonolrwydd masnachol. Mae'r polisi hwn yn gweithio ar y cyd gyda **Pholisi CW14**.

3.209 Prif fwriad y strategaeth fanwerthu yw parhau i gynyddu darpariaeth fanwerthu yn y Fwrdeistref Sirol drwy hybu cynnydd yn y nifer o ganolfannau siopa o ansawdd uchel sy'n cadw'r nodweddion cyfredol gorau a hybu buddsoddiadau siopa newydd a gwelliannau amgylcheddol. Mae'r polisiâu felly yn bwriadu canolbwyntio datblygiadau manwerthu o fewn y canolfannau siopa presennol a lleoliadau diffiniedig ar gyrion canolfannau er mwyn cynnal mathau penodol o siopau.

3.210 O ran y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol, Caerffili yw'r ganolfan fwyaf o bell ffordd, yn nhermau lloriau gwerthu, gwasanaethau a chyfleusterau hamdden masnachol, ac mae lawer yn fwy na'r tair prif ganolfan arall. Bu llawer o fuddsoddi yng nghanol y dref yn ddiweddar, ond mae cyfleoedd mawr o hyd i ddatblygu ar barc warws manwerthu Gallagher, ac mae caniatâd cynllunio eisoes wedi ei roi i ailddatblygu rhan fawr o Ffordd Caerdydd. Y bwriad felly yw cynnal a gwella'r gwelliant hwn i ddichonolrwydd a hyfywedd y dref. Byddid yn disgwyl hefyd

i swyddfeydd newydd gael eu hagor yng Nghaerffili. Mae perygl o lifogydd yn rhan o'r dref, fodd bynnag,. Bydd angen i gynigion datblygu yn yr ardal honno fynd i'r afael a'r perygl hwnnw.

3.211 Mae Rhisga / Pontymister hefyd yn ganolfan fanwerthu bwysig ac mae'r potensial yno ar gyfer darpariaeth fanwerthu newydd sylweddol. Mae perygl o lifogydd yn rhan o'r dref, fodd bynnag,. Bydd angen i gynigion datblygu yn yr ardal honno fynd i'r afael a'r perygl hwnnw.

3.212 Dangosir ffiniau diffiniedig y Ddau Brif Ganol Tref yn y Map Cynigion. Mae cynllun mwy o faint hefyd yn **Atodiad 11**.

Ffiniau Parc Warws Manwerthu Gallagher

CM2 **Diffinnir ffin y Parc Warws Manwerthu yn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol fel a ganlyn:**
CM2.2 Parc Masnachu Gallagher, Caerffili

3.213 Mae datblygiadau manwerthu eang eisoes wedi digwydd yng Nghaerffili, ac mae parc manwerthu newydd yn cael ei ddatblygu ym Mharc Warws a Manwerthu Gallagher. Mae dwy uned sydd â chaniatâd cynllunio yn sgil Cam 2 yn dal heb eu hadeiladu. Felly hefyd siop Focus a'i safle.

3.214 Mae'r Parc Warws a Manwerthu hwn wedi derbyn ffiniau diffiniedig er mwyn iddo achub y blaen ar leoliadau eraill llai addas y tu allan i'r ganolfan. Fe'i dewiswyd i gyd-fynd a darpariaeth fanwerthu bresennol Caerffili. Mae'r bwriad i'w flaenoriaethu, felly, yn gynaliadwy ac yn cefnogi amcanion cyffredinol y strategaeth fanwerthu. Bwriedir i'r polisi hwn gyd-fynd ag anghenion **Polisi CW17**. Mae perygl o lifogydd yn rhan o'r parc warws a manwerthu, fodd bynnag. Bydd angen i gynigion datblygu yn yr ardal honno fynd i'r afael a'r perygl hwnnw.

3.215 Dangosir ffiniau Prif Ardal Fanwerthu Gallagher ar y Map Cynigion. Mae hefyd mewn cynllun mwy o faint yn **Atodiad 11**.

Gwarchod Prif Ardal ar gyfer Prif Ganol Tref Caerffili

CM3 **Mae Ardal Fanwerthu wedi ei nodi yn y lleoliad canlynol:**
CM3.2 Llys y Castell, Caerffili

3.216 Mae'n briodol nodi Prif Ardal Fanwerthu yng nghanol tref Caerffili, lle bwriedir gwarchod ei swyddogaeth fanwerthu yn gyfan gwbl, er mwyn cynnal hyfywedd y ganolfan siopa. Byddai caniatáu mwy a mwy o siopau gwasanaethu (defnydd A2) fel banciau, cymdeithasau adeiladu ac asiantau tai, safleoedd bwyd a diod (defnydd A3) yng nghalon yr ardal siopa yn arwain at golli unedau manwerthu a blaenau siop 'marw'. Er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng gwarchod a bod yn hyblyg, mae Prif Ardal Manwerthu wedi ei nodi ar gyfer canol tref Caerffili, achos bydd wedyn yn ddigon bywiog i sicrhau y bydd yr unedau yn llawn o unedau manwerthu A1. Bwriedir i'r polisi hwn gyd-fynd ag anghenion **Polisi CW14**.

3.217 Mae ffin Prif Ardal Manwerthu Caerffili wedi ei phennu'n fanwl iawn er mwyn caniatáu y bydd lle ar gyfer unedau newydd a defnydd A2 ac A3 yng ngweddill y ganolfan fanwerthu, y mae digon ohono. Nid yw'r polisi, felly, yn cyfyngu ar ddefnydd o'r math hwn, gan fod gan hwnnw hefyd ran fawr i'w chwarae wrth greu canol tref bywiog. Ond mae'r polisi yn sicrhau na fyddant yn effeithio'n andwyol ar galon y gweithgareddau siopa. Yn Llys y Castell, fodd bynnag, gellir cael Defnydd Dosbarth A3 yn yr unedau hyd at y nifer sy'n unol a'r caniatâd cynllunio.

3.218 Dangosir ffiniau Prif Ardal Fanwerthu Caerffili yn y Map Cynigion. Mae cynllun mwy o faint yn **Atodiad 11**.

Safleoedd Datblygu Prif Dref a Chanolfannau Lleol

CM4 **Mae'r safleoedd Prif Dref a Chanolfannau Lleol canlynol wedi ei nodi ar gyfer datblygiadau manwerthu, hamdden fasnachol a swyddfa:**

	Enw'r Safle	Annedd	Maint (ha)	Math o Gynnig
CM4.7	Hen Sinema'r Palace +	Rhisga/Pontymister	0.2	Siop Fwyd
CM4.8	Nesaf at Lidl	Rhisga/Pontymister	0.5	Manwerthu
CM4.9	Safle'r Ffowndri	Rhisga/Pontymister	5.6	Archfarchnad Fwyd Fawr
CM4.10	Estyniad Parc Manwerthu Gallagher +	Caerffili	3.3	Defnydd Warws Manwerthu
CM4.11	Ailddatblygiad Parc Manwerthu Gallagher +	Caerffili	2.3	Defnydd Warws Manwerthu
CM4.12	Lôn y Parc	Caerffili	0.3	Hamdden Masnachol
CM4.13	Ffordd Caerdydd +	Caerffili	1.1	Siop Fwyd, Siopau manwerthu eraill
CM4.14	Castlegate +	Caerffili	3.5	Manwerthu, Swyddfeydd, Gwesty

+ C/C Ebrill 2008

3.219 Mae disgrifiad manwl o'r dynodiadau safle hyn yn **Atodiad 10**.

Ardal Cyfle Masnach

CM5 Nodir Ardal Cyfle Masnach yn y lleoliad canlynol:

CM5.3 Castle Street i Piccadilly, Caerffili

3.220 Mae Ardal Cyfle Masnach wedi ei nodi ar gyfer Prif Dref Caerffili, lle mae'n bosibl y bydd datblygu swyddfeydd yn arbennig o fuddiol. Ni fydd hyn, fodd bynnag, yn golygu na fydd datblygiadau tebyg mewn ardaloedd eraill heblaw'r Prif Dref yn y canol trefi dynodedig. Bwriad y polisi hwn yw darparu set arall o gyfleoedd i ysgogi twf economaidd pellach yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r rhan fwyaf o'r Ardal Cyfle Masnachol hon, fodd bynnag, ar dir sydd wedi ei ddynodi fel un sydd â pherygl o lifogydd. Bydd angen, felly, i unrhyw gynigion datblygu o fewn yr ardal hon fynd i'r afael a'r mater hwnnw. Dangosir ffin y safle dynodedig yn y Map Cynigion. Dangosir hi hefyd mewn cynllun mwy o faint yn **Atodiad 11**.

CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

Cyfleusterau Cymunedol

CF1 Nodir y safleoedd canlynol ar gyfer cyfleusterau cymunedol newydd:

- CF1.21 I'r gorllewin/dwyrain o Fynwent Abercarn, Abercarn – Estyniadau i'r Fynwent**
- CF1.22 Stryd Pencerrig, Llanbradach – Meddygfa**
- CF1.23 Canolfan Iechyd Senghennydd, Senghennydd – Meddygfa**

- CF1.24 Ysgol Ifor Bach, Senghennydd – Ysgol newydd**
- CF1.25 Ysgol Gynradd Cwm Ifor, Caerffili – Ysgol newydd**
- CF1.26 Nesaf at Fynwent Penyrheol, Caerffili – Estyniad i'r Fynwent**
- CF1.27 Ysgol Iau Hendre, Caerffili – Estyniad i'r ysgol**
- CF1.28 Ysgol Gynradd Sant Iago, Caerffili – Ysgol newydd**
- CF1.29 Canol y Dref, Caerffili, Caerffili – Llyfrgell/Canolfan Cwsmeriaid yn Gyntaf**
- CF1.30 Castlegate, Caerffili – Meddygfa/ cartref preswyl i'r henoed**
- CF1.31 Old Nantgarw Road, Caerffili – Mynwent newydd**
- CF1.32 Newydd y Gweithwyr a'r ardal, Bedwas – Canolfan Ddiwylliant**
- CF1.33 Hen Bwll Glo Bedwas, Bedwas – Ysgol Newydd**
- CF1.34 Hen Waith Paent Cray Valley, Waterloo – Ysgol newydd**
- CF1.35 Yr Hen Orsaf Fysiau, Crosskeys – Estyniad i'r Coleg**
- CF1.36 Sinema'r Palace, Rhisga – Llyfrgell**
- CF1.37 I'r de o Fynwent Danygraig, Rhisga – Estyniad i'r fynwent**

3.221 Mae disgrifiadau manwl o'r safleoedd dynodedig hyn yn **Atodiad 14**.

HAMDDEN

Gwarchod Mannau Agored Ffurfiol

- LE1 Mae tir wedi ei warchod ar gyfer mannau agored a defnydd parciau yn:**
 - LE1.20 Lawnt Goffa Cwm Carn, Cwm Carn**
 - LE1.2 Parc Waunfawr, Crosskeys**
 - LE1.3 Parc Tredegar, Rhisga**
 - LE1.4 Caeau Hamdden Tŷ Isaf, Pontymister**
 - LE1.5 Maes Athletau Pontymister, Pontymister**

- LE1.6 Parc y Welfare, Senghennydd**
- LE1.7 Parc Abertridwr, Abertridwr**
- LE1.8 Parc Llanbradach, Llanbradach**
- LE1.9 Parc Aneurin / Mynwent Penyrheol, Caerffili**
- LE1.10 Parc Morgan Jones, Caerffili**
- LE1.11 Parc Lansbury, Caerffili**
- LE1.12 Parciau Dafydd Williams / Owain Glyndŵr, Caerffili**
- LE1.13 Nesaf at yr Eglwys a'r Cerflun Goffa, Machen**

3.222 Mae parciau a gerddi ffurfiol yn ardaloedd dinesig deniadol i'w mwynhau gan y cyhoedd a dylid, felly, eu gwarchod. Dylid osgoi bwyta i'w ffiniau er mwyn datblygu er mwyn iddynt barhau i'r oesoedd a ddêl.

3.223 Mae gan lawer o barciau arddangosfeydd blodau, planhigion, meysydd chwaraeon, meysydd chwarae i blant a nodweddion dwr. Tra bo hyblygrwydd yn bwysig mewn datblygiadau mwyn caniatáu cysgodfeydd, pafiliynau ac adeiladau stori, dylid gwella'r agweddau hamdden bob amser.

Dynodi Parciau Gwledig

- LE2 Dynodir tir ar gyfer Parc Gwledig newydd Sirol yn:**
 - LE2.2 Parc Cymunedol Bedwas, Bedwas**

3.224 Ar hyd a lled y rhanbarth, mae nifer o barciau gwledig wedi cael eu datblygu, ar dir adeiledig a thir agored. Er mwyn sicrhau fod parciau o'r fath yn hygyrch i dwristiaid ymhob lleoliad a darparu rhwydwaith o safleoedd amwynder ar gyfer cerdded, seiclo, cadwraeth natur a phicnics, mae tir wedi ei neilltuo i ddatblygu parciau gwledig newydd.

3.225 Mae llwybrau seiclo eisoes wedi eu nodi yng nghanol a gwaelod y Fwrdeistref Sirol ac mae cyfle i gysylltu mwy a'r seilwaith (Llwybr Llinynnol Cwm Rhymni i Fedwas, er enghraifft, **TR1.13**). Bydd hyn yn bwydo

i'r cysylltiadau fydd yn eu tro yn ffurfio Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

3.226 Mae parciau gwledig yn gyfleusterau mawr, llai ffurfiol, sy'n adnodd gwerthfawr ar gyfer gweithgareddau hamdden. Maent yn ddigon agos i brif ganolfannau poblogaeth y Fwrdeistref Sirol, ond yn hollol wledig eu haniau. Yn yr achos hwn, bydd darpariaeth yn gyntaf ar gyfer 'parc poced' yn gwasanaethu ardal eang Basn Caerffili, ac yn enwedig y datblygiad defnydd cymysg ar safle gwaith glo Bedwas gerllaw. Cynigir parc gwledig yn yr hir dymor ar gyfer y tipiau glo sydd eisoes wedi ei hail-dirwedd, i'r gogledd o safle'r pwll glo.

3.227 Diffinnir parciau poced fel ardaloedd o ofod agored gyda phlanhigion sy'n galluogi'r ardal i fod yn ddeniadol ac atyniadol. Datblygiad o'r math hwn a gynigir ym Mharc Cymunedol Bedwas, gydag elfen gref o anffurfioldeb, yn creu natur parc gwledig bychan i'r ardal.

3.228 Cynigir bod darn o dir yn ymestyn o Afon Rhymni, ger Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas i ogledd-ddwyrain ystâd dai Graig y Rhaca yn Nhretomas yn cael ei gynnwys yn y dynodiad parc. Bydd y parc hwn yn ymgorffori amrywiaeth o diroedd hamdden ffurfiol ac anffurfiol, yn cynnwys caeau gemau, rhandiroedd a lawnt pentref.

3.229 Mae cadw coetiroedd sensitif yn flaenoriaeth, ynghyd a gwella'r dirwedd. Gobeithir y bydd yr anghenion hyn yn cael eu cydbwyso gyda defnydd helaethach o'r ardal wledig gan drigolion lleol, yn sgil gwell llwybrau a phwyntiau mynediad.

Gwarchod Parciau Gwledig

- LE3 Mae Parc Gwledig sy'n cyfrannu at Barc Rhanbarthol y Cymoedd yn cael eu gwarchod yn y mannau canlynol:**
 - LE3.6 Parc Gwledig Cwm Sirhywi, Ynysddu / Crosskeys**

3.230 Mae parciau gwledig yn gyfleusterau mwy o faint a llai ffurfiol, sy'n werthfawr i weithgareddau hamdden a thwristiaeth o fewn cyd-destun gwledig, yn agos at brif ganolfannau poblogaeth y Fwrdeistref Sirol. Er mwyn cydnabod eu pwysigrwydd i'r dirwedd fel atyniadau ymwelwyr ynddyn nhw eu hunain, ac i sicrhau eu bod yn dal i weithredu felly, mae'r Cynllun yn diffinio eu ffiniau er mwyn eu gwarchod rhag datblygiadau amhriodol.

Cyfleusterau Hamdden Ffurfiol

- LE4
- Nodir tir gyfer cyfleusterau hamdden yn cynnwys meysydd chwarae yn:
- LE4.11
- Llwyfandir Llanbradach, Llanbradach
- LE4.12
- Hen Bwll Glo Bedwas, Bedwas
- LE4.13
- Nesaf at Ysgol Gyfun Bedwas
- LE4.14
- Nesaf at Ysgol Sant Cennydd, Caerffili
- LE4.15
- Castlegate, Caerffili

3.231 Mae caeau gemau yn rhan allweddol o ddarpariaeth hamdden ffurfiol y mwyafrif o gymunedau. Wedi cymharu ansawdd cyfleusterau o'r fath yn erbyn 'Safon Chwe Erw' y Gymdeithas Caeau Gemau Genedlaethol, gwelwyd bod prinder o gaeau gemau o fewn y Fwrdeistref Sirol.

3.232 Tra bo hyn yn adlewyrchu lleihad cenedlaethol yn y ddarpariaeth, bwriedir safonau'r GCGG fel awgrym o'r hyn y dylai pob awdurdod lleol anelu tuag ato o ran polisïau defnydd tir, er mwyn atal y dirywiad hwn a chynyddu'r nifer o gaeau gemau unwaith eto. O ganlyniad, mae tomen

wastraff y gwaith glo gynt wedi ei nodi fel lle i ddatblygu cae gemau newydd.

Gwarchod Mannau Agored Anffurfiol

- LE5
- Gwarchodir tir at ddibenion hamdden a chymunedol anffurfiol yn:
- LE5.17
- I'r Gorllewin o Commercial Street, Senghennydd
- LE5.9
- Parc Treftadaeth, Abertridwr
- LE5.10
- Chwarel Rhisga, Rhisga
- LE5.11
- Holly Road, Rhisga
- LE5.12
- I'r Gogledd o Lôn Pontymason, Rhisga
- LE5.13
- Hen Seidins Energlyn, Caerffili
- LE5.14
- Pontypandy, Caerffili
- LE5.15
- I'r Dwyrain o Ddolydd Mornington, Caerffili
- LE5.16
- Castle View, Caerffili

3.233 Mae mannau agored llai ffurfiol ei natur yn aml yn elfennau gweledol pwysig o'r dirwedd faestrefol, ac yn gartref hefyd i fywyd gwyllt. Gallant, yn aml, ddenu'r cymunedau i gyfrannu at broiectau cadwraeth a theimlo perchenogaeth drostynt. Gellir mwynhau cerdded drwy'r ardaloedd hyn, ac weithiau gall seiclwyr eu defnyddio wrth deithio drwy'r ardal.

Twristiaeth

Cynigion Twristiaeth

- TM1
- Dynodir safleoedd at ddefnydd gweithgareddau ynghlwm â thwristiaeth yn:
- TM1.6
- Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, Cangen Crymlyn
- TM1.4
- Cwm Nantcarn, Cwmcarn
- TM1.5
- Llwybr Cerdded Glanrafon Rhymni - - Cefn Mabli
- TM1.6
- Gerddi Castell Caerffili, Caerffili

3.234 Mae gan Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu'r potensial i fod yn atyniad pwysig i ymwelwyr, fel llwybr ar gyfer cychod a

thrwy'r cysylltiadau fydd rhyngddi a'r rhwydwaith dŵr ehangach. Mae hefyd yn noddfa naturiol ac mae llwybrau tynnu a llwybr seiclo'r Llwybr Celtaidd yn rhedeg yn gyfochrog a hi. O'r herwydd, mae ardaloedd amwynder atyniadol iawn, y bydd y gamlas yn eu cysylltu yn ôl y tebyg. Bydd felly yn ddatblygiad pwysig i dwristiaeth.

3.235 Mae Llwybr Glanrafon Rhymni yn llwybr llinellol y gellir ei ddatblygu ar hyd rhwydwaith o fannau gwyrdd anffurfiol. Ar hyn o bryd mae'n dilyn Afon Rhymni tua'r de o Rymni. Mae'n gyfan hyd at y darn o'r afon rhwng Tiryberth a Hengoed, yn Maes-y-cymer ac yn Ystrad Mynach yn y Dramwyfa Cysylltiadau Gogleddol, lle mae rhannau ar goll. Wedi hynny, mae'n cysylltu anheddau yn y Dramwyfa Cysylltiadau'r Draethen a Chefn Mabli. Mae angen gwaith datblygu pellach yno hefyd. Mae'r llwybr yn cynnwys llwybrau cerdded wedi eu tirweddau gyda phwyntiau gwyllo. Mae'r rhain yn golygu y gall ymwelwyr fwynhau'r afon i'r eithaf. Bydd ei warchod yn fuddiol, er mwyn cwblhau'r llwybr cerdded hir.

3.236 O gylch Castell Caerffili, mae'r tiroedd yn rhan ganolog o gymeriad a lleoliad y castell, ac maent yn cyflawni swyddogaeth hamdden bwysig ger canol y dref. O'r herwydd, mae angen gwarchodaeth ar y tir er mwyn sicrhau y bydd ymwelwyr yn parhau i allu eu mwynhau ac y gallant gynnal digwyddiadau mawr fel y 'Caws Mawr'

Trafnidiaeth

Llwybrau Seiclo

- TR1
- Bydd tir yn cael ei warchod er mwyn hwyluso'r gwelliannau canlynol i'r rhwydwaith llwybrau seiclo:
- TR1.13
- Llwybr Seiclo Llinellol Cwm Rhymni – Blaenau'r Cymoedd i Fedwas / Caerffili, De
- TR1.14
- Llwybrau Radial Basn Caerffili
- TR1.15
- Cyswllt o Crosskeys NCN47 i Drecelyn

3.237 Mae gweld cynnydd yn y nifer o siwrneiau ar droed neu ar feic yn rhan allweddol o greu trafnidiaeth fwy cynaliadwy. Mae darparu rhwydwaith lleol o ansawdd dda o llwybrau sydd yno'n unswydd i'w cerdded neu seiclo arnynt yn allweddol i'r twf hwn.

3.238 Nid yw'r llwybrau penodol ar gyfer y gwelliannau uchod wedi eu hystyried yn fanwl eto, ac mae'r cynlluniau wedi eu datblygu i wahano raddau. Dangosir awgrym o drefn y llwybrau ym Map Cynigion y CDLI. Maen nhw'n awgrymu cyfeiriad cyffredinol y llwybr. Nid yw trefniadau'r llwybrau, felly, yn derfynol.

3.239 Yn ychwanegol at y cynlluniau posibl uchod, rhoddir blaenoriaeth hefyd i gynlluniau llwybrau diogel i Orsafoedd a llwybrau cymunedol diogel.

3.240 Bydd y llwybrau seiclo o fewn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol yn hybu adfywiad a chynnaladwyedd, yn annog ffyrdd iachach o fyw a chynyddu gweithgareddau corfforol, ac yn cyfrannu at ffyniant economaidd yr ardal.

3.241 Bydd y llwybrau rheilffordd gynt sydd â photensial i'w datblygu at ddibenion trafnidiaeth, yn enwedig y rhai sy'n hyrwyddo cerdded, seiclo, symud nwyddau ar drenau, yn cael eu gwarchod.

3.242 Bydd disgwyl ar i ddatblygiadau preswyl, gwaith, manwerthu, hamdden ac eraill, ymgorffori darpariaethau i gerddwyr a seiclwyr lle bynnag y bo'n bosibl a chysylltiadau/mynediad i'r rhwydweithiau cerdded a seiclo sy'n cael eu datblygu.

Gorsafodd Trên Newydd

- TR3
- Bydd y Cyngor yn gwarchod tir yn y lleoliad canlynol ar gyfer gorsaf drên newydd:
- TR3.3
- Energlyn / Parc Churchill

3.243 Bydd codi gorsaf newydd yn Energlyn yn gwella hygyrchedd y rhwydwaith rheilffyrdd i'r gymuned leol. Bydd yn hybu defnydd o wasanaethau trên ar hyd llinell Rhymni, sydd nawr â threnau'n mynd o Fargod i Gaerdydd bedair gwaith pob awr. Mae ymdrechion ar droed i chwilio am gyllid ar gyfer cam olaf y gwelliannau cynyddu trenau ar linell Rhymni. Bydd hyn yn golygu y bydd trên yn mynd pob hanner awr i Rymni. Mae codi gorsaf newydd yn Energlyn yn rhan o'r cynllun ehangach hwn.

3.244 Nid yw'r anghenion tir ar gyfer y gorsafoedd newydd wedi cael eu hystyried yn fanwl eto, ac mae'r cynlluniau wedi eu datblygu i wahanol raddau. Mae Map Cynigion y CDLI yn nodi'r lleoliadau cyffredinol sy'n ymwneud a'r polisi, ond nid yw'n ceisio nodi safleoedd penodol ar gyfer y cynigion. O ganlyniad awgrymu yn unig y mae'r dynodiadau, ac ni ddylid eu hystyried fel rhai terfynol.

Cyfleusterau Parcio a Theithio

TR4 Mae'r orsaf ganlynol wedi ei nodi ar gyfer gwell cyfleusterau parcio a theithio:

TR4.4 Llanbradach

3.245 Mae'r gwelliannau diweddar i linell Cwm Rhymni, yn cynnwys trenau mwy cyson a mwy o le ynddynt, a chychwyn gwasanaethau i deithwyr ar linell Cwm Ebwy, yn gyfle gwych i gynyddu'r defnydd ar drenau yn y Fwrdeistref Sirol. Mae darparu cyfleusterau parcio a theithio mewn gorsafoedd yn eu gwneud yn hwy hygyrch ac yn annog teithwyr i ddefnyddio'r trên

yn hytrach na char ar gyfer rhan sylweddol o'u siwrne. Bydd ehangu'r cyfleuster parcio a theithio yn Llanbradach yn cynyddu'r potensial i ddenu teithwyr, yn enwedig pobl yn teithio i weithio yng Nghaerdydd, a fydd felly yn defnyddio'r gwasanaeth trenau yn hytrach na theithio mewn car.

3.246 Nid yw'r dynodiad tir ar gyfer y gwelliant uchod wedi ei drafod i fanylder eto. Mae'r CDLI yn nodi'r lleoliad ar gyfer gorsaf drenau sydd ynghlwm â'r cynnig, ond nid yw'n ceisio diffinio'r tir y bydd ei angen. O ganlyniad, awgrym yw'r dynodiadau ac ni ddylid eu hystyried yn rhai terfynol.

Cynlluniau Gwella Trafnidiaeth – Basn Caerffili

TR6 Mae'r gwelliannau rhwydwaith canlynol wedi eu nodi mewn perthynas â Dyletswydd Basn Caerffili:

TR6.1 Llwybr Cerdded Tafwys

TR6.2 Cylchdro Trecennydd

TR6.3 Cylchdro Pwllpant

TR6.4 Cylchdro Pont Bedwas

TR6.5 System Gylchu Piccadilly

TR6.6 Penrhos i Bwllpant

TR6.7 Pwllpant i Fedwas

3.247 Bydd y CDLI yn gallu ymdopi a thwf yn y boblogaeth dros gyfnod y Cynllun ac mae wedi dynodi safleoedd ar gyfer tai yn ôl y galw. Bydd y datblygiad tai hwn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn trafndiaeth ar rwydwaith trafndiaeth y Fwrdeistref Sirol, fydd yn arwain at fwy o dagfyedd. O ganlyniad mae meysydd gwella i'r rhwydwaith trafndiaeth yn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol wedi eu nodi, fydd yn mynd i'r afael ag effaith y datblygiadau tai hyn gyda'i gilydd. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu darparu fel rhan o'r dyletswyddau cynllunio fydd yn cael eu rhoi ar ddatblygiadau preswyl.

Heolydd Newydd i Hwyluso Datblygiad

TR7 Mae'r cynllun priffyrdd canlynol wedi ei nodi er mwyn hwyluso datblygiadau newydd:

TR7.2 Ffordd Fynediad Pwll Glo Bedwas

3.248 Mae Pwll Glo Bedwas wedi ei nodi ar gyfer datblygiad aml ddefnydd. Mae'r ffyrdd mynediad i'r safle yn annigonol ar hyn o bryd fodd bynnag. Bydd datblygu'r safle, felly, yn golygu y bydd rhaid i unrhyw ddatblygwr godi ffordd fynediad newydd.

3.249 Nid yw union drefn y llwybr wedi ei hystyried i fanylder eto. Mae Map Cynigion y CDLI yn nodi cyfeiriad cyffredinol y llwybr, ond nid yw'n nodi'r union dir fydd ei angen. Dylid felly ystyried y dynodiad fel awgrym yn unig ac ni ddylid ystyried bod y llwybr yn derfynol. Gallai gwaith yn y dyfodol yn effeithio ar y llwybr.

Gwarchod Tranwyfa'r Ffordd Fawr

TR9 Bydd tir i'r De-ddwyrain o dref Caerffili yn cael ei warchod i atal datblygiadau pellach a fyddai o bosib yn peryglu creu Ffordd Osgoi De-ddwyrain Caerffili yn y dyfodol

3.250 Mae trafndiaeth, a thraffig sy'n ciwio a thagfeydd yn enwedig, yn effeithio'n fawr ar y materion ynghylch ansawdd awyr sy'n wynebu Canol Tref Caerffili. Mae rhai gwelliannau, fyddai'n helpu i leihau'r problemau traffig yng nghanol y dref, wedi eu hystyried fel rhan o'r CDLI. Y syniad mwyaf arwyddocaol yw creu ffordd osgoi ddeheuol i Gaerffili.

3.251 Er mwyn sicrhau y bydd unrhyw welliannau i'r rhwydwaith trafndiaeth yn arwain at wella ansawdd yr awyr yng nghanol y dref, bydd angen ymgymryd ag archwiliad cynhwysfawr i achosion y broblem, ac

asesiad manwl o'r opsiynau i fynd i'r afael â hi. Mae'n bwysig sicrhau, fodd bynnag, na chaniateir unrhyw ddatblygiad a allai beryglu creu ffordd osgoi yn y dyfodol, tra bo'r ymchwiliadau yn cael eu gwneud. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd y Cyngor naill ai'n cadarnhau llwybr ar gyfer ffordd osgoi neu yn dileu'r dramwyfa hon o'r Cynllun.

GWEITHREDU A CHWBLHAU

Y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol

3.252 Er bod y sector preifat wedi mynegi diddordeb mawr mewn buddsoddi yn y Dramwyfa Cysylltiadau Deheuol, ac ym Masn Caerffili yn enwedig, gyda phrisiau tir yn uchel o'u cymharu â gweddill y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n bosibl credu y bydd cyfraniadau ' ddyletswyddau cynllunio yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu'r seilwaith newydd fydd ei angen yn sgil y twf. Bydd angen, fodd bynnag i'r sector cyhoeddus ariannu'r diffygion presennol sydd yn seilwaith yr ardal.

3.253 Mae'r ardal hon yn gymwys i dderbyn Cyllid Cydgyfeirio Ewropeaidd (2007-2013) ond nid yw'n ardal flaenoriaeth o fewn y rhaglen gan mai cymharol ychydig o anheddau difreintiedig iawn sydd ynddi. Mae ynddi nifer o safleoedd tir llwyd ddylai fod yn gymwys ar gyfer cyllid llywodraethol ar gyfer ailddatblygu.

Risgiau

3.254 Bydd rhaid i welliannau, i'r seilwaith trafndiaeth yn enwedig, ddigwydd ar yr un pryd â datblygiadau i osgoi tagfeydd ym Masn Caerffili. Os nad yw ansawdd yr aer yn gwella yn nhref Caerffili, a gwaethygu y mae ar hyn o bryd, mae'n bosibl na ellir datblygu'n bellach yno. Rhaid mynd i'r afael â pherygl llifogydd yn ardal Rhisga/ Pontymister er mwyn gallu gwireddu cynigion i'r ardal honno.